Comisiwn Ffiniau
i Gymru

Boundary Commission
for Wales

Comisiwn Ffiniau
i Gymru

# Gwrandawiadau Cyhoeddus: Abertawe

Trawsgrifiad o'r Gwrandawiad Cyhoeddus

**Abertawe**

**Allwedd**

| | |
|---|---|
| AC1: | Andrew Clemes |
| SP: | Steven Phillips |
| SW: | Shereen Williams |
| EH: | Estelle Hart |
| SK: | Stephen Kinnock |
| TG: | Tom Giffard |
| FO: | Francesca O'Brien |
| DC: | David Collins |
| CR: | Catherine Richards |
| JE: | Jamie Evans |
| GJ: | Glydon Jones |
| GD: | Geraint Davies |
| AC2: | Alun Cairns |
| RS: | Robert Smith |
| PM: | Penny Matthews |
| AW: | Alex Williams |
| LJ: | Lynne Joyce |
| PHW: | Paxton Hood-Williams |
| ET: | Emma Turner |
| MO: | Mike O'Carroll |
| RH: | Riaz Hassan |
| EMA: | Elizabeth Myra Aldworth |
| WD: | Wayne David |
| CM: | Chris Morgan |
| JW: | Joanne Wallow |
| RA: | Robert Allender |
| TW: | Tina Williams |
| DP: | Dinah Pye |
| GH: | Gerald Holtham |
| KW: | Katherine Whitehead |
| JD: | Jacob Deluc |

[Trawsgrifiad yn dechrau 00:00:00]

AC1: Bore da, croeso. Bore da a chroeso i Abertawe. Fy enw i yw Andrew Clemes ac rwy'n Gomisiynydd Cynorthwyol ar gyfer y Comisiwn Ffiniau i Gymru. Fi fydd yn cadeirio'r gwrandawiad cyhoeddus heddiw. Mae'r panel heddiw yn cynnwys fy nghyd Gomisiynydd Cynorthwyol, Steven Phillips, i'r dde i mi, ynghyd â Shereen Williams i'r chwith i mi, sy'n Ysgrifennydd i'r Comisiwn. Rwyf hefyd yn gyfrifol, ynghyd â'm cyd Gomisiynwyr Cynorthwyol, am ddadansoddi'r holl gynrychiolaethau a gafwyd yn ymwneud â'r cynigion cychwynnol ac yna cyflwyno argymhellion i'r Comisiwn ynghylch p'un a ddylid diwygio'r cynigion cychwynnol hynny ai peidio. Dechreuodd yr ail gyfnod ymgynghori o chwe wythnos ar 17 Chwefror, a bydd yn para hyd 30 Mawrth ac, yn ystod y cyfnod hwnnw, bydd cynrychiolaethau ysgrifenedig a llafar yn y gwrandawiadau cyhoeddus hyn yn cael eu derbyn i'w hasesu ac, yn y pen draw, i ni lunio adroddiad arnynt i'r Comisiynwyr. Dylwn bwysleisio y bydd cynrychiolaethau a wneir yn ysgrifenedig yn y Gymraeg

neu'r Saesneg yn cael yr union un ystyriaeth a phwysau a'r rhai a wneir ar lafar mewn unrhyw un o'r gwrandawiadau cyhoeddus, ac y gall unrhyw un sy'n siarad mewn gwrandawiad gwneud cynrychiolaethau ychwanegol yn ysgrifenedig os byddant yn penderfynu gwneud hynny. Dylai cynrychiolaethau ysgrifenedig, lle bo hynny'n bosibl, gynnwys yr un wybodaeth i'r Comisiwn ag y byddwn yn gofyn amdani gan bob un o'r siaradwyr yn y gwrandawiad hwn, sef enw, tref neu ardal breswyl, ymlyniad, os oes un, mewn geiriau eraill a ydych chi'n siarad ar ran chi'ch hun yn unig neu ar ran grŵp ac, os felly, pa grŵp. Mae'n bwysig iawn nodi bod rhaid i unrhyw gynrychiolaethau gyrraedd y Comisiwn cyn diwedd y cyfnod ymgynghori, sef 30 Mawrth. Felly, ni all unrhyw gynrychiolaethau sy'n cael eu derbyn ar ôl y dyddiad hwnnw gael eu hystyried ac ni fyddant yn cael eu hystyried yn ystod y rownd ymgynghori hon dan unrhyw amgylchiadau. Gall cynrychiolaethau gael eu gwneud ar borth ymgynghori'r Comisiynydd, yn ysgrifenedig neu drwy'r e-bost ac mae'r holl wybodaeth ofynnol i'w gweld ar wefan y Comisiwn. Diben y gwrandawiad cyhoeddus hwn yw cynnig cyfle i bobl wneud cynrychiolaeth am unrhyw un o gynigion cychwynnol y Comisiwn yn ymwneud â'r etholaethau Seneddol yng Nghymru, gan gynnwys enw unrhyw etholaeth a chyflwyno unrhyw wrthgynigion. Dylech gofio bod rhaid i unrhyw gynigion newydd neu ddiwygiadau neu newidiadau i'r cynllun gwreiddiol gydymffurfio â'r un gofynion a bennwyd i'r Comisiynwyr, fel sy'n cael eu hamlinellu yn Neddf Etholaethau Seneddol 1986, fel y'i diwygiwyd. Mae mwy o fanylion am y ddeddfwriaeth wedi'u hamlinellu yn adroddiad cynigion cychwynnol y Comisiwn a'i ganllaw i'r arolwg, y mae copïau ohonynt ar gael yma heddiw ar ffurf copïau papur ac ar-lein. Byddaf yn cynnal y gwrandawiad hwn yn anffurfiol, fel mae'r amgylchiadau'n caniatáu, ond mae gofynion penodol y bydd angen i ni gydymffurfio â nhw. Bydd yr holl siaradwyr yn dod i'r ddarlithfa ar y chwith i mi i wneud cynrychiolaethau, a bydd yn ofynnol i bob un ohonynt roi eu henw, eu hardal breswyl a'u hymlyniad, os oes un. Sylwer y bydd yr holl gynrychiolaethau'n cael eu recordio i'w trawsgrifio, felly dylech siarad yn glir ac yn araf er mwyn i'ch cyflwyniad gael ei ddeall yn dda a'i recordio. Nid wyf yn bwriadu caniatáu unrhyw groesholi, ond efallai y byddaf yn caniatáu cwestiynau sy'n ceisio eglurhad ar bwynt penodol, ond dim ond trwof fi fel y cadeirydd. Bydd yn ofynnol i unrhyw un sy'n gofyn cwestiwn roi'r un manylion personol â'r rhai sy'n gwneud cynrychiolaethau. Mae trefn rhaglen ar gyfer y siaradwyr a byddwn yn ceisio cadw ati, ond efallai y bydd angen i ni newid y drefn o bryd i'w gilydd yn ôl argaeledd y siaradwyr. Er mwyn hwyluso'r gwrandawiad a'n tasg ni, dylech gadw at eich amser a'r lwfans amser a roddir i chi, neu mae perygl i chi gael eich atal hanner ffordd drwodd. I'r perwyl hwnnw, mae aelod staff â cherdyn rhybudd a fydd yn cael ei godi i roi gwybod i chi bod gennych ddau funud o'r 10 munud a roddwyd i chi ar ôl. Dylech ddangos pa ardal neu ardaloedd y mae'ch cynrychiolaeth yn ymwneud â hi neu nhw. Helpwch ni drwy ddweud wrthym pam rydych yn gwneud cynnig, yn hytrach na rhoi gwybod i ni beth yw'r cynnig yn unig. Ceisiwch beidio ag ailadrodd eich hunan neu gyflwyniadau manwl pobl eraill. Os hoffech gefnogi cynnig neu gynrychiolaeth siaradwr blaenorol, dywedwch hynny ond nid oes angen i ni glywed y manylion eto, o reidrwydd. Dylech fod yn ymwybodol na fyddwn yn derbyn cynrychiolaethau sy'n ymwneud â gwrthwynebiadau i'r rheolau sydd wedi'u pennu mewn statud yn unig, yn hytrach na chynigion y Comisiwn. Nid trafod y Ddeddf a basiwyd gan Senedd y Deyrnas Unedig yw diben y gwrandawiad hwn ac, wrth gwrs, nid oes gennym unrhyw rym i argymell newid, unrhyw newidiadau iddi beth bynnag. Cewch annerch y gwrandawiad yn y Gymraeg neu'r Saesneg fel y mynnwch, ond dylech ddatgan pa iaith y byddwch yn ei defnyddio cyn i chi wneud

cynrychiolaeth er mwyn i'r rhai sy'n dymuno defnyddio clustffonau ar y pryd, clustffonau cyfieithu ar y pryd, allu gwneud hynny o'r dechrau. Dylech aros yn y tu blaen ar ôl eich cynrychiolaeth er mwyn i unrhyw gwestiynau o eglurhad gael eu gofyn, os oes rhai. Mewn ychydig funudau, byddaf yn gwahodd ysgrifennydd y Comisiwn Ffiniau i Gymru, Shereen Williams, i amlinellu ein horiau eistedd, ymdrin â rhai materion ymarferol a'n helpu drwy amlinellu cynigion y Comisiwn, ond sylwch fod yr holl ddeunyddiau sy'n berthnasol i'r cynigion ar gael yn y cyfarfod hwn i chi edrych arnynt ar unrhyw adeg yn ystod y gwrandawiad. Ar ben hynny, mae staff o'r Ysgrifenyddiaeth ar gael yma drwy'r dydd. Mae croeso i chi helpu. Mae croeso i chi ofyn am unrhyw help neu wybodaeth sydd eu hangen arnoch neu os oes unrhyw beth yn aneglur. A allaf ddod â'r sylwadau hyn i ben ac agor y gwrandawiad cyhoeddus hwn yn ffurfiol drwy danlinellu'r ffaith nad yw fy nghydweithwyr na minnau wedi cyfrannu o gwbl at benderfynu ar y cynigion cychwynnol. Felly, nid ydym ni yma i'w cefnogi nac, yn wir, eu gwrthwynebu. Rydyn ni'n unigolion annibynnol a benodwyd gan y Comisiwn Ffiniau i Gymru i ystyried yr holl gynrychiolaethau a wneir mewn perthynas â'r cynigion hyn yn wrthrychol ac yn annibynnol a, maes o law, argymell i'r Comisiwn a ddylid diwygio ei gynigion a sut y gellid gwneud hynny. Yna, bydd y Comisiynwyr yn ystyried unrhyw argymhelliad tebyg ac yn penderfynu a hoffai ddiwygio'r cynigion cychwynnol. Yna, byddai unrhyw ddiwygiad tebyg yn destun cyfnod ymgynghori cyhoeddus pellach. Shereen?

[00:06:26]

SW: Bore da a chroeso. Dydd Gŵyl Dewi hapus, bawb. Mae'r trafodion heddiw yn cael eu ffrydio'n fyw ac mae recordiad ar waith at ddibenion trawsgrifio, felly peidiwch â defnyddio eich dyfeisiau personol i dynnu lluniau na gwneud recordiadau o'r trafodion, os gwelwch yn dda. Os ydych chi'n bwriadu trydaru, tagiwch ni @BCOMWALES. Fel y soniodd Andrew, mae adroddiadau a'r canllaw ar gael ar y ddesg flaen, felly ewch i estyn copi ohonynt. Mae cyfleuster cyfieithu ar y pryd ar gael o'r Gymraeg i'r Saesneg. Os hoffech chi ddefnyddio'r gwasanaetha hwn, ewch i gasglu clustffonau gan ein cyfieithydd, Iola, yng nghefn yr ystafell. Bydd y gwrandawiad heddiw yn eistedd tan 8pm. Byddwn yn cymryd egwyl ginio rhwng 12 ac un ac efallai y byddwn yn cymryd rhai egwyliau byr ar adegau eraill yn ystod y dydd, yn ôl disgresiwn y cadeirydd. Byddaf yn defnyddio fy amser heddiw, rwy'n gwybod, rydych chi'n edrych yn llawn dychryn [chwerthin], mae'n ddiwrnod hir i ni gyd, ond fe ddown ni i ben, dyma'n trydydd gwrandawiad cyhoeddus felly fe wnawn ni ddal ati. Byddaf yn defnyddio fy amser heddiw i siarad drwy'r broses y mae'r Comisiwn wedi ymgymryd â hi hyd yn hyn, ynghyd â chynigion y Comisiwn. Wrth ddatblygu ei gynigion, mae'r Comisiwn yn gweithio i ystyried y ffactorau statudol sydd wedi'u pennu yn y ddeddfwriaeth, fel ystyriaethau daearyddol arbennig, ffiniau awdurdodau lleol, ffiniau llywodraeth leol a chysylltiadau lleol a ffiniau'r etholaethau presennol. Fel y gwyddoch, mae Senedd y DU, drwy Ddeddf Seneddol, wedi penderfynu y bydd gan bob etholaeth yn y DU dim mwy na 105% a dim llai na 95% o gwota etholiadol y DU, sef 73,393 o etholwyr. Canlyniad y ddeddfwriaeth hon yw y bydd nifer yr etholaethau yng Nghymru yn cael ei gostwng o 40 i 32 a bod rhaid i bob etholaeth, heblaw Ynys Môn, fod â rhwng 69,724 a 77,062 o etholwyr. Lansiodd y Comisiwn ei gynigion cychwynnol ym mis Medi'r llynedd, a dyna oedd dechrau'r broses yn hytrach na'r diwedd. Cyhoeddi'r cynigion cychwynnol oedd dechrau ein cyfnod ymgynghori cyntaf, a gynhaliwyd o 8 Medi hyd 3 Tachwedd 2021. Cawsom 1,211 o gynrychiolaethau a chyhoeddwyd y rhain

ar 17 Rhagfyr y llynedd. Rydym yn annog pobl i ystyried y cynigion manwl a'r cynrychiolaethau a gyhoeddwyd a rhoi gwybod i ni beth yw eu barn nhw ac, yn bwysig, a oes ganddynt wrthgynigion a fyddai'n bodloni gofynion y ddeddfwriaeth. Mae'r gwrandawiad cyhoeddus a'r gwrandawiadau cyhoeddus eraill rydym yn eu cynnal ledled Cymru yn rhan sylfaenol o'r broses hon. Fel y soniais yn gynharach, cawsom nifer fawr o gynrychiolaethau yn ystod y cyfnod ymgynghori cychwynnol. Roedd nifer fach o'r rhain yn gynrychiolaethau a oedd yn cwmpasu Cymru gyfan ac roedd y rhain gan y pleidiau gwleidyddol yn bennaf a rhai unigolion. Roedd mwyafrif y cynrychiolaethau a gafwyd yn canolbwyntio ar ardaloedd penodol a dyma rai o'r uchafbwyntiau. Roedd etholaeth arfaethedig Caerfyrddin yn cael ei chefnogi gan y cynrychiolaethau a gafwyd, yn gyffredinol, ond roedd gwrthwynebiadau yn ymwneud â throsglwyddo cymuned Llangynnwr i etholaeth arfaethedig Llanelli. Roedd llawer o'r ymatebwyr yn dadlau na ddylai cymuned Llangynnwr gael ei chynnwys yn etholaeth Caerfyrddin. Cafodd etholaeth arfaethedig Gorllewin Caerdydd nifer o gynrychiolaethau o wrthwynebiad, yn bennaf oherwydd cynnwys Pont-y-clun o Rondda Cynon Taf. Roedd yr ymatebwyr yn dadlau y dylai Pont-y-clun aros yn etholaeth Pontypridd Rhondda Cynon Taf. Roedd nifer o gynrychiolaethau a oedd yn gwrthwynebu etholaethau arfaethedig Merthyr Tudful ac Aberdâr a Phontypridd o ganlyniad i rannu Cwm Cynon. Cafodd ei ddadlau y dylid cadw hunaniaeth Cwm Cynon ac y dylai'r ardal gael ei chadw mewn un etholaeth. Roedd nifer o gynrychiolaethau yn gwrthwynebu etholaeth arfaethedig De Caerdydd a Phenarth gan ei bod yn cynnwys Dinas Powys o Fro Morgannwg, ac roeddent am i Ddinas Powys aros yn etholaeth Bro Morgannwg. Roedd gwrthwynebiadau i etholaeth arfaethedig Dwyrain Abertawe a Chastell-nedd yn canolbwyntio'n bennaf ar gyfuno rhannau o Abertawe â rhannau o Gastell-nedd Port Talbot. Roedd nifer o gynrychiolaethau hefyd yn dadlau y dylai Pontardawe, yn ardal Cwm Tawe uchaf, gael ei chynnwys yn etholaeth Abertawe yn hytrach nag etholaeth arfaethedig Aberhonddu a Maesyfed. Mae sawl cynrychiolaeth yn gwrthwynebu etholaeth arfaethedig Pen-y-bont, gan ei bod yn rhannu ardal awdurdod lleol Pen-y-bont ar Ogwr rhwng dwy etholaeth. Roedd rhai yn dadlau na ddylai Porthcawl gael ei chyfuno ag Aberafan Port Talbot ac mae pobl eraill yn gwrthwynebu rhannu'r ardaloedd y tu allan i ganol tref Pen-y-bont ar Ogwr. Mae nifer sylweddol o gynrychiolaethau yn gwrthwynebu'r cynigion ar gyfer Aberconwy a Dwyfor Meirionnydd. Roedd y cynrychiolaethau'n dadlau y dylai Bangor, y cynigir ei chynnwys yn Aberconwy, gael ei chynnwys yn gyfan gwbl mewn etholaeth Arfon. Roedd y prif wrthwynebiadau i etholaeth Wrecsam yn ymwneud â chynnwys Brymbo a'r Mwynglawdd yn etholaeth gyfagos Alun a Glannau Dyfrdwy. Roedd ymatebwyr yn dadlau y dylai'r cymunedau hyn aros yn Wrecsam. Roedd cefnogaeth i etholaeth arfaethedig Ceredigion Preseli. Roedd rhai cynrychiolaethau a gafwyd yn crybwyll y byddai'n well ganddynt gael etholaeth sydd wedi'i ffurfio'n gyfan gwbl o awdurdod lleol Sir Benfro. Cafwyd gwrthwynebiad cryf i etholaeth Gorllewin Casnewydd a Chaerffili oherwydd cyfuno ardaloedd dau awdurdod lleol ar wahân. Roedd ymatebwyr yn dadlau y byddai Cwm Sirhywi, sy'n rhan o etholaeth Islwyn ar hyn o bryd, yn cydweddu'n well â Chasnewydd yn hytrach na Chaerffili ei hun. Gwrthwynebwyd Dwyrain Casnewydd gan nifer fach o gynrychiolaethau a oedd yn gofyn bod Cil-y-coed yn aros yn Nwyrain Casnewydd, er bod cefnogaeth gyffredinol i etholaeth arfaethedig Sir Fynwy. Roedd nifer fach o gynrychiolaethau'n gwrthwynebu cyfuno Blaenau Gwent a Rhymni mewn un etholaeth oherwydd materion yn ymwneud ag amddifadedd. Yn anffodus, ni roddwyd unrhyw gyfuniad amgen. Roedd y prif wrthwynebiadau yn ymwneud â Delyn yn ymwneud â'i henw, ac roedd ffafriaeth i

ddefnyddio Dwyrain Clwyd yn lle hynny. Roedd sawl cynrychiolaeth yn anghytuno â Chlwyd, etholaeth arfaethedig Clwyd. Roedd y dadleuon yn amrywio, gan gynnwys fel y dylai Llandrillo yn Rhos gael ei chynnwys yng Nghlwyd yn hytrach na Llandrillo a Chorwen, Rhuthun, Prestatyn ac [anghlywadwy 00:12:17]. Roedd dadleuon yn erbyn etholaethau arfaethedig Alun a Glannau Dyfrdwy a Delyn yn canolbwyntio'n bennaf ar gynnwys Y Fflint a Bagillt yn Nelyn, gan y teimlwyd y dylid eu cynnwys yn etholaeth arfaethedig Alun a Glannau Dyfrdwy. Cafwyd cefnogaeth gyffredinol ar gyfer Maldwyn a Glyndŵr, gyda nifer fach yn gwrthwynebu enw'r etholaeth. Mae'r Comisiwn yn edrych ymlaen at gael mwy o gynrychiolaethau yn ystod y cyfnod ymgynghori hwn, a bydd yn cefnogi ein Comisiynwyr Cynorthwyol â'u hargymhellion ar gyfer cynigion diwygiedig. Rydym yn gobeithio cyhoeddi'r adroddiad cynigion diwygiedig ym mis Hydref eleni, a fydd yn agor ein cyfnod ymgynghori nesaf am bedair wythnos. Diolch am roi o'ch amser i wrando arnom ni heddiw. Byddaf yn trosglwyddo'r sesiwn yn ôl i'r cadeirydd er mwyn iddo ddechrau gwahodd y siaradwyr.

AC1: Diolch Shereen. Nawr, byddwn yn galw ar ein siaradwr cyntaf, sef Estelle Hart, sy'n cynrychioli Tonia Antoniazzi ar gyfer Gŵyr, rwy'n credu. Diolch.

[Saib o 00:13:10 hyd 00:13:16]

AC1: Felly, pe gallech chi ddechrau drwy amlinellu eich enw, eich ardal breswyl neu eich ymlyniad, os oes un, ac yna p'un a ydych chi'n siarad ar ran chi'ch hun neu ar ran y grŵp. Diolch.

EH: Iawn, Estelle Hart ydw i, rwy'n byw yng Ngŵyr ac rwy'n siarad ar ran yr Aelod Seneddol ar gyfer Gŵyr, Tonia Antoniazzi. Yn gyntaf, safbwynt Tonia yw ei bod hi'n cytuno â chynigion Llafur Cymru a gyflwynwyd i'r Comisiwn ac yn credu bod y cynigion cyfredol yn mynd yn groes i rywfaint o'r hyn y mae'r Comisiwn yn ceisio ei gyflawni, mewn gwirionedd, gan eu bod yn torri ar draws llawer o gymunedau buddiant naturiol yn etholaeth Abertawe. Er enghraifft, dadgyplu Sgeti ac Uplands ac ardaloedd fel Pontarddulais a Gorseinon. Mae Canol a Gogledd Abertawe fel y mae ar hyn o bryd, o ryw fath o safbwynt lleol, yn etholaeth braidd yn od. Ni ellir ei chyfiawnhau, mewn gwirionedd, fel cymunedau a naturiol yn gyntaf, yn ymestyn fel y mae o [anghlywadwy 00:14:09] ar gyrion Rhydaman, sef pentref bach Cymraeg ei iaith, bron iawn i ganol y ddinas, gan gymryd rhywfaint o ward Sgeti. Mae ward bresennol Dwyrain Abertawe a Gŵyr yn gyfuniad anghydweddol o gymunedau ar wahân sef [anghlywadwy 00:14:24] a Gogledd Gŵyr a bod Phenrhyn Gŵyr ag ardaloedd, rwy'n credu, a fyddai'n ymddangos yn lleol yn fwy na dechrau'r ddinas ei hun yn ward Sgeti a, chi'n gwybod, ardaloedd o fewn hynny, yn enwedig campws y brifysgol, yn enwedig cynnwys Mayals yn yr ardal hon yn mynd yn groes i sawl un o wrandawiadau blaenorol y Comisiwn Ffiniau a oedd yn datgan nad yw Mayals yn rhan o etholaeth Gŵyr a'i bod yn gweddu'n well i etholaeth sy'n fwy yng nghanol y ddinas. Mae'r cynnig amgen y mae Tonia yn ei gefnogi yn cynnig creu etholaeth drefol graidd a rhyw fath o etholaeth ymylol o'r etholaethau gwledig i'r gogledd o Abertawe a Phenrhyn Gŵyr. Felly, mae'n cadw llawer o etholaeth bresennol Gŵyr, heblaw Clydach, ac yn ychwanegu mwy o'r pentrefi gwahanol hynny fel Dynfant a Waunarlwydd; Waunarlwydd sy'n rhan o ward Cocyd ar hyn o bryd, a'r cynnig a fyddai'n tynnu Mayals a Sgeti o'r etholaeth honno, gan ailychwanegu Gorseinon, Penyrheol, Pontybrenin, Llwchwr Uchaf ac Isaf, Penlle'r-gaer, Llangyfelach, [anghlywadwy 00:15:34] yn ei gadael, yn bodloni

amodau'r Comisiwn o ran nifer yr etholwyr. Felly'r dadleuon o blaid hynny fyddai y byddai'r cynigion hyn yn creu dwy etholaeth fwy cydlynus o lawer, sef un yn canolbwyntio ar ganol Abertawe ac yn osgoi ymraniad artiffisial rhwng cymunedau Sgeti ac Uplands, gan gadw ardal myfyrwyr prifysgol Abertawe a chynnal eu cysylltiadau â chanol y ddinas. Mae hefyd yn cynnal y cysylltiadau cymunedol cryf rhwng ardaloedd fel Gorseinon, Pontarddulais, Tre-gŵyr a'r ardaloedd cyfagos. Roedd y cymunedau hynny, cyn ad-drefnu llywodraeth leol, yn eistedd yn yr un awdurdod lleol, sef Dyffryn Clun ac maent yn defnyddio'r un gwasanaethau a hybiau cymorth â'i gilydd, felly maent yn gweithredu o fewn hunaniaeth a gwasanaethau Dyffryn Clun, er eu bod nhw ar wahân o hyd. Yn benodol, rwy'n tybio y byddai'r cynigion, dywedwch y byddai'r rhannau hynny o Abertawe sydd agosaf at ganol y ddinas yn cael eu cynnwys yn etholaeth Canol Abertawe, byddai Gŵyr yn cynnwys, yn cynnwys amrywiaeth o drefi a phentrefi bach o feintiau amrywiol a chymunedau tra gwahanol. Gan ystyried y pethau hynny y soniais amdanynt gynt – Dynfant, [anghlywadwy 00:16:49] a Waunarlwydd, y mae gan bob un ohonynt hunaniaethau pentrefol gwahanol. Yna, byddai'r ddau brif ysbyty yn yr ardal yn yr etholaeth honno yng nghanol Abertawe, ynghyd â phrif ardaloedd y brifysgol a myfyrwyr, a byddai'r cymunedau traddodiadol Cymraeg hynny, sy'n fwy i ogledd yr etholaeth yn gyffredin, felly Pontarddulais, Gorseinon, Llwchwr, y pentrefi cyfagos hynny, i gyd wedi'u cynnwys mewn math o, mewn un etholaeth. Hefyd, ni ellir tanddatgan pwysigrwydd twristiaeth ym Mhenrhyn Gŵyr, a lleoliad naturiol Penrhyn Gŵyr â chyrchfannau eraill i dwristiaid, fel Mynydd y Gwair ar gyrion y Mynyddoedd Duon, a fyddai'n un peth a fyddai'n rhoi hunaniaeth llonydd, unigryw i'r etholaeth honno. Felly rwy'n meddwl ei fod yn bwysig i etholwyr, i bobl Abertawe, ddeall sut maent yn cael eu cynrychioli. Byddai'r cynigion hyn yn cyfateb yn agosach i etholaethau presennol y Senedd, a fyddai'n amlwg yn cael effaith fawr iawn i'r bobl sy'n byw yno, rwy'n credu. Felly maen nhw'n teimlo eu bod yn cael eu cynrychioli. Yn siarad fel rhywun a gafodd ei magu yn Abertawe, mae'r syniad efallai bod gan Sgeti fwy yn gyffredin â Phontarddulais na Gorseinon yn ymddangos braidd yn [anghlywadwy 00:18:05] i mi, hyd yn oed cyn i chi edrych ar unrhyw fath o wleidyddiaeth. Felly, o ran cynrychioli etholwyr, fel petai, a deall a theimlo neu roi llais o fewn etholaeth, yn enwedig yn yr ardaloedd gwledig hynny o amgylch y ddinas, ac rydym yn teimlo bod ein gwrthgynnig rydym yn ei gefnogi yn gwneud mwy o synnwyr ac yn cyd-fynd yn dda â nodau'r Comisiwn o greu, chi'n gwybod, etholaethau sy'n canolbwyntio ar gymunedau naturiol, fel petai, sydd â phethau'n debyg rhyngddynt. Diolch.

AC1: Diolch. A oes unrhyw gwestiynau o eglurhad o'r llawr? Ar y panel? Diolch yn fawr iawn.

EH: Diolch. Alla' i ddim credu y byddwch chi yma tan wyth o'r gloch.

[Chwerthin].

SW: Ac ar Ddydd Gŵyl Dewi hefyd. [Chwerthin].

AC1: Y siaradwr nesaf yw…

SW: Stephen Kinnock.

AC1: Stephen Kinnock, AS.

[Saib 00:18:56 hyd 00:19:06]

AC1: Iawn, pe gallech chi roi eich enw, y dref lle'r ydych chi'n byw a'ch ymlyniad. A ph'un a ydych yn siarad ar ran chi'ch hun neu ar ran y grŵp.

SK: Bore da, diolch yn fawr iawn i chi am y cyfle heddiw. Stephen Kinnock ydw i. Fi yw'r Aelod Seneddol Llafur ar gyfer Aberafan, felly'n amlwg mae gennyf ymlyniad gwleidyddol i'r Blaid Lafur. Ai dyna, oes angen unrhyw beth arall arnoch? Na. Diolch. Mae gan y Comisiwn Ffiniau waith anodd i'w wneud o ystyried y meini prawf llym a rhagnodol sydd wedi'u pennu yn y ddeddfwriaeth a'r arwyddocâd y mae'r Ddeddf yn ei roi i gwota etholiadol y DU. Mae'r dasg hyd yn oed yn fwy trafferthus wrth i chi ystyried y dopograffeg yng Nghymru a'r patrymau cyferbyniol o ran o boblogaeth, lle mae ardaloedd o gwmpas yr M4 a'r A55 yn drwm eu poblogaeth, o gymharu â'r ardaloedd prin eu poblogaeth yng nghanolbarth Cymru. Wedi dweud hynny i gyd fel cyd-destun, hoffwn ddweud bod cynigion y Comisiwn ar gyfer etholaeth bresennol Aberafan ac etholaeth newydd Aberafan Porthcawl yn cael eu croesawu. Maent yn cydnabod ac yn parchu'r cysylltiadau lleol rhwng y 13 ward yn Aberafan sy'n cael eu cynnig i ffurfio rhan o etholaeth Aberafan Porthcawl. Wrth edrych ar y tair agwedd allweddol, sef cysylltiadau hanesyddol, cysylltiadau economaidd a chysylltiadau trafnidiaeth ac, wrth gwrs, cysylltiadau cymunedol, y bedwaredd agwedd bwysig honno, o ran cysylltiadau hanesyddol, mae pob un o'r wardiau hyn yn rhannu treftadaeth ddiwydiannol, p'un a ydynt yn gymunedau a dyfodd o gwmpas y gwaith dur neu dreftadaeth lofaol y cymunedau yng Nghwm Afan. O ran cysylltiadau economaidd, mae'r cymunedau'n edrych tuag at dref Port Talbot fel eu canolfan economaidd, ac o'r cymunedau hyn y daw gweithlu'r gwaith dur. Mae llawer o'r busnesau lleol yn y cymunedau hyn yn dibynnu ar y gwaith dur, naill ai drwy'r cadwyni cyflenwi neu drwy'r gweithlu yn defnyddio eu busnesau. O ran cysylltiadau trafnidiaeth, mae'r cymunedau hyn yn cael eu gwasanaethu gan orsaf drenau Port Talbot ac mae'r gwasanaethau bws wedi'u cysylltu â Phort Talbot. O ran cysylltiadau cymunedol, mae plant o Gwm Afan a Llansawel yn cael eu haddysg uwchradd mewn ysgolion yn ardaloedd Aberafan, Baglan a Thai-bach yr etholaeth. Mae gan Gwm Afan gysylltiadau cynhenid ym Mhort Talbot. Mae'r cysylltiadau trafnidiaeth ac economaidd â'r dref. Daw enw Cwm Afan o afon Afan, yn yr un modd ag Aberafan. Mae'n siomedig nad yw'r tair ward sy'n cynnwys Sgiwen, Jersey Marine a Crymlyn Burrows yn ffurfio rhan o etholaeth arfaethedig Aberafan Porthcawl, ond mae'n ddealladwy y byddant yn cael eu cynnwys mewn etholaeth â Chastell-nedd, y mae ganddynt gysylltiad mawr â hi. Wrth edrych yn benodol ar Aberafan Porthcawl, yr etholaeth arfaethedig newydd. Roedd wardiau Corneli, Y Pîl, Rest Bay, Notais, Canol Dwyrain Porthcawl, Canol Gorllewin Porthcawl a Newton yn rhan o etholaeth Aberafan cyn yr arolwg ffiniau ym 1983, pan ddefnyddiwyd yr ardaloedd hyn, ynghyd ag ardaloedd o Ogwr, i greu etholaeth bresennol Pen-y-bont ar Ogwr. Yn debyg i'r cymunedau arfordirol yn Aberafan, maent yn rhannu llawer o'r un nodweddion. Mae Port Talbot yn dref porthladd ac roedd Porthcawl yn arfer bod yn borthladd glo. Fel Aberafan, mae gan Borthcawl hanes fel cyrchfan glan môr ac mae'n gyrchfan i dwristiaid o hyd. Yn ddaearyddol, mae'r Pîl yn agos iawn i ward Margam yn Afan ac mae nifer fach o etholwyr Aberafan sydd â chyfeiriad Y Pîl. Mae ganddi dreftadaeth ddiwydiannol hefyd, pyllau glo, golosgfa a gwaith haearn, fel y cymunedau yn Aberafan. Mae cysylltiadau trafnidiaeth da rhwng Port Talbot a Phorthcawl ar hyd yr A48. Trwy greu etholaeth newydd o 13 o wardiau o etholaeth

Aberafan a 10 o etholaeth Pen-y-bont ar Ogwr, mae hyn yn cyfyngu ar dorri ar draws ffiniau'r etholaethau presennol. Er y byddai'n well i etholaethau gyd-ffinio â ffiniau awdurdodau lleol, mae natur ragnodol y ddeddfwriaeth yn golygu nad yw hyn yn bosibl bob tro. Mae'r cynnig hwn yn lleihau amharu ar ffiniau llywodraeth leol drwy gynnwys dau awdurdod lleol yn unig, sef Castell-nedd Port Talbot a Phen-y-bont ar Ogwr. Wrth edrych ar y gwrthgynigion yn erbyn Aberafan Porthcawl, o edrych ar yr ymatebion i'r cynigion cychwynnol ar gyfer Aberafan Porthcawl, rwy'n ymwybodol o'r pryderon yn ymwneud â chynnwys wardiau sy'n ffurfio rhan o dref Pen-y-bont ar Ogwr yn y cynnig hwn. Fodd bynnag, mae'r cynigion amgen a awgrymwyd, a fyddai'n cynnwys Cwm Llynfi, Cwm Garw a Chwm Ogwr gyda'r trydydd, 13 ward, gyda'r 13 ward yn Aberafan yn creu problemau go iawn o ran cysylltiadau trafnidiaeth. Gall cysylltiadau trafnidiaeth gwael arwain at breswylwyr yn teimlo eu bod ymhell oddi wrth y rhai sydd wedi'u hethol i'w cynrychioli. Er bod Cwm Llynfi, Cwm Garw a Chwm Ogwr yn debyg i Gwm Afan ac yn rhannu llawer o'r un nodweddion ag ef, mae topograffeg y cymoedd hyn yn golygu bod cysylltiadau rhyngddynt yn anodd iawn. Byddai'r gwrthgynigion ar gyfer Aberafan Porthcawl naill ai'n golygu taith lafurus i gyrraedd rhannau o'r etholaeth neu'n cynnwys teithio drwy etholaeth gyfagos Pen-y-bont i gyrraedd eich cyrchfan. Y ffordd symlaf i deithio o Bort Talbot i Gwm Llynfi, Cwm Garw a Chwm Ogwr yw ar hyd traffordd yr M4. Fodd bynnag, dan y gwrthgynigion, byddai hynny'n golygu teithio ar draws etholaeth gyfagos Pen-y-bont. I deithio o Bort Talbot i Gwm Llynfi, Cwm Garw a Chwm Ogwr ac aros yn etholaeth Aberafan Porthcawl y gwrthgynnig, byddai'n rhaid i chi deithio i fyny Cwm Afan. Er bod y cysylltiadau ffordd rhwng Cwm Afan a Chaerau a Maesteg yn dda, er mwyn cyrraedd cymunedau fel Pontycymer a Blaengarw yng Nghwm Garw, byddai'n rhaid i chi deithio ar hyd Cwm Afan, i lawr i Gwm Llynfi ac yn ôl i fyny Cwm Garw, sef taith a fyddai'n cymryd tuag awr. Dewis arall fyddai teithio i fyny Cwm Afan, ar draws i Gwm Ogwr, i lawr Cwm Ogwr ac yn ôl i fyny Cwm Garw unwaith eto, sydd eto yn daith sy'n cymryd tuag awr. Mewn gwirionedd, bydd pobl yn defnyddio'r llwybr byrraf a mwyaf uniongyrchol ar hyd yr M4, gan fynd drwy'r etholaeth gyfagos. Byddai trafnidiaeth gyhoeddus sy'n cysylltu Cwm Garw a Chwm Ogwr hefyd yn cynnwys teithio drwy etholaeth gyfagos Pen-y-bont. Mae trafnidiaeth gyhoeddus ar gael o Bort Talbot i Faesteg, ond mae trafnidiaeth gyhoeddus o Bort Talbot i naill ai Blaengarw neu Nant-y-moel yn mynnu bws, taith ar fws i dref Pen-y-bont ar Ogwr yn yr etholaeth gyfagos, ac yna'n ôl ar hyd y cwm priodol. Felly, mae cynnig Aberafan Porthcawl yn cael ei groesawu a byddai'n gweithio yn y dyfodol, ond o ystyried y pryderon yn ymwneud â chynnwys wardiau sy'n ffurfio rhan o dref Pen-y-bont ar Ogwr yng nghynnig Aberafan Porthcawl, ac o ystyried y cysylltiadau cymunedol agos sydd gan yr ardaloedd preswyl hyn â Phen-y-bont ar Ogwr, pe byddai'r Comisiwn yn dymuno edrych ar y cynnig eto a mynd i'r afael â'r pryderon hyn, yna mân addasiad arall fyddai cynnwys ward Llangewydd a Brynhyfryd a ward Cefn Glas yn etholaeth arfaethedig Pen-y-bont. Byddai hyn yn gadael etholaeth Aberafan Porthcawl â 73,554 o breswylwyr, sydd ar ben isaf cwota etholiadol y DU, a byddai'n golygu y byddai etholaeth arfaethedig Pen-y-bont yn rhagori ar gwota etholiadol y DU â 77,626 o etholwyr. I ddygymod â hyn, gallai ward Cefn Cribwr gael ei symud o etholaeth arfaethedig Pen-y-bont i etholaeth arfaethedig Aberafan Porthcawl, a fyddai'n eu gadael â 76,446 a 74,743 o etholwyr, yn y drefn honno. Mae gan Gefn Cribwr gefndir glofaol, yn debyg i'r rhan helaeth o Gwm Aberafan, a hefyd, mae ganddi gysylltiadau agos â Mynydd Cynffig hefyd, sydd eisoes yn cael ei chynnig i fod yn rhan o Aberafan Porthcawl. I gloi, mae gan y Comisiwn Ffiniau i Gymru y dasg annymunol o roi'r ddeddfwriaeth hon ar waith. Mae pa gynigion bynnag sy'n

cael eu cyflwyno yn siŵr o siomi rhai pobl, ond mae hynny oherwydd y paramedrau cul a chaeth sydd wedi'u pennu yn y ddeddfwriaeth y mae'n rhaid i'r Comisiwn weithio oddi mewn iddynt. Mae Aberafan Porthcawl yn gynnig sy'n bodloni'r cwota etholiadol ac yn cydnabod ystyriaethau daearyddol arbennig, ffiniau llywodraeth leol, ffiniau etholaethau presennol, cysylltiadau lleol a'r anghyfleustra y mae'r newidiadau hyn yn eu creu, cyhyd ag y bo hynny'n ymarferol bosibl. Er nad yw'r cynnig yn berffaith o bell ffordd, ni allwn ganiatáu i'r perffaith fod yn elyn i'r da. Mae hwn yn gynnig sy'n bodloni'r gofynion sydd wedi'u pennu yn y ddeddfwriaeth a, gydag amser, gall weithio i'r etholwyr. Diolch.

[00:27:38]

AC1: Diolch. A oes unrhyw gwestiynau, mae gennym ni eglurhad o'r llawr. Mr Kinnock, a allech chi? Mae yna gwestiwn gan y panel, mae'n ddrwg gennyf?

SP: Dim ond pwynt sydyn o eglurhad. Yr hyn roeddech chi'n ei ddweud am etholaeth Pen-y-bont, a yw hynny'n adlewyrchu barn Plaid Lafur etholaeth Pen-y-bont?

SK: Alla' i ddim siarad ar ran Plaid Lafur etholaeth Pen-y-bont, syr. Rwy'n credu, ar y cyfan, bod Llafur Cymru wedi cefnogi'r cynlluniau hyn yn gyffredinol. Rwy'n credu bod rhai pryderon y soniais amdanynt yn benodol o ran gwahanu etholaeth Pen, Pen-y-bont. Ac mae yna gefnogaeth rwyf wedi'i chael wrth ymgynghori ag, wrth gwrs, does dim AS Llafur ym Mhen-y-bont ar hyn o bryd.

SP: Nac oes, nac oes.

SK: Ond gydag AS Llafur ar gyfer Ogwr, sy'n cefnogi'r mân newid a amlinellais ar y diwedd, cynnig amgen awgrymedig rydyn ni'n credu y gallai helpu i ddatrys rhai o'r problemau o gwmpas Pen-y-bont o bosibl.

SP: Defnyddiol.

SK: Felly mae AS Ogwr yn cefnogi hynny.

SP: Iawn.

SK: A Phlaid Lafur yr etholaeth.

AC1: Diolch. Diolch yn fawr iawn i chi.

SK: Mae'n ddrwg gennyf. Diolch.

AC1: Nawr, fe wnawn ni alw ar Tom Giffard. Mr Giffard, pe gallech chi ddod i'r ddarlithfa a rhoi eich enw, lle'r ydych chi'n byw ac, nid eich cyfeiriad, yn amlwg, yr ardal a'ch ymlyniad, os oes un. Mae gennych chi 10 munud a byddwch yn cael gwybod pan fydd gennych ddau funud ar ôl gan y fenyw ar y chwith.

TG: Defnyddiol iawn, iawn. Diolch. Tom Giffard ydw i. Fi yw'r Aelod o'r Senedd ar gyfer Gorllewin De Cymru, rwy'n cynrychioli Plaid Geidwadol Cymru. Ac rwy'n byw ym Mracla ym Mhen-y-bont ar Ogwr, lle bûm yn gynghorydd am bron i'r pum mlynedd diwethaf. Felly, hoffwn i ddechrau drwy fyfyrio ar rai o gynigion y Comisiwn yn fy

rhanbarth i. A hoffwn ddiolch i'r Comisiwn am y gwaith y mae wedi'i wneud. Ac rwy'n gwybod, fel y soniodd Mr Kinnock o'm blaen, bod paramedrau llym iawn y bu'n rhaid i'r Comisiwn weithio oddi mewn iddynt ac rwy'n credu, chi'n gwybod, bod llawer o'r cynigion, yn siarad o blaid pethau, oherwydd rwy'n credu, mewn gwirionedd, bod rhai o'r, rhai o'r atebion y maent wedi'u llunio yn ddigon synhwyrol, mewn gwirionedd. Felly, hoffwn ddechrau drwy amlinellu fy nghefnogaeth i etholaeth newydd Aberhonddu a Maesyfed i ddechrau. Rwy'n credu ei fod yn bwysig iawn, wrth edrych ar y paramedrau rhifiadol, bod cymuned Cwm Tawe wedi dod yn un erbyn hyn. Felly, er gwaethaf enw etholaeth Aberhonddu a Maesyfed, bu'r elfen honno o Gwm Tawe yn etholaeth Aberhonddu a Maesyfed erioed, mae tuag 20% ohoni yn ardal Ystradgynlais. A nawr, mae hynny'n dod â chymunedau ym Mhontardawe ac Ystalyfera o etholaeth Castell-nedd ynghyd. Felly, mae gan y ddwy gymuned hynny gysylltiad cynhenid ag Ystradgynlais ac mae Ysgol Gyfun Ystalyfera yn brawf o hynny, gyda llawer o ddisgyblion o'r cymunedau hynny'n disgyn i'r dalgylch hwnnw. Felly mae hynny'n golygu y byddai'r newidiadau'n cyd-fynd â disgwyliadau'r gymuned ac yn gwella cydlyniad yn y gymuned, mewn gwirionedd. Mae disgyblion ymhellach i fwrdd ym Mhowys yn Sir Frycheiniog yn mynd i Ysgol Gyfun Ystalyfera i gael addysg cyfrwng Cymraeg hefyd, felly mae'n cyd-fynd â gweddill ardal Powys mewn gwirionedd. Oherwydd darpariaeth ysgolion cyfrwng Cymraeg yn, yn ne Powys. Mae Pontardawe ac Ystalyfera, fel y soniais gynt, yn cysylltu'n dda iawn ag ardal Ystradgynlais ac yn debyg o ran eu natur a'u cymeriad. Mae cysylltiadau cyfathrebu a thrafnidiaeth da ar hyd yr A4067 ac mae nifer o wasanaethau bws sy'n cysylltu'r cymunedau hynny â'i gilydd. Felly, yn fy marn i, mae'n gwneud synnwyr llwyr cynnwys y cymunedau organig, sefydledig hyn gyda'i gilydd mewn etholaeth gyffredin, yn hytrach na'u gwahanu'n artiffisial fel y mae'r ffiniau presennol. Yn ail, hoffwn siarad o blaid etholaeth Dwyrain Abertawe a Chastell-nedd, sy'n cyd-fynd â hanes, daearyddiaeth a chymeriad yr ardal, yn fy marn i. Mae llawer o'r cymunedau yng nghymuned bresennol Dwyrain Abertawe yn rhannu llawer yn gyffredin â Chastell-nedd, o ran diwylliant a seilwaith, ac felly byddai'n ddigon cyfforddus yn yr etholaeth newydd honno. Bydd cynnwys Clydach, yn fwyaf nodedig, yn sicrhau cysylltiadau trafnidiaeth da rhwng y ward honno yng ngorllewin yr etholaeth arfaethedig, yn ogystal â chymunedau St Thomas a Gorllewin Coed-ffranc yn y de. Mae hefyd yn bwysig cofio bod campws newydd Prifysgol Abertawe yn y Bae, er enghraifft, wedi'i leoli yn ward Gorllewin Coed-ffranc ac efallai nad yw pobl neu fyfyrwyr sy'n mynychu'r brifysgol honno, llawer ohonynt rwy'n siŵr, yn deall eu bod yng Nghastell-nedd Port Talbot. Mae hefyd yn ddefnyddiol bod y cynigion yn cadw llawer o ardaloedd tebyg gyda'i gilydd, fel Llansamlet a Bôn-y-maen, a fyddai'n helpu i leihau unrhyw aflonyddwch a fyddai'n cael ei achosi gan y newidiadau hynny. Rwy'n credu ei fod yn creu etholaeth â chysylltiadau da sydd â phentrefi a chymunedau sy'n rhannu hunaniaeth gyffredin, felly gall weithio'n gydlynus fel etholaeth. Rwy'n gryf o blaid cyfuno'r 20 ward ym Mwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, tair yn Aberafan ac 17 yng Nghastell-nedd, ynghyd â phedair ward yn Ninas a Sir Abertawe, sy'n cynnwys tair o sedd bresennol Abertawe ac un, fel y soniais gynt, Clydach o etholaeth Gŵyr. Rwy'n credu bod y newidiadau hynny'n rhesymol, yn gymesur, yn sensitif i deimladau lleol ac yn dod ag ardaloedd ynghyd sydd eisoes â llawer yn gyffredin rhyngddynt. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod trawsnewid i'r ffiniau newydd mor hwylus â phosibl drwy adeiladu ar sylfeini sy'n bodoli eisoes. Felly, rwy'n fodlon cefnogi'r etholaeth sirol yng Nghastell-nedd ac Abertawe, â thua 75,641 o etholwyr, a fyddai o fewn y niferoedd sy'n cael eu ffafrio gan y Comisiwn.

Hefyd, hoffwn siarad o blaid creu etholaeth newydd Gorllewin Abertawe a Gŵyr. Rwy'n credu bod cyfansoddiad pob un o'r wardiau'n cynnwys, y mae'n eu cynnwys, yn cadw cymunedau lleol gyda'i gilydd, fel rydym wedi trafod ar gyfer rhai o'r cynigion eraill, ac yn cryfhau cydlyniad yr ardal. Er enghraifft, mae gan Benrhyn Gŵyr a'r Mwmbwls gysylltiad cynhenid â'i gilydd eisoes, a buont gyda'i gilydd ers peth amser yn ein, yn sedd bresennol Gŵyr, ac mae'n braf gweld hynny'n parhau. Mae gan Ystumllwynarth, Newton, West Cross, Penarth, Llandeilo Ferwallt a Fairwood gysylltiadau agos ac maent yn cysylltu â Phenclawdd a Fairwood a'r wardiau eraill hynny i'r dwyrain. A bu gan y cymunedau hyn gysylltiadau am flynyddoedd lawer, gyda buddiannau a phryderon cyffredin ac felly byddai sicrhau bod yr ardaloedd hyn wedi'u cynnwys mewn etholaeth gyffredin yn ddelfrydol, ynghyd â hwyluso teithio ar draws yr etholaeth. Rwyf hefyd yn falch iawn o weld bod y cynnig hwn wedi cywiro'r hyn a oedd, yn fy marn i, yn un o gamweddau hanesyddol y cynnig presennol, sef cyfuno cymuned Mayals â gweddill y Mwmbwls oherwydd, ar hyn o bryd, Mayals yw'r unig un yng Nghyngor Cymuned y Mwmbwls sydd y tu allan i etholaeth Gŵyr. Mae Mayals yn sicr yn rhan o'r Mwmbwls, felly mae'n braf iawn gweld bod y cynnig hwn yn cynnwys Mayals yn yr etholaeth newydd. Mae hefyd yn braf gweld cymuned Gorseinon yn cael ei huno, felly byddai hynny'n cynnwys Gorseinon a dwy ward Llwchwr a Phontybrenin a Phenyrheol. Mae'r rhain i gyd wedi'u cysylltu'n agos â dalgylchoedd ysgolion. Mae'r ffaith bod cymuned gydlynus yno yn adlewyrchu hynny hefyd. Felly, mae'n gwneud synnwyr adeiladu ar y cysylltiadau cynfodol hynny drwy eu cynnwys mewn etholaeth arfaethedig newydd. Mae cynnwys ward Sgeti yn cael ei groesawu hefyd. Rwy'n credu bod Sgeti'n cysylltu'n dda iawn â rhai o'r wardiau newydd a roddwyd yn y sedd newydd hon, fel Cilâ a Dynfant a Mayals, felly mae'n gwneud llawer o synnwyr i'w gweld yn yr etholaeth newydd hefyd. Yn aml yn Sgeti, bydd llawer o'r cymunedau hynny'n siopa yn yr ardaloedd lleol hynny, bydd ganddynt blant sy'n mynychu'r ysgol yn yr ardaloedd lleol hynny a byddant yn defnyddio'r un cyfleusterau cyhoeddus, llyfrgelloedd a neuaddau, ac ni fyddai chwalu hynny mewn unrhyw ffordd yn gwneud llawer o synnwyr yn ymarferol. Fodd bynnag, byddwn yn argymell mai Gŵyr a Gorllewin Abertawe ddylai enw'r etholaeth fod, gan fod tua 12,500 yn fwy o etholwyr yn dod o sedd Gŵyr nag o sedd Gorllewin Abertawe, felly mae Gŵyr yn cyfrif am 58% o'r etholaeth arfaethedig newydd o gymharu â 42% o Orllewin Abertawe. Felly, rwy'n credu mai enw rhesymol i'r etholaeth honno fyddai Gŵyr a Gorllewin Abertawe, a fyddai'n cynrychioli cyfansoddiad y sedd newydd. I gloi, mae'r etholaeth yn gyfan gwbl yn Ninas a Sir Abertawe ac mae ganddi gysylltiadau cyfathrebu a thrafnidiaeth da, sy'n creu etholaeth gydlynus ac yn gwneud llawer o synnwyr. Bydd pobl yn adnabod ac yn uniaethu â'r etholaeth honno hefyd. Yr un olaf yr oeddwn am fyfyrio arno'n gyflym iawn oedd y cynnig ar gyfer Pen-y-bont. Rwy'n siarad o blaid cynigion fy mhlaid, ac rwy'n credu eich bod yn gyfarwydd â'r rheiny ym Mhen-y-bont, felly ni wnaf eich diflasu â'r manylion, ond yr hyn yr hoffwn ei wneud, yr hyn yr hoffwn dynnu sylw ato, yw'r hyn sy'n gamgymeriad difrifol yn fy marn i, sef tynnu ward Llangewydd Brynhyfryd, ward Cefn Glas a wardiau Bryntirion, Trelales a Merthyr Mawr o Ben-y-bont. Mae'r rheiny'n rhan o'r gymuned honno, yn fy marn i. Mae'r ddwy ysgol yn y dalgylch, Bryntirion a Brynteg, y ddwy ysgol uwchradd, mae ganddynt ddalgylchoedd yn yr etholaethau hynny, yn y wardiau hynny a'r tu allan iddynt hefyd, os yw hynny'n gwneud synnwyr? Felly, o'r safbwynt hwnnw, byddai'n drueni gwahanu tref Pen-y-bont. Rwy'n deall, fel y soniais ar y dechrau, bod gennych ystyriaethau rhifiadol, ond byddai rhannu tref yn ddwy ran yn gamgymeriad go iawn, yn fy marn i, ac ni fyddai'n sedd y byddai pobl yn ei hadnabod ac yn uniaethu

â hi. Felly, ar y cyfan, diolch yn fawr iawn i chi am roi o'ch amser. Rwy'n cefnogi'r mwyafrif helaeth o gynigion y Comisiwn a'r amgylchiadau anodd, ond byddwn yn gofyn i chi edrych ar etholaeth Pen-y-bont unwaith eto. Diolch.

[00:37:40]

AC1: Diolch yn fawr iawn i chi. A oes unrhyw gwestiynau o eglurhad o'r llawr? Y panel?

SP: Mae'n ddrwg gennyf, dim ond un, un pwynt o eglurhad. Mae'n amlwg eich bod yn cefnogi etholaeth Aberhonddu a Maesyfed a'r ychwanegiad i etholaeth bresennol Abertawe a Chwm Afan uchaf, a yw hynny wedi'i seilio'n gyfan gwbl ar y ffaith ei bod yn gyfagos at Ystradgynlais a'r rhan honno o dde-orllewin Powys?

TG: Ydy, mae gan yr ardal honno gysylltiadau da iawn, yn fy marn i, ond er nad wyf yn cynrychioli'r ardal honno, rwy'n credu bod gan y darn yn Ystradgynlais gysylltiadau da iawn â gweddill Powys, os hoffech chi, ond rwy'n credu bod cymuned Ystradgynlais ac Ystalyfera i gyd un uniaethu â'i gilydd, de Powys, fel y dywedoch chi, â Chwm Tawe yn un gymuned gydlynus, ond y dylai honno, yn ei thro, gysylltu â gweddill Powys, yn fy marn i.

SP: Iawn, diolch.

AC1: Diolch.

TG: Gwych, diolch yn fawr iawn.

AC1: Y siaradwr nesaf yw Francesca O'Brien. Nid wyf yn siŵr a oeddech chi yma ar y dechrau. Gofynnwn i chi roi eich enw, eich ardal breswyl, nid eich cyfeiriad.

FO: Francesca O'Brien a'r Mwmbwls.

AC1: Eich ymlyniad, os oes un.

FO: Y Ceidwadwyr.

AC1: Diolch, mae gennych chi 10 munud a byddwch yn cael rhybudd pan fydd-

[Siarad ar draws 00:39:07]

FO: Diolch, nid wyf am gymryd 10 munud o'ch amser, byddwch yn falch o glywed nad oes gennyf waith mor galed â Tom, felly bydd yn gryno iawn ac yn bwrpasol. Felly Francesca ydw i ac rwy'n siarad o ddau safbwynt, mewn gwirionedd, fel cadeirydd Ffederasiwn Abertawe a Gŵyr, Ffederasiwn y Ceidwadwyr, ond yn bwysicach fel un o breswylwyr y Mwmbwls, fel mam sy'n byw yn yr ardal honno â dau fachgen ifanc. Yn flaenorol, Cyngor Cymuned y Mwmbwls oedd y Mwmbwls, felly roedd yn cynnwys ychydig o bentrefi, sef Newton, Ystumllwynarth, West Cross a Mayals ond, dan y newid blaenorol i'r ffin, fe wnaeth hynny wahanu'r gymuned honno, felly roedd y Cyngor Cymuned wedi'i rannu'n ddwy etholaeth. Felly, gan gyfeirio at yr hyn y soniodd Tom amdano, rwy'n credu bod cynnwys Mayals yn y gymuned, oherwydd mae wedi'i gwahanu ar hyn o bryd, yn well o lawer ar gyfer y Cyngor Cymuned, yn well i'r preswylwyr hefyd, fel bod ganddynt un Aelod Seneddol, Aelod o'r Senedd, math gwell o gydweithio, gan eu bod nhw'n gwneud gwaith

ardderchog yn y Mwmbwls, mae llawer o seilwaith yn cael ei roi ar waith yno, ynghyd â llawer o waith adfywio hefyd. Felly rwy'n credu, os yw'n cael ei chynrychioli'n well dan un etholaeth, rwy'n teimlo fy mod wir o blaid cyfuno Mayals â gweddill y gymuned. Nid wyf wedi bod o gwmpas dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, ac rwy'n gwybod nad wyf yn siarad ar ran yr holl breswylwyr ym Mayals, ond mae nifer ohonynt wedi nodi pam y maent wedi'u gwahanu a pham y mae'r llinell derfyn wrthyn nhw ac y cânt eu cynrychioli rywle arall. Felly, rwy'n frwd o blaid y newid hwn ac yn croesawu Mayals yn ymuno â'r etholaeth fel eu bod nhw i gyd dan ymbarél Cyngor Cymuned y Mwmbwls. A dyna chi, diolch.

AC1: Diolch. Mi wna'i ofyn a oes unrhyw gwestiynau o eglurhad o'r llawr? Gan y panel?

SW: Mae gennyf i un. Francesca, a oes gennych chi unrhyw safbwyntiau ar enw'r etholaeth?

FO: Oes. Felly i mi, rwy'n rhan, rwy'n gadeirydd-

SW: Na, na. Rydyn ni'n ei alw, y cynnig yng Ngorllewin Abertawe a Gŵyr.

FO: Ar gyfer Gŵyr.

SW: Ie. Felly, rwy'n gwybod eich bod yn cynrychioli'r Ceidwadwyr.

FO: Ydw.

SW: O ran a fyddai'n well gennych chi petai'r enw'n cael ei newid hefyd?

FO: Byddai.

SW: I Gŵyr a Dwyrain Abertawe? Gorllewin Abertawe.

FO: Na, na, na. Nid ar gyfer Gorllewin Abertawe, mae fy un i ar gyfer Mayals yn unig ac ystyried cynnwys Mayals mewn un etholaeth, yn hytrach na newid yr enw.

SW: Iawn. Diolch.

AC1: Diolch. Diolch yn fawr iawn.

FO: Hyfryd, diolch.

[Saib 00:41:30 hyd 00:41:35]

[Trafodaeth gefndir 00:41:35 hyd 00:41:55]

AC1: David Collins?

[Saib 00:41:56 hyd 00:42:03]

AC1: Rwy'n credu eich bod chi yma'n gynharach, Mr Collins, i glywed y rheolau. Enw, ardal breswyl ac ymlyniad, os oes un, ac mae gennych chi 10 munud â rhybudd o ddau funud.

DC: Diolch, bore da, Dydd Gŵyl Dewi hapus. Bore da, bawb. Dydd Gŵyl Dewi hapus. David Collins ydw i. Rwy'n byw yn Llangyfelach ac rwy'n siarad â chi mewn cymhwyster personol. Diolch i chi am fy ngwahodd i rannu fy arsylwadau am eich cynigion cychwynnol ar gyfer Abertawe. Mae'r rhain yn ategu fy nghyflwyniad ysgrifenedig, y mae copïau papur ohono ar gael yn y tu blaen ac sydd ar gael ar wefan y Comisiwn Ffiniau i Gymru. Yn amlwg, byddaf ychydig bach yn wahanol i'r rhan fwyaf o weddill eich cyfranwyr heddiw rwy'n credu, oherwydd, yn yr hanfod, yr hyn rwyf am ei awgrymu yw, er mwyn cymryd hunaniaethau lleol a'r ystyriaethau daearyddol penodol mewn ardal fel Abertawe o ddifrif, dylech chi ofyn cwestiynau difrifol am un o'ch confensiynau eraill, mewn gwirionedd. Nid un sydd wedi'i bennu mewn statud, ond un sydd wedi'i sefydlu dros genedlaethau ac, yn olaf, er hwylustod mae'n debyg. Rwy'n siarad am Gonfensiwn y Wardiau. Yma yn Abertawe, mae gennym grynhoad o wardiau mawr iawn sydd â thros 10,000 o etholwyr sydd wedi'u clystyru o amgylch yr arfordir mewn rhyw fath o hanner cylch. Mae'r nodwedd hon ar ei phen ei hun yn cyfyngu'n ddifrifol ar nifer yr opsiynau sy'n gyson â gofyniad etholiadol statudol rheol dau, sef bod nifer yr etholwyr yn disgyn rhwng 69,724 a 77,062. Ond yn Abertawe, mae cymhlethdod arall hefyd, sef bod y ffiniau y mae egwyddor confensiwn y wardiau, neu beth bynnag yr hoffech ei galw, wedi'i seilio arnynt wedi newid yn gydamserol yn ôl y gyfraith a bod wardiau newydd wedi'u ffurfio, a fydd yn dod i rym ar gyfer etholiadau'r cynghorau ym mis Mai ymhen deufis. A bydd un ohonynt, sef ward Y Glannau, yn cael ei rhannu yn ei hanner gan eich map cychwynnol os na wneir unrhyw newidiadau. Nawr, mae'n siŵr fod Covid a'r pandemig ac ati wedi gwaethygu cydlifiad yr amseriadau hyn, ond fel y dywedaf, os ewch chi ymlaen â nhw fel y maent wedi'u hamlinellu ar hyn o bryd, bydd yn cael yr effaith ymarferol o rannu ward Y Glannau rhwng dau AS gwahanol yn yr etholiad hwn ac unrhyw etholiad cyffredinol yn y dyfodol. Rwy'n awgrymu i chi na fyddai'r canlyniad hwnnw'n gyson â'r bwriad y tu ôl i'r egwyddor o gadw wardiau'n gydffyniol mewn un sedd, lle bynnag y bo hynny'n bosibl. Nawr, mae hefyd yn wir, yn Neddf 2020, bod y Senedd wedi ceisio rhagweld y posibilrwydd o greu wardiau newydd. Fe gynhwysodd gymal newydd sbon nad oedd yn bodoli gynt, sef cymal chwech i ddiwygio rheol pump o'r rheolau ailddosbarthu. Effaith hynny oedd mynnu bod rhaid i chi ystyried newidiadau i'r ffiniau a oedd wedi'u pennu ar y dyddiad dechrau, hyd yn oed os nad oeddent wedi dod i rym ac nad oedd cynghorwyr wedi'u hethol hyd yn hyn. Nawr, yn anffodus, eich dyddiad dechrau oedd Rhagfyr 2020, ac nid oedd ffiniau newydd Abertawe yn gyfraith statud oherwydd ni wnaeth Prif Weinidog Cymru eu llofnodi i gyfraith Cymru tan 2021. Ond byddant ar waith, fel y dywedais, ymhen deufis yn yr etholiadau lleol, a byddwn yn ethol cynghorwyr a bydd y wardiau blaenorol yn dal i fodoli mewn enw, ond byddant yn hollol wahanol yn ymarferol, a dweud y gwir. Nawr, er nad oes rhaid i chi ei gymhwyso oherwydd yr amseriad, rwy'n awgrymu y dylai trafodaethau'r Comisiynydd roi rhywfaint o bwys ar fwriad y Senedd. A'm dealltwriaeth i o'r diwygiad i reol pump yn Neddf 2020 yw, a phopeth arall yn gyfartal, mae'n ymddangos bod y Senedd yn teimlo y gellid ffafrio ffiniau'r wardiau etholiadol newydd dros yr hen rai. Rwy'n awgrymu bod hyn yn cynnig cyfle ac angenrheidrwydd, mewn gwirionedd, i ailedrych ar y cynsail sydd wrth wraidd y rhagdybiaeth yn ymwneud â'r wardiau oherwydd, yn y sefyllfa hon, mae'n rhaid i chi ddewis rhwng gwahanu ward ddarfodedig na fydd yn bodoli mwyach erbyn i'ch argymhellion ddod i rym neu wahanu'r un newydd. Mae'n rhaid ildio rhywbeth. Os yw'n dderbyniol i ward Y Glannau gael ei rhannu rhwng etholaethau, yna pam mae'r holl siboleth am wardiau yn gysegredig ym

mhob ward arall? Nawr, o ystyried y pwyslais y mae Seneddau er 2010 wedi'i roi ar gyfyngu ar yr amrywiad yn nifer yr etholwyr rhwng seddau, rwy'n credu ei fod yn anochel bod rhaid ildio elfennau eraill o ganlyniad i hynny. Rwy'n awgrymu'n briodol, yn barchus, mae'n ddrwg gennyf, dan yr amgylchiadau hyn, efallai y byddai'n fuddiol gwneud rhai mân newidiadau i gonfensiwn y wardiau ac y dylid ystyried hynny o ddifrif. Nawr, rwyf newydd ddweud confensiwn, fe ddywedais siboleth, do? Gallech chi ei alw'n draddodiad, gallech chi ei alw'n ddefod neu'n arfer, beth bynnag yr hoffech chi ei alw, rwyf wedi ceisio rhoi ystyriaeth deg iddo yn fy nghyflwyniad. Mae'n dod o'r oes pan roeddech chi'n gwneud y math hwn o beth â phapur a phensiliau. Efallai y byddai'n elwa ar gael ei ddiwygio, nid yn unig o ran y newidiadau i'r gyfraith, y Deddfau er 2010 a Deddf 2020 yn benodol, ond hefyd nid yw'r amgylchedd data cartograffig a data'r boblogaeth rydym yn gweithredu ynddo yn yr 21ain ganrif yr un fath â'r rhai roedd rhaid i'ch rhagflaenwyr ymdopi â nhw. Nawr, yn ffodus, wrth i chi gamu i lawr o'r wardiau enfawr yn Abertawe i'r dosbarthiadau etholiadol unigol, sy'n debycach o lawer i faint cyfartalog y rhan fwyaf o wardiau yng ngweddill Cymru, mae'n bosibl defnyddio fflaim yn hytrach na holltwr i rannu ardal drefol gywasgedig a thrwchus ei phoblogaeth, fel Abertawe, i amrediadau angenrheidiol y cwota etholiadol. Felly, beth rwyf wedi ceisio ei wneud â'm gwrthgynnig yw dangos un ffordd y gallai cyfnewid cytbwys rhwng Canol a Gogledd Abertawe, fel rydym yn ei galw, ac etholaeth Castell-nedd a Dwyrain Abertawe fynd i'r afael ag ychydig o'r ystyriaethau lleol a daearyddol penodol yn ardal Canol Abertawe yn well. Rwyf wedi trosglwyddo ychydig o etholwyr o sedd Castell-nedd i sedd Canol Abertawe, oherwydd mae Castell-nedd ychydig yn nes at yr uchafrif dan y cynigion gwreiddiol na Chanol Abertawe. Nawr, dim ond un o'r opsiynau amrywiol sy'n bosibl drwy gyfnewid dosbarthiadau etholiadol yn hytrach na wardiau cyfan yw fy nghynnig i. Yn amlwg, chi ddynion fydd yn penderfynu, mae'n ddrwg gennyf, chi foneddigion a boneddigesau, fydd yn penderfynu mewn egwyddor sut i fynd i'r afael â'r mater o ffiniau'r wardiau newydd yn erbyn ffiniau'r hen wardiau ac yn union sut y byddwch yn mireinio confensiwn y wardiau i adlewyrchu'r sefyllfa sy'n eich wynebu yn fan hyn. Hoffwn eich helpu i ddod i'r casgliadau cadarnaf drwy fyfyrio ar ddefnyddioldeb cydio wrth ddefodau ac arferion eich rhagflaenwyr yn yr oes cyn i'r Senedd bennu amrediadau etholiadol statudol a'r gofyniad i ystyried newidiadau i'r ffiniau mewn amgylchiadau nad ydynt, fel y soniais, yn gwbl berthnasol yma oherwydd nad yw'r dyddiadau'n cyd-fynd â'i gilydd yn llwyr, ond y gallech chi benderfynu ei fod yn hollol resymol ac yn cyd-fynd â dymuniadau'r Senedd. Nawr, fel y dywedaf, rwyf o'r farn y bydd egwyddorion cadarn yn arwain at gasgliadau cadarn ac, i'r gwrthwyneb, y gallai egwyddorion cyfeiliornus arwain at gasgliadau nad ydynt o'r safon orau bosibl. Felly, rwy'n gofyn i chi fyfyrio ar ddau gwestiwn penodol. Yn gyntaf, a yw'n wirioneddol gall anwybyddu newidiadau sydd ar ddigwydd i wardiau, er bod Deddf 2020 wedi rhoi caniatâd clir i chi eu hystyried? Yr ail gwestiwn, ai gweithredu polisi ward gyfan yn unig yw'r ffordd orau, heb sôn am y ffordd addas, i lunio seddi mewn dinas eithriadol fel Abertawe, o ystyried nifer gyfyngol yr opsiynau ward gyfan, nifer gyfyngedig iawn yr opsiynau ward gyfan sy'n gyson â rheol dau? Hoffwn ddymuno'n dda i chi a'r Comisiynwyr wrth i chi ystyried y pwyntiau hyn. Rwy'n edrych ymlaen at eich casgliadau. Y cwbl sy'n weddill i mi ei wneud yw diolch i chi unwaith eto am roi'r cyfle i mi eich annerch heddiw, diolch i Shereen, Cerys a staff yr Ysgrifenyddiaeth am eu cymorth ac am fynd i'r afael ag unrhyw bwyntiau neu gwestiynau o eglurhad.

[00:51:08]

AC1: Diolch yn fawr iawn, a oes unrhyw bwyntiau o'r llawr yn gyntaf? Gan y panel? Nac oes. Diolch yn fawr iawn.

DC: Diolch.

AC1: Y siaradwr nesaf yw Catherine Richards. A gaf i ofyn i chi gadarnhau eich enw a'ch ardal breswyl ac unrhyw ymlyniad sydd gennych.

CR: Wel, fy enw i yw Catherine Richards. Rwy'n byw yn Alltwen, rwy'n aelod o'r Blaid Lafur ond nid wyf yn siarad ar ran y Blaid Lafur y bore yma, rwy'n siarad fel unigolyn. Iawn?

AC1: Unigolyn. Iawn. Mae gennych chi 10 munud.

CR: Iawn.

AC1: A bydd fy nghydweithiwr yn y tu blaen yn dweud wrthych pan fydd gennych ddau funud ar ôl.

CR: Ac fe wnân nhw symud y sleidiau i mi? Oherwydd, o gallaf ddefnyddio hwn. Mi wnaf i, ar hwn, ie? Iawn. Gwych. Diolch. Felly bore da, bawb. Fy enw i yw Catherine Richards ac rwy'n byw yn Alltwen yng Nghwm Clydach, na ddylid ei ddrysu â Chlydach yn Abertawe. Mae fy nghyflwyniad y bore yma yn gwrthwynebu newidiadau arfaethedig newydd i ffiniau etholaeth Castell-nedd a dyma fy nadleuon. Mae ffiniau etholaeth newydd Aberhonddu a Maesyfed, fel y crybwyllwyd, wedi'u dylanwadu gan afonydd. Fel sydd i'w weld ar y sleid uchod, mae afon Tawe yn llifo drwy Gwm Tawe i lawr ac mae wardiau Alltwen a Rhos, sydd yn fan hyn, ar ochr dwyrain Castell-nedd yr afon yng Nghwm Clydach. Fel sydd i'w weld o'r sleid hon, ychydig iawn o dai sydd ar ochr dwyrain Castell-nedd yr afon, heblaw wardiau Alltwen a Gellinudd a Chilybebyll. Mae afon Clydach yn codi uwchben Cilybebyll ar draws y cwm. Yma, gallwch weld afon Clydach yn y fan honno, felly enw'r cwm yw Cwm Clydach, nid Cwm Tawe. Hygyrchedd swyddfa'r etholaeth. Mae etholaeth Aberhonddu a Maesyfed eisoes yn etholaeth wledig fawr ac nid yw fy ward i'n un gwledig, ond yn un ôl-ddiwydiannol ei chymeriad. Mae Alltwen tua phedair milltir o ganol tref Castell-nedd ac rwyf wedi edrych tua Chastell-nedd erioed fel ffocws fy nghymuned. Mae gwasanaeth bws rheolaidd a llwybr beicio i Gastell-nedd, lle mae swyddfeydd etholaeth fy AS cyfredol wedi'u lleoli. Bu swyddfeydd pob un o'm ASau yn y gorffennol yng Nghastell-nedd. Yn amlwg, bydd yr AS newydd yn cynnal cymorthfeydd o gwmpas yr etholaeth ond, mewn argyfwng, gallai fod angen cysylltu â'i swyddfa a gyrru yno. Byddai mynd i swyddfa etholaeth yr AS yn Llandrindod yn golygu gyrru am o leiaf awr a hanner mewn car. Mae'n 62 milltir un ffordd. Fel y gwelwch o'r map, mae ar draws Bannau Brycheiniog o Alltwen, fel y gwelir o'r sleid hon, a gallai hyn fod yn frawychus yn y gaeaf oherwydd uchder y Bannau a'r tywydd garw. A dyma sleid a gymerwyd ar 4 Chwefror o'n fferm yn dangos yr eira ar y mynyddoedd. Mae mathau eraill o drafnidiaeth yn cymryd hyd yn oed mwy o amser ac yn ddrud. Cost tacsi un ffordd yw £104, ond gall hyn gynyddu yn ôl amodau'r traffig. Mae teithio ar drên yn cymryd o leiaf dwy awr a 45 munud, 77 milltir o Gastell-nedd i Landrindod, a gall pris tocynnau amrywio o 40 i £60. Mae teithio ar fws bron yn amhosibl ac yn cymryd rhwng pedair a phum awr un ffordd. Bydd yr anawsterau o ran hygyrchedd

yn golygu efallai na fydd gan y teuluoedd tlotach, oedolion ifanc neu bobl hŷn gar, ac felly bydd eu gallu i fanteisio ar AS a democratiaeth yn cael ei leihau'n sylweddol. Byddai'n anodd mynychu digwyddiadau etholaethol yn yr etholaeth arfaethedig newydd gan y byddai angen teithio mewn car am ddwy awr, 72 milltir, i fynychu digwyddiad yn rhan fwyaf gogleddol yr etholaeth, fel Trefyclo. Yng Nghastell-nedd, gellir mynychu pob digwyddiad etholaethol drwy deithio uchafswm o hanner awr. Mae pleidleiswyr iau yn cael eu hannog i gymryd rhan yn y digwyddiadau hyn, ond byddai teithio ymhellach i ddigwyddiadau'n peri pobl ifanc i beidio ag ymgysylltu â gwleidyddiaeth. Nid oes gan lawer o bleidleiswyr ifanc geir neu ni allant fforddio'r tanwydd heddiw i'w gyrru dros bellteroedd mawr, yn enwedig yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni. Cynhesu byd-eang, wel, cynhesu byd-eang. Bydd y pellteroedd sy'n gysylltiedig â theithio ar draws rhan enfawr o Gymru, fel etholaeth Aberhonddu a Maesyfed ar gyfer cyfarfodydd â'r AS, yn ôl yr angen, yn arwain at gynnydd mewn allyriadau carbon a chynhesu byd-eang. Rwy'n chwarae rhan weithredol ym mywyd yr eglwys yn Alltwen, sydd ym mhlwyf Cilybebyll, ac fe welwch ar y sleid hon Eglwys Ioan yr Efengylydd, Cilybebyll. Roedd yr eglwys ganoloesol wreiddiol hon yn perthyn i Abaty Nedd a byddai'r Mynaich Gwynion yn cysgu ac yn gweddïo yno dros nos os nad oeddent yn gallu dychwelyd i'r Abaty. Mae'r sleid hon yn dangos Abaty Nedd fel y mae heddiw. Mae'r fferm lle rwy'n byw wedi'i lleoli ar y Ffordd Sistersaidd i Abaty Nedd ac mae 3.1 milltir o'r Abaty. Mae Llwybr y Pererin i Abaty Nedd y ffordd yma. Roedd ein fferm ni'n un o ffermydd yr abaty a oedd yn perthyn i'r fynachlog yn Abaty Nedd. Mae fy mhlwyf i, Cilybebyll, ym mhen pellaf esgobaeth Llandaf a'r llinell derfyn yw afon Tawe. Mae Eglwys San Pedr Pontardawe yn rhan o Esgobaeth Abertawe ac Aberhonddu. Pan gaiff ardaloedd offeiriadaeth yr eglwys eu cyflwyno ym mis Mawrth 2022, bydd arweinydd tîm ardal fy offeiriadaeth wedi'i leoli yn Eglwys San Padrig [anghlywadwy 00:57:45] a Chastell-nedd a bydd fy neon gwledig wedi'i leoli yn Eglwys Sant Ioan, Sgiwen, Castell-nedd. Pe byddai'r ffiniau newydd arfaethedig yn cael eu cyflwyno, pe byddai unrhyw ymholiadau â'm heglwys, fel cyllid grant, gallai fod angen i'r plwyfolion ymweld â'r AS yn Llandrindod, y tu allan i'n hesgobaeth, i gael cymorth. Mae fy AS presennol yn mynychu gwasanaethau'r eglwys yn rheolaidd yng Nghastell-nedd, ond â'r pellteroedd sy'n gysylltiedig â gwasanaethu'r etholaeth newydd arfaethedig, bydd gan yr AS yn Llandrindod bellteroedd mawr i deithio. Yn y gorffennol, mae ein ASau wedi mynychu ffeiriau Nadolig ein heglwysi a digwyddiadau eraill. Ac mae hyn wedi cynnig cyfle da i'r AS ac etholwyr Castell-nedd gyfarfod â'i gilydd. Yr ardal rwy'n byw ynddi oedd tarddle'r Chwyldro Diwydiannol. Roedd ganddi byllau glo a diwydiant o'r cyfnodau cynharaf. Soniwyd am lofa yn [anghlywadwy 00:58:43] ym 1772 a oedd yn rhoi tanwydd i un o'r ffwrneisiau chwyth glo cyntaf y tu allan i Coalbrookdale ym Mryncoch, Castell-nedd. Ar fy fferm i, roedd pum pwll glo y gwyddom amdanynt, mwy yn ôl pob tebyg. Gyda thranc diwydiant, mae cymdeithas ôl-ddiwydiannol wedi esblygu. Gwrthgyferbynnwch hynny ag economi amaethyddol wledig Aberhonddu a Maesyfed, lle mae ffermio a'r busnesau cysylltiedig yn cael lle blaenllaw. Bûm yn aelod o Soroptimyddion Rhyngwladol Castell-nedd am dros 25 o flynyddoedd ac rydym yn cyfarfod fel clwb bob pythefnos ar nos Lun yng ngwesty'r Castle Hotel, Castell-nedd. Fe welwch sleid o westy'r Castle Hotel. Sefydlwyd y Soroptimyddion Rhyngwladol ym 1921 ac mae'n fudiad gwirfoddol byd-eang sydd â rhwydwaith o tua 72,000 o aelodau mewn 121 o wledydd. Mae'r Soroptimyddion Rhyngwladol yn dadlau dros hawliau i fenywod ledled y byd ac, fel aelodau'r clwb, mae gofyn i ni lobïo ein AS yn rheolaidd ar faterion sy'n ymwneud â menywod. Gyda sawl un o'r 14 o aelodau'n byw y tu allan i etholaeth arfaethedig

newydd Dwyrain Abertawe a Chastell-nedd, bydd ein cysylltiad agos a'n perthynas â'n AS yn cael eu lleihau. Mae'r sleid hon yn dangos y ddwy ffwrnais chwyth ar safle gwaith haearn Abaty Nedd. Rwy'n un o ymddiriedolwyr Cyfeillion Cwmni Haearn Abaty Nedd ac yn gwirfoddoli ar safle gwaith haearn Abaty Nedd bob prynhawn Sul. Wrth wneud ceisiadau am grantiau yn y gorffennol, rydym wedi cysylltu â'r AS ac mae hi wedi cefnogi ein ceisiadau grant. Mae wedi ymweld â'r safle â pharodrwydd i'n cefnogi. Nawr, bydd hyn yn anoddach gan y bydd safle gwaith haearn Abaty Nedd yn Nwyrain Abertawe a Chastell-nedd a byddaf i, fel ymddiriedolwr, yn byw yn etholaeth Aberhonddu a Maesyfed. Mae'r sleid olaf yn dangos Castell Nedd, sef hen ganolfan grym dinesig Castell-nedd a'r cylch. Yn ddiweddar, fe'i gwnaed yn glir ar Facebook dan *Local Neath Matters* y bydd ein AS presennol yn cynrychioli etholwyr sy'n byw yn ei hetholaeth hi yn unig. Felly, yn hytrach na theithio pedair milltir i Gastell-nedd, bydd angen i ni deithio i Landrindod i swyddfa'r etholaeth, neu'n dibynnu ar ba mor frys y mae'r mater, cymhorthfa nesaf yr etholaeth, a all fod hyd at ddwy filltir a hanner i ffwrdd. Rwy'n gobeithio y byddwch yn ystyried fy safbwyntiau. Diolch.

AC1: Diolch yn fawr iawn i chi. Dylwn i ofyn a oes unrhyw bwyntiau o eglurhad o'r llawr? Gan y panel? Diolch yn fawr iawn.

CR: Iawn. Diolch yn fawr iawn [anghlywadwy 01:01:28].

AC1: Y siaradwr nesaf yw'r Cynghorydd Jamie Evans.

[Saib 01:01:37 hyd 01:01:45]

AC1: Mr Evans, pe gallech chi roi eich enw, eich ardal breswyl ac unrhyw ymlyniad sydd gennych. Mae gennych chi 10 munud ac, fel rydych wedi gweld â'r siaradwyr blaenorol, byddwch yn cael eich rhybuddio pan fydd gennych ddau funud ar ôl.

JE: Diolch yn fawr.

AC1: Iawn.

JE: Fy enw i yw'r Cynghorydd Jamie Evans. Rwy'n aelod o Blaid Cymru, rwy'n gweithio i Blaid Cymru, rwy'n gynghorydd Plaid Cymru yng Nghastell-nedd. Rwyf yma yn lle Sioned Williams, Aelod o'r Senedd, nad oedd yn gallu bod yn bresennol oherwydd Cyfarfod Llawn o'r Senedd, ond rwy'n siarad mewn cymhwyster personol. Yn gyntaf, hoffwn i ddweud Dydd Gŵyl Dewi hapus i chi gyd. Diolch yn fawr i'r comisiynwyr a phawb sydd wedi ymateb i'r Comisiwn, mae'n ddrwg gennyf, nid wyf yn rhugl yn y Gymraeg ond mae'n rhaid i mi ddechrau bob tro er mwyn i ni sicrhau bod y Gymraeg yn iaith fyw. Byddaf yn siarad heddiw am ddwy neu dair etholaeth a gynigiwyd gan y Comisiwn Ffiniau yn bennaf, sef Castell-nedd a Dwyrain Abertawe, Aberhonddu a Maesyfed a Sir Fynwy. Yn gyntaf oll, yn amlwg, diolch i chi am yr holl waith caled ar y cynigion hyn. Fodd bynnag, nid yw'r cynnig i roi Cwm Tawe ac Alltwen, fel rydym newydd glywed, sydd yng Nghlydach, yn Aberhonddu a Maesyfed yn gwneud llawer o synnwyr o gwbl. Yr unig ardaloedd y bydd gan Gwm Tawe gysylltiadau â nhw yn yr etholaeth honno mewn gwirionedd yw Ystradgynlais ac Abercraf. Nid oes ganddo unrhyw gysylltiadau â lleoedd fel Llanandras a Threfyclo, sydd ar y ffin â Lloegr. Ychydig iawn o gysylltiadau ieithyddol, diwylliannol a hanesyddol sydd rhwng yr ardaloedd. Mae Cwm Tawe yn

ardal Gymraeg ei hiaith, i raddau helaeth. Mae'n safle o bwysigrwydd ieithyddol yng Nghastell-nedd Port Talbot. Mae gennym ni ardaloedd fel Cwmllynfell, Pontrhydyfen ac Ystalyfera sydd â thros 50 i 60% yn siarad Cymraeg. Byddwch yn cael trafferth dod o hyd i hynny mewn ardaloedd mwy Seisnigaidd ym Mhowys, yn enwedig yn ne Powys. Mae'r ffiniau cyfredol hefyd yn anwybyddu ffactorau lleol, Trebannws a Chlydach er enghraifft, fel y bydd Steve Phillips yn gwybod, nid oes fawr o wahaniaeth rhwng y ddwy ardal ac mae Clydach yn sir Abertawe, Trebannws yng Nghastell-nedd. Mae'r ffin rhwng y ddwy yn ymyl laswelltog â'r tai yng Nghlydach ar un ochr, y tai yn Nhrebannws ar yr ochr arall, un yn talu swm sylweddol fwy o'r dreth gyngor, ond ni awn ni i'r afael â hynny nawr. Mae hynny'n fater ar gyfer y prynhawn yma yng nghyllideb Castell-nedd Port Talbot. Rydym ni ym Mhlaid Cymru yn credu mai'r ateb naturiol i'r diffyg poblogaeth yn Aberhonddu a Maesyfed fyddai symud Y Fenni i'r etholaeth arfaethedig. Mae cysylltiadau agosach o lawer rhwng Y Fenni a lleoedd fel Crucywel, Aberhonddu, mae gennych chi leoedd fel Pen-y-fâl, sy'n ardal boblogaidd iawn ym Mannau Brycheiniog. Mae pobl yn cysylltu'r Fenni â'r rhan honno o'r byd yn hytrach na, chi'n gwybod, nid wyf wedi cyfarfod ag unrhyw un erioed a fyddai'n ystyried Ystalyfera yn rhan o Fannau Brycheiniog, er enghraifft, neu ardal wledig dros ben. Hoffwn gyfeirio at etholaeth arfaethedig Castell-nedd ac Abertawe, felly Dwyrain Abertawe a Chastell-nedd. Eto, nid yw'r etholaeth hon yn gwneud llawer o synnwyr. Yr unig beth sy'n gwneud synnwyr i mi fel rhywun a oedd yn arfer byw yn Sgiwen am 17 o flynyddoedd, yw bod Castell-nedd a Sgiwen yn ôl gyda'i gilydd o'r diwedd, yn hytrach na bod Sgiwen yn Aberafan. Ychydig iawn o gysylltiadau sydd rhwng Castell-nedd, Llansamlet, Bôn-y-maen, nid ydynt yn bodoli. Efallai bod pobl yn cymudo i Abertawe o Gastell-nedd i weithio, ond byddai hynny yn sedd Gorllewin Abertawe, rwy'n credu. Nid wyf wedi edrych yn rhy fanwl ar Orllewin Abertawe a Gŵyr. Ond ie, nid yw'r cysylltiadau hynny'n bodoli rhwng Castell-nedd a Dwyrain Abertawe. Dyna pam mae Plaid Cymru yn cynnig sedd Castell-nedd ac Aberafan. Mae tensiwn eto, eto fel y bydd pobl yn yr ystafell hon yn gwybod, rhwng Castell-nedd a Phort Talbot. Fodd bynnag, mae gan y trefi hyn gysylltiadau agos iawn. Mae pobl yn cymudo'n rhwydd ac yn llawen rhwng y ddwy dref, mae'r cymoedd yn weddol debyg o ran eu demograffeg, er bod Castell-nedd, Cwm Nedd yn fwy o lawer o ran ei boblogaeth. Maent yn eithaf tebyg o ran y bobl sy'n byw yno ac mae'r ddwy ohonynt yn ardaloedd eithaf difreintiedig, yn anffodus. Ond mae hynny'n golygu bod pobl yn rhannu profiadau tebyg yno. Nid yw hynny'n cael ei adlewyrchu yng Nghwm Tawe a Chwm Aman, rydym yn cynnig y byddant yn symud i'r sedd [anghlywadwy 01:07:45] a Tawe, sy'n fwy Cymraeg eu hiaith na Chwm Nedd a Chwm Afan ac sydd â mwy o hunaniaeth Gymreig na Chwm Nedd a Chwm Afan hefyd. Mae'n gwneud synnwyr iddynt fod mewn etholaeth â lleoedd fel Pontardawe, Alltwen, Rhos a Phontarddulais, Tre-gŵyr, ac mae gan Bontarddulais a Thre-gŵyr gysylltiadau agosach ag ardaloedd fel Cwmtawe a lleoedd fel Ystalyfera hyd yn oed nag sydd ganddynt â chanol dinas Abertawe ac, yn sicr, mae gan Ystalyfera, Pontardawe, Trebannws fwy yn gyffredin â Phontarddulais a Thre-gŵyr nag sydd ganddynt â Rhaeadr Gwy neu Drefyclo. Hoffwn orffen drwy ddweud, os yw Llywodraeth y DU am leihau nifer yr ASau yng Nghymru, gadewch i ni fynd yr holl ffordd, cael 40 yn llai ohonynt a chyhoeddi annibyniaeth. Diolch yn fawr.

AC1: Diolch i chi. A oes unrhyw gwestiynau o eglurhad o'r llawr? Panel? Diolch yn fawr iawn.

JE: Diolch yn fawr.

[Saib 01:09:01 hyd 01:09:11]

AC1: Nid yw'r siaradwr nesaf yn bresennol ar hyn o bryd, felly a gawn ni wahodd y Cynghorydd Glyndon Jones i siarad nawr? Cynghorydd Jones, pe gallech chi roi eich enw, eich ardal breswyl a'ch ymlyniad, os oes un, ac mae gennych chi 10 munud a byddwch yn cael rhybudd wyth munud, os gallaf ei alw'n hynny.

GJ: Iawn. Iawn, gwych. Diolch. Diolch i chi. Glyndon Jones, rwy'n gynghorydd yn Abertawe, arweinydd y grŵp Ceidwadol ar y cyngor. Byddwn, rwyf yma heddiw i gefnogi'r cynigion ar gyfer etholaeth Gorllewin Abertawe a Gŵyr a hoffwn wneud y pwyntiau canlynol. Mae eich cynigion yn golygu bod yr etholaeth yn gyfan gwbl yn ninas a sir Abertawe. Mae hynny'n dda iawn, mae yna gysylltiadau cyfathrebu a thrafnidiaeth da iawn ac rydyn ni o'r farn ei bod yn creu etholaeth gydlynus iawn. Yn benodol, rydym yn cefnogi'r cynnig i ailgysylltu cymuned Y Mwmbwls. Ar hyn o bryd, mae wardiau Newton, Ystumllwynarth a West Cross yn rhan o ardal Cyngor Cymuned y Mwmbwls ac yn etholaeth seneddol Gŵyr. Ond mae Mayals, er ei bod yn rhan o Gyngor Cymuned y Mwmbwls, yn etholaeth Gorllewin Abertawe. Mae hwn yn annomaledd ac yn hollti cymuned bwysig ac eiconig Y Mwmbwls. Mae hefyd yn golygu ei bod yn cael ei chynrychioli gan ddau AS a dau wahanol Aelod o'r Senedd. Dan eich cynigion chi, bydd cymuned y Mwmbwls wedi'i huno mewn un etholaeth, sy'n hirddisgwyliedig. Mae disgyblion sy'n byw yn West Cross naill ai'n mynychu Ysgol yr Esgob Gore neu, yn Sgeti, neu Ysgol Gyfun Llandeilo Ferwallt, tra mae disgyblion ym Mayals yn mynychu Ysgol Gyfun Llandeilo Ferwallt, sy'n rheswm arall y mae Sgeti a Mayals yn cyd-fynd yn naturiol ag etholaeth arfaethedig Gorllewin Abertawe a Gŵyr. Mae cynnwys Dynfant, [anghlywadwy 01:11:20], Sgeti a Chocyd yn etholaeth newydd Gŵyr a Gorllewin Abertawe yn gwneud synnwyr, gan eu bod yn gymunedau yn eu rhinwedd eu hunain, ond maent hefyd ar gyrion Townhill, Uplands a'r Castell, sef cymunedau sy'n edrych tua chanol y ddinas ac felly'n cynnig ffin naturiol ar gyfer yr etholaeth arfaethedig newydd. O safbwynt plismona, mae Sgeti a Chilâ wedi'u cyfuno â'r Mwmbwls, Mayals a Gŵyr fel un uned. Yn wir, mae cynghorwyr o'r ardaloedd hynny'n cyfarfod yn barhaus erbyn hyn, fel y gwnaethom â'r heddlu ychydig ddyddiau yn ôl. Mae preswylwyr yng Ngŵyr, Y Crwys, Dynfant a Chilâ Uchaf yn defnyddio canolfannau siopa yng Nghilâ a Sgeti i siopa. Mae preswylwyr yn Waunarlwydd, sy'n rhan o ward Cocyd, yn edrych tua Thre-gŵyr ar gyfer siopa, hynny yw, dylid eu cynnwys yn yr etholaeth newydd. Fodd bynnag, un newid y byddem yn ei awgrymu fyddai rhoi'r enw Gŵyr a Gorllewin Abertawe i'r etholaeth newydd, yn hytrach na Gorllewin Abertawe a Gŵyr. Y rhan o'r etholaeth yng Ngŵyr sy'n ffurfio'r rhan fwyaf o'r etholaeth newydd, 58.4% yng Ngŵyr o gymharu â 41.6% yng Ngorllewin Abertawe. Gŵyr yw'r ardal o harddwch, ardal o harddwch naturiol gyntaf hefyd ac mae'n haeddu cael blaenoriaeth. I gloi, a gaf i wneud un sylw am etholaeth Aberhonddu a Maesyfed, lle bûm yn gweithio am flynyddoedd lawer? Clywais yn gynharach am ardal Ystradgynlais ac Aberhonddu a gogledd yr etholaeth honno. Mae Ystradgynlais, fel y gwyddom, ym mhen uchaf Cwm Tawe. Y prif bapur newydd yno yw'r Evening Post, y Swansea Evening Post. Bu trafodaethau dros flynyddoedd maith hefyd lle y bu sôn am newid y ffiniau i symud Ystradgynlais o Aberhonddu a Maesyfed, ac roedd hynny'n cael ei wrthod yn gadarn gan bobl leol yn Ystradgynlais bob tro, felly byddai cynnwys Ystalyfera a phen uchaf Cwm Tawe yn yr etholaeth newydd yn cydweddu'n dda. Yn wir, pan rydych yn cyrraedd Ystalyfera, rydych chi'n mynd ar

hyd un ffordd ac yn cyrraedd arwyddbost ac rydych yn symud o un, yn ddi-dor, i'r llall, ac felly byddwn yn cefnogi eich cynigion. Diolch yn fawr iawn.

[01:13:52]

AC1: Gwirio, a oes unrhyw gwestiynau o eglurhad ar gyfer y Cynghorydd Jones? Nac oes, diolch yn fawr iawn. Gwych, diolch i chi. Y siaradwr nesaf yw Geraint Davies AS. Mae angen i'r podiwm gael ei lanhau ac yna mae gennym ni, gawn ni ofyn i chi roi eich enw, lle'r ydych, yr ardal rydych yn byw ynddi, eich ymlyniad wrth unrhyw grŵp ac mae gennych chi 10 munud. Bydd y fenyw yn y tu blaen yn rhoi gwybod i chi pan fydd gennych ddau funud ar ôl. Diolch.

GD: Iawn, i'r dim, bore da. Geraint Davies ydw i, rwy'n byw yng Ngorllewin Abertawe, Mayals, rwy'n AS y Blaid Lafur, felly byddaf yn cefnogi'r cynnig a restrir gan y Blaid Lafur. Dydd Gŵyl Dewi hapus. Arhoswch, a yw hwn yn gweithio? Dyma, yn amlwg, dyma'r cynigion. Rydych wedi cynnig, yn gryno, bod etholaeth Gorllewin Abertawe yn cael ei thorri yn ei hanner. Mae Gorllewin Abertawe, yn ei hanfod, yn ôl troed trefol ac mae hanner ohoni'n cael ei chynnwys yn etholaeth arfaethedig Gorllewin Abertawe a Gŵyr, yn benodol Sgeti a Mayals, yn rhedeg ar hyd yr arfordir ac, yn wir, Cocyd a rhannau eraill. O ran Gogledd Abertawe, beth sy'n digwydd yw, dim ond fy [anghlywadwy 01:15:13] Gorllewin Abertawe, eto mae ail hanner yr ôl troed trefol yn mynd tua'r gorllewin. Yna, rydych chi'n cymryd pedair etholaeth wledig, cymunedau yng Ngŵyr, ac yn eu rhoi ar ben hanner yr ôl troed trefol. Dyna beth yw'r cynnig, eich cynnig chi. Ac o ran eich meini prawf ar gyfer gwerthuso cynigion gwahanol, mae'n werth nodi eich bod yn torri'r ôl troed trefol yn ei hanner ac yn rhoi hanner y gymuned wledig hon ar ben, pedair cymuned wledig ac, yn wir, mae gan yr etholaeth bresennol ffin naturiol, sef afon Tawe. Yna, yn ei hanfod, mae'r sedd yn mynd tua'r gorllewin ar hyd yr arfordir, Y Castell, Uplands, Sgeti, Mayals ac yna'n mynd, wrth gwrs, i'r Mwmbwls. Felly, fy nadl i, yn benodol, yw y dylai Sgeti, Uplands, y parhad di-dor hwnnw barhau. Rwy'n cynnig, mae hynny'n digwydd mewn cynigion amrywiol, ac un ohonynt yw y dylem ychwanegu St Thomas a Bôn-y-maen i barhau â'r llwybr hwnnw ar hyd yr arfordir. O ran cysylltiadau lleol, eto, rwy'n sôn am gynnig y Comisiwn Ffiniau am y tro, fel y dywedais, mae Mayals yn rhan o Sgeti, yn y bôn. Ac mae integreiddiad yno, yn amlwg, o ran gwaith a siopa a llwybrau teithio, y brifysgol ei hun, mae'r campws yn Sgeti. Mae poblogaeth y myfyrwyr yn Uplands a'r Castell yn bennaf, felly byddai'n rhyfedd iawn rhannu'r rheiny'n ddwy. Yn wir, y gymuned leiafrifol fwyaf yw'r gymuned Fwslimaidd, ac mae ganddyn nhw fosgiau amrywiol yng Ngorllewin Abertawe, yn enwedig yn Sgeti, Uplands a'r Castell. Mae pryder yn y gymuned hefyd ynghylch gwahanu Sgeti oddi wrth Uplands a'r Castell ac, yn wir, cymunedau lleiafrifol eraill, yn enwedig y gymuned Tsieineaidd a'r gymuned Affricanaidd. Felly, chi'n gwybod, byddai gwahanu Sgeti oddi wrth Uplands a'r Castell yn sicr yn achosi dryswch. Yn yr un modd, o ran y gogledd, mae gennym ni ardaloedd sydd wedi'u rhoi yn y, cymunedau gwledig a lled-wledig Pontarddulais, Mawr, Llangyfelach, Aberdâr sy'n fwy cysylltiedig, chi'n gwybod, â Gŵyr, felly Gorseinon, Llwchwr ac ati, felly nid yw hynny'n cydweddu'n dda iawn. Yn naturiol, mae hynny, chi'n gwybod, yn awgrymu lefelau amrywiol o anghyfleustra i gymunedau, o ran integreiddio, gweithio a byw a chael profiadau hamdden gyda'i gilydd mewn cymunedau naturiol. Felly, mae gennyf gynnig yma rydych chi, rwy'n credu efallai y byddwch wedi'i weld yn gynharach heddiw, sy'n dweud y dylem gael sedd Gŵyr a Gogledd Abertawe a Chanol Abertawe, yn ei hanfod. Felly, yn y bôn, y syniad yw dychwelyd y pedair

ward ogleddol, sef Pontarddulais, Pontardawe, Llangyfelach a Mawr yn ôl i Gŵyr, a dychwelyd Sgeti a Mayals yn ôl tuag at Uplands, Y Castell a Townhill ac ychwanegu Bôn-y-maen a St Thomas yn y fan honno ar hyd yr arfordir. Byddai hynny, heb fynd drwy'r holl niferoedd, mae'r niferoedd yno i chi eu gweld ond, yn y bôn, byddai hynny'n creu dwy sedd, sef Gogledd Abertawe a Gŵyr, 74,653 ac etholaeth newydd Canol Abertawe. Yna amlwg, rydym yn galw, byddai'n cael ei galw'n Canol Abertawe oherwydd bod y rhan ogleddol wedi'i dychwelyd i etholaeth Gŵyr, â 75,560. Mae yna ail un a gyflwynais, dylwn i ddweud y cynnig gwreiddiol hwn, ond bu llawer o drafod yn y cymunedau am ffordd arall o ddatrys yr un broblem. A gallai hynny, chi'n gwybod, y broblem gynhenid, wrth gwrs, yw gwahanu Uplands a Sgeti. Felly'r ffordd arall o wneud hynny yw parchu'r ffin naturiol sy'n bodoli ar hyn o bryd, sef afon Tawe, a chael sedd sy'n rhedeg yn ddi-dor ar hyd yr arfordir, chi'n gwybod, Y Castell, Townhill, Uplands, Sgeti, Mayals a'r Mwmbwls, a dweud y gwir, oherwydd, yn amlwg, mae Mayals a'r Mwmbwls yn rhan o Gyngor Cymuned y Mwmbwls, yr holl ffordd i Benrhyn Gŵyr. Yna, yn hytrach na symud y wardiau gogleddol hynny sy'n gysylltiedig â Phontybrenin a Chocyd a Phenyrheol, a grybwyllwyd gan bobl eraill, chi'n gwybod, mae Gorseinon yn gysylltiedig â Phontarddulais ac ati, symud y cymunedau hynny i'r gogledd i greu sedd ogleddol newydd. Felly, mae'r cynnig hwn yn ffordd arall o ddatrys yr un broblem. Yn y bôn, rydych chi'n cael sedd wledig a lled-wledig Gogledd Abertawe, yna mae gennych chi sedd Gorllewin Abertawe a Gŵyr sy'n fwy cyson â ffiniau blaenorol yr etholaeth. Ac rwy'n credu, ie, fy nheimlad wrth siarad â'r gymuned, ers i mi gyflwyno fy nghynigion cyntaf, yw y byddai hynny'n well ganddynt oherwydd, chi'n gwybod, maent yn teimlo mwy o gydymdeimlad â symud tua'r gorllewin, os caf i ei roi felly. Felly, mi wnaf ei adael yn y fan honno, rwy'n credu. Dyna ddwy ffordd i ddatrys y broblem a nodwyd, felly byddwn yn fodlon â'r naill neu'r llall ohonynt.

AC1: Diolch yn fawr iawn. A oes unrhyw gwestiynau o'r llawr? Ie, Mr Phillips?

SP: Dim ond eisiau gwirio, dan y ddau gynnig hyn neu'r dewisiadau, byddai ward Llansamlet yn aros yn Nwyrain Abertawe, oni fyddai?

GD: Mae hynny'n gywir. Ydy.

SP: Iawn.

GD: Ac yn olaf, ni soniais, ond mae'r holl niferoedd yma, er mwyn i ni fod yn glir, byddai gan sedd newydd Gorllewin Abertawe a Gŵyr 76,071 o bleidleiswyr a byddai gan sedd newydd Gogledd Abertawe 75,342, felly mae'n cydymffurfio. Mae'r ddau gynnig wedi'u cynnwys yn gyfan gwbl o fewn yr ôl troed heb unrhyw, chi'n gwybod, aflonyddu, heb effeithio ar unrhyw seddi eraill cyfagos. Felly dim ond symud o gwmpas ydym ni.

SP: Diolch.

AC1: Diolch yn fawr iawn.

GD: Ydy hynny'n iawn? O'r gorau, diolch yn fawr iawn.

[Saib 01:21:29 hyd 01:21:36]

AC1: Rydym ni rywfaint o flaen amser, mae'r siaradwr nesaf am 10 munud i 10. Alun Cairns, a hoffech chi siarad yn gynnar? Rwy'n credu, Mr Cairns, eich bod chi'n bresennol pan ofynnais i chi roi enw, eich ardal breswyl a'ch ymlyniad, a'ch bod yn gwybod am y terfyn amser o 10 munud â dau funud o rybudd, os gallaf ei alw'n hynny, tua'r diwedd? Diolch.

AC2: Ydw a diolch yn fawr iawn, diolch i chi am y gwaith rydych wedi'i wneud yn y gwrandawiadau hyd yn hyn ac o ran y paratoadau ac ati ym mhobman arall. Hoffwn ddymuno Dydd Gŵyl Dewi hapus i bawb arall. Mae'n bleser cael bod yma a diolch yn fawr am eich amser a'ch gwaith. Hoffwn ganolbwyntio ar, fy enw i yw, fy enw i yw Alun Cairns ac, fel rydych wedi nodi'n gywir, fi yw'r Aelod Seneddol ar gyfer etholaeth Bro Morgannwg. Felly, hoffwn siarad yn benodol am etholaeth Bro Morgannwg ac am yr achos o blaid cadw'r etholaeth fel y mae, oherwydd mae'n bodloni'r meini prawf sydd wedi'u pennu yn y ddeddfwriaeth a'r canllaw ac, yn Ninas Powys, byddaf yn cefnogi'r cynigion yn gyffredinol, oni bai am gadw Dinas Powys yn etholaeth arfaethedig Bro Morgannwg. Felly, fel rwyf wedi sôn, mae etholaeth Bro Morgannwg yn bodloni'r meini prawf sydd wedi'u pennu yn y canllawiau a'r ddeddfwriaeth. Hoffwn wneud y pwynt nad oes angen gwneud unrhyw newidiadau i etholaeth Bro Morgannwg. Byddai newidiadau'n achosi cymhlethdodau a dryswch diangen. Felly, mae'r trefniadau presennol yn bodloni'r ffactorau cymunedol perthnasol, y materion daearyddol, cysylltiadau cymunedol naturiol, yn ogystal â'r gofynion o ran ffiniau llywodraeth leol. Felly, byddai symud oddi wrth y trefniadau presennol, pan nad wyf o'r farn bod angen gwneud hynny, yn arwain at anghyfleustra diangen i breswylwyr yn Ninas Powys. Felly, o ran cyd-destun, ni roddwyd unrhyw ystyriaeth i gynnwys Dinas Powys yn etholaeth De Caerdydd a Phenarth yn ystod yr arolwg a arweiniodd at y ffiniau a gadarnhawyd cyn yr etholiad cyffredinol yn 2010. Ar ben hynny, byddwn yn ychwanegu bod y Comisiwn Ffiniau'n argymell y dylid cadw etholaeth Bro Morgannwg yn ei chyfanrwydd ar gyfer y cynigion cyn yr etholiad cyffredinol yn 2015, nad oedd yr Offerynnau Statudol yn effeithio arnynt ar y pryd. Felly, y pwynt rwy'n ei wneud yw bod yna dueddiad o gadw etholaeth Bro Morgannwg fel y mae. Felly, mae hyn yn tanlinellu, yn tanlinellu pwysigrwydd newid diangen pan mae'r niferoedd, sef 76,811, yn disgyn o fewn y paramedrau fel mae'r etholaeth ar hyn o bryd. Byddai'r newidiadau arfaethedig yn achosi dryswch diangen, pan nad oes angen newid, yn enwedig pan fyddai'r ddwy etholaeth yn cadw'r un enwau. Nawr, mae hyn yn rhywbeth sy'n bwysig yn fy marn i, y dylai De Caerdydd a Phenarth a Bro Morgannwg gadw eu henwau ond, yn amlwg, oherwydd mae hynny'n adeiladu ar hanes maith y ddwy etholaeth ond, yn amlwg, byddai newidiadau rhyngddynt yn achosi dryswch i breswylwyr lleol. Felly, ffactor allweddol i'r ddadl o ran pam y dylid cadw Dinas Powys ym Mro Morgannwg yw oherwydd ei chyfansoddiad gwledig. Mae'n cynnwys sawl pentrefan, ynghyd â phentref Dinas Powys ei hun. Nawr, wrth ddangos hyn, hoffwn amlygu'r ffaith ei bod yn cynnwys coetir hynafol o arwyddocâd Ewropeaidd, sef Cwm George, Coed Caste Hill [anghlywadwy 01:12:13] Coed a Dolydd Case Hill. Mae Coed Cadw ei hun yn cydnabod eu bod o arwyddocâd Ewropeaidd. Y rheswm rwy'n tynnu eich sylw at hyn yw, mae bod yn ardal wledig yn golygu nad yw Dinas Powys yn cyd-fynd ag etholaeth dinas. Nawr, er bod Penarth yn ardal awdurdod lleol Bro Morgannwg, mae Penarth, fel tref, yn edrych tua Chaerdydd. Mae'n anheddiad trefol sy'n ffurfio estyniad naturiol i Gaerdydd. Felly, byddwn hefyd yn amlygu mai rhan o rôl Aelod Seneddol yw meithrin perthynas rhwng sefydliadau yn yr etholaeth honno ac mae statws

gwledig Dinas Powys yn arwyddocaol yn hyn o beth. Felly mae rhannu arfer gorau, er enghraifft rhwng cymunedau tebyg ar draws y fro wledig yn rhywbeth rwyf i, a llawer o Aelodau Seneddol eraill o'm blaen, yn ymfalchïo ynddo. Felly, mae grwpiau o'r un meddylfryd, grwpiau gwirfoddol cymunedol ac o'r un meddylfryd hefyd yn parhau i adeiladu rhwydweithiau ar draws etholaethau tebyg a phe byddech, â phob parch, pe byddech yn rhoi cyfle i mi amlygu hynny. Elusen yw Dinas Powys Voluntary Concern sydd â'r nod o gefnogi preswylwyr lleol sy'n ynysedig. Nawr, mae ganddi gysylltiad agos â Green Links, sef system drafnidiaeth wledig sy'n cael ei rheoli gan awdurdod lleol Bro Morgannwg, oherwydd mae gan yr awdurdod lleol rwymedigaeth i weithio, i fod yn ymwneud ag ynysigrwydd ar draws y gymuned wledig i gyd. Felly, mae'r AS yn rhannu arfer gorau. Felly gadewch i mi amlygu enghraifft eraill o ddydd Gwener diwethaf. Mae Dinas Powys Voluntary Concern yn rhedeg, yn rhedeg caffi dementia hefyd. Dyna oedd yr un cyntaf ar ôl y cyfnod clo y penwythnos diwethaf ac, wrth i mi siarad â'r aelodau a oedd yn bresennol, daeth yn amlwg bod heriau a ffactorau cyffredin â mentrau tebyg sy'n canolbwyntio ar ddementia yn Y Bont-faen a Llanilltud Fawr, sy'n drefi sy'n deall dementia. Ac yn yr un modd, mae ganddynt bentrefannau a phentrefi cyfagos lle mae angen iddynt gyflwyno mesurau penodol er mwyn cefnogi preswylwyr lleol. Felly'r pwynt rwy'n ei wneud yw, gall yr Aelod Seneddol amlygu arfer gorau a heriau, peri, ceisio peri newid deddfwriaethol, yn ôl yr angen, i gefnogi cymunedau a meithrin gallu ar draws yr ardaloedd gwledig hynny. Ar bwnc gwahanol, mae rhai awdurdodau wedi sefydlu cynlluniau adfywio sydd wedi'u hanelu'n benodol at ardaloedd gwledig. Nawr, ym Mro Morgannwg, mae gan fenter o'r enw Cymunedau Gwledig Creadigol hanes maith. Dim ond un enghraifft yw honno. Mae'n gynllun adfywio cymunedol sydd â'r nod o gefnogi seilwaith cymunedol, seilwaith caled, yn ogystal â busnesau a'r rhai sy'n byw ledled yr ardal. Nawr, ni fyddai unrhyw AS sydd â ffocws ar ddinas neu anheddiad trefol yn gallu darparu'r un lefel o gymorth i'r awdurdod lleol, o reidrwydd neu, yn benodol, i Ddinas Powys yn yr enghraifft hon, oherwydd y byddai ei sylw, yn ddigon teg, ar brif gyfansoddiad yr etholaeth. Ac enghraifft o Whitehall sy'n debygol, dwi'n credu, o ddod yn fwy sefydledig gyda threigl amser yw'r cynllun grant Ffyniant Bro. Dyma lle mae'r Aelod Seneddol, trwy gydweithio â'r awdurdod lleol, yn gwneud cais i Whitehall am gymorth grant sylweddol. Ond er mwyn gwneud hynny ac er mwyn creu achos credadwy, rhaid dod â chymunedau at ei gilydd. Rwy'n poeni y byddai cynllun adfywio yng Nghaerdydd yn golygu y byddai Dinas Powys yn cael ei gadael y tu allan i gnewyllyn unrhyw gais posibl. Fel cymuned a phoblogaeth, mae Dinas Powys yn edrych tua'r Barri ar gyfer busnesau manwerthu a gwasanaethau cyhoeddus. Mae ysbytai, deintyddion, gofal y tu allan i oriau, er enghraifft, i gyd yn cael eu darparu gan y Barri. Mae gan Aelod Seneddol sy'n cynrychioli'r Barri gyfle i nodi unrhyw ddiffyg mewn darpariaeth sy'n ymwneud â Dinas Powys, a phe gallwn i amlygu un enghraifft. Peth amser yn ôl, y gwasanaeth y tu allan i oriau, roedd cwynion am y gofal y tu allan i oriau a oedd yn cael ei ddarparu gan yr ysbyty yn Y Barri. A chafodd y duedd ei nodi dim ond oherwydd i sawl unigolyn gysylltu â mi, o'r Barri yn ogystal â'r ardaloedd cyfagos a oedd yn dibynnu ar Y Barri, a arweiniodd at ymchwiliad pellach a nododd y bu'r gwasanaeth ar gau am y mwyafrif o'r amser dros gyfnod o fisoedd. Yn naturiol, roedd hynny'n her yn y ddarpariaeth iechyd, sydd wedi'i goresgyn, diolch byth. Ond ni fyddai Aelod Seneddol sydd â ffocws ar Gaerdydd ond sydd hefyd yn cynnwys Dinas Powys wedi gallu nodi'r duedd honno, ac ni fyddai wedi gallu ymchwilio i'r achos i hyrwyddo'r angen am gymorth clinigol ychwanegol a oedd ei angen mewn gofal y tu allan i oriau. Felly, ar ben hynny, hoffwn danlinellu fy mod yn ymwybodol o'r amser. Gallwn i fynd ymhellach i gefnogi a chysylltiadau diwylliannol, i chwaraeon

a chysylltiadau diwylliannol, er enghraifft y clybiau pêl-droed, y clybiau rygbi, gwyliau cerddoriaeth Dinas Powys, mae'n ddrwg gennyf, Bro Morgannwg, mae pob un o'r rhain yn cynnwys Dinas Powys yn rhan allweddol ohonynt, oherwydd mae'n edrych tua'r Barri fel ei chanolfan ddinesig. Felly, gan ddod â'r rhain i gyd at ei gilydd, yr ystyriaethau o ran daearyddiaeth ffisegol, ffiniau llywodraeth leol, ffiniau'r etholaethau presennol, cysylltiadau lleol a fydd yn cael eu chwalu a'r anghyfleustra a fyddai'n cael ei achosi, rwy'n credu'n gryf y gellid cadw lle Dinas Powys ym Mro Morgannwg, ac y dylid gwneud hynny er mwyn sicrhau parhad a chefnogaeth ar draws cymunedau gwledig. Diolch.

[01:32:00]

AC1: Diolch yn fawr iawn i chi. A oes unrhyw gwestiynau o'r llawr? Unrhyw gwestiynau gan y panel? Nac oes. Diolch yn fawr iawn, Mr Cairns.

AC2: Diolch.

AC1: Rwy'n cynnig cymryd egwyl o bum munud nawr ac yna fe wnawn ni ailddechrau gyda Mr Smith am bum munud i 10. Diolch.

[Egwyl]

AC1: Diolch, fe wnawn ni ddechrau eto. Mae bron yn 10 o'r gloch, fe wnawn ni alw Robert Smith ymlaen, os gwelwch yn da. Rwy'n credu, Mr Smith, eich bod yn bresennol pan amlinellom y byddem yn gofyn i chi roi eich enw, lle'r ydych, yr ardal rydych yn byw ynddi, eich ymlyniad, os oes un. Byddwn yn eich atgoffa bod gennych 10 munud â dau funud o rybudd gan y fenyw o'ch blaen.

RS: Diolch yn fawr, gadeirydd. Robert Smith, Swansea Road, Gorseinon. Cynghorydd, Cynghorydd Llafur ar Ddinas a Sir Abertawe. A gaf i ddiolch i'r Comisiwn am y cynigion drafft ac am lunio trydedd set o gynigion mewn llai na 10 mlynedd, rwy'n credu, pob un yn gweithio i set wahanol o feini prawf a chwota gwahanol? Rwyf wedi dod i gefnogi gwrthgynnig y Blaid Lafur yn ymwneud â Gorllewin Abertawe a Gŵyr, a fyddai'n cynnwys Sgeti ynghyd â Mayals mewn sedd sydd hefyd yn cynnwys canol Abertawe, a chynnwys Pontarddulais, Mawr, Penlle'r-gaer a Llangyfelach mewn etholaeth wedi'i seilio ar yr ardaloedd sy'n weddill yng Ngŵyr. Byddai hyn yn creu etholaeth drefol gywasgedig mewn un rhan o Abertawe ac un arall sy'n cynnwys yr ardaloedd cyfagos. Yn hanesyddol, mae Gorseinon, Llwchwr, Penlle'r-gaer, Pontarddulais, Llangyfelach a Mawr wedi ffurfio craidd etholaeth Gŵyr yn ei hamrywiol iteriadau ers iddi gael ei ffurfio yn y 1880au. Roedd pob un ohonynt wedi'u cynnwys ym Mwrdeistref Dyffryn Lliw cyn 1996 a bron pob un o'r ardaloedd hynny yn rhan o Gyngor Dosbarth [anghlywadwy 01:34:16] gynt ac, os ewch yn ôl hyd yn oed ymhellach i ddosbarth gwledig Abertawe a dosbarth gwledig Llangyfelach rhyw 100 mlynedd yn ôl. Pob un o'n trefi neu bentrefi bach sydd â'u hunaniaeth eu hunain ac sydd â diwylliant cytûn fel pentrefi diwydiannol, sydd wedi esblygu dros y blynyddoedd. Mae cysylltiadau cryf o ran trafnidiaeth gyhoeddus rhwng pob un o'r cymunedau y soniais amdanynt ac, fel rydym wedi clywed yn flaenorol, ni ellir disgrifio unrhyw un ohonynt yn rhan o brif gytref Abertawe. Ar ben hynny, byddwn yn dadlau nad oes gan Orseinon a Llwchwr unrhyw fuddiant cymunedol ag ardal Sgeti ac nid oes unrhyw gysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus rhyngddynt. Mae Sgeti yng nghanol cytref Bae Abertawe,

gan lifo'n ddi-dor i Uplands ac yna i ganol Abertawe. Pe byddai Sgeti yn aros mewn etholaeth Abertawe wedi'i lleoli yng nghanol Abertawe, byddai canolfan Abertawe, holl lety'r brifysgol a'r mwyafrif helaeth o'r myfyrwyr sy'n astudio yn y brifysgol mewn un etholaeth sy'n cysylltu'n naturiol ag Uplands a'r Castell ac, wrth gwrs, mae'r duedd hon yn debygol o gael ei hatgyfnerthu ymhellach pan fydd y brifysgol yn symud o [anghlywadwy 01:35:40] o Hendrefoelan yn gyfan gwbl. Hefyd, mae ffin amlwg rhwng Cilâ a Sgeti yn [anghlywadwy 01:35:49]. A byddai'r holl ardaloedd yn Abertawe sy'n cael eu gwasanaethu gan gyngor cymuned, rwy'n credu fy mod i'n gywir yn dweud hyn, ond byddai'r holl ardaloedd lle mae cyngor cymuned yn etholaeth Gŵyr pe byddai Sgeti, mae'n ddrwg gennyf, pe byddai Penlle'r-gaer a Phontarddulais a Mawr yn cael eu cynnwys gyda Gŵyr yn hytrach, yn hytrach nag etholaeth arall. Nodaf o'r trafodaethau y bore yma a'r hyn sy'n cael ei roi ar y wefan, y ddau gynnig a grybwyllwyd gan Geraint Davies AS, ynghyd â'r cynigion gan Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru, y rhai gan Blaid Cymru ac eraill rwy'n credu, mae pob un ohonynt yn llunio, yn cynnig trefniadau gwahanol iawn i'r cynigion drafft ac mae rhai ohonynt yn sylweddol wahanol i'w gilydd. Fodd bynnag, un peth sy'n gyffredin ym mhob un o'r gwrthgynigion hyn yw bod Sgeti wedi'i chynnwys yn yr un etholaeth ag Uplands, tra mae Pontarddulais a Phenlle'r-gaer wedi'u cynnwys yn yr un etholaeth â Gorseinon a Llwchwr ym mhob un o'r gwrthgynigion rwyf wedi'u gweld. O ran y mater hwn, mae'n ymddangos felly, o leiaf, bod cydsyniad cryf yn y gwrthgynigion ac, ar y sail honno ac am y rhesymau rwyf wedi'u dadlau uchod, byddwn yn dadlau, yn erfyn yn gryf ar y Comisiwn i ddiwygio'r cynigion yn ôl yr hyn rwyf wedi'i awgrymu. Diolch.

AC1: Diolch i chi. A allech chi aros yno am eiliad, os gwelwch yn dda? A oes unrhyw bwyntiau o eglurhad o'r llawr? Neu gan y panel? Nac oes, diolch yn fawr iawn.

SW: Oes.

AC1: O, mae'n ddrwg gennyf, mae yna un.

ANHYSBYS: Fe sonioch am y cynigion eraill, gan gynnwys fy ail gynnig i a, maddeuwch i mi, a fyddech chi'n cytuno y byddai hynny'n gynnig cydlynus hefyd, o ran cadw Cyngor Cymuned y Mwmbwls gyda'i gilydd, ac y dylai'r Mwmbwls-

[Siarad ar draws 01:37:40]

RS: Yn sicr. Mae amrywiol iteriadau o hyn, chi'n gwybod, ond rwy'n credu mai'r pwynt canolog rwyf wedi'i ddadlau o ran Sgeti ac Uplands yn edrych tua'r ddinas, tua chanol Abertawe, tra mae cysylltiadau rhwng Gorseinon, Llwchwr, Penlle'r-gaer a Phontarddulais, dyna'r brif ddadl ac rwy'n credu bod hynny'n wir ni waeth pa iteriad rydych chi'n ei ddewis.

ANHYSBYS: Iawn, diolch.

AC1: Diolch yn fawr iawn i chi. Diolch. Iawn, rwyf am alw nawr ar y Cynghorydd Penny Matthews…

[Saib 01:38:12 hyd 01:38:28]

AC1: Cynghorydd Matthews, nid wyf yn siwr a glywsoch chi ar ddechrau'r dydd, ond byddem yn gofyn i chi roi eich enw, eich ardal breswyl gyffredinol, eich ymlyniad, os oes un, p'un a ydych yn siarad fel unigolyn. Mae gennych 10 munud i wneud eich cynrychiolaethau, byddwch yn cael dau funud o rybudd ac, fel y gwelwch, gallai fod cwestiynau o eglurhad ar y diwedd.

PM: Diolch.

AC1: Diolch.

PM: Yn gyntaf, hoffwn ddiolch i chi am y cyfle i siarad y bore yma. Rwy'n cymryd lle cynghorydd arall nad oedd yn gallu dod, a dweud y gwir, felly maddeuwch i mi oherwydd ychydig iawn o nodiadau gwasgarog sydd gennyf, felly fe ddechreuwn ni, dan y cynigion sydd wedi'u hamlinellu yn adroddiad y Comisiwn, bydd y gymuned yn rhan o etholaeth newydd Castell-nedd Dwyrain Abertawe. Rwy'n ysgrifennu i wrthwynebu'r cynnig i roi Llansamlet yn y gymuned, yr etholaeth newydd hon, mae'n ddrwg gennyf. Rwy'n gwrthwynebu am y rhesymau canlynol. Mae Llansamlet yn rhan annatod o Abertawe a bu felly er 1918. Hefyd, Llansamlet yw'r gyffordd gyntaf oddi ar yr M4 ac rydych yn mynd yn syth i Abertawe. Os dewch chi i ffwrdd cyn hynny, rydych yn mynd i Gastell-nedd. Mae'r sedd newydd yn cael ei chreu o ganlyniad i fformiwla fathemategol yn unig ac nid yw'n ystyried hanes, cymuned, traddodiadau na'r cysylltiadau trafnidiaeth gwael rhwng Llansamlet a Chastell-nedd. Mae Llansamlet yn ffurfio rhan o gymuned ehangach Abertawe. Mae'n ffurfio calon fasnachol sedd bresennol Dwyrain Abertawe ac fe glywch chi fwy gan ein AS presennol, mae'n debyg. Mae Parc Menter Dwyrain Abertawe yn gyfan gwbl o fewn ardal Llansamlet ac mae dros 10,000 o bobl yn gweithio yn y Parc Menter. Mae Llansamlet yn gartref i ran o ddatblygiad mawr DVLA, y Gofrestrfa Tir, canolfan bensiynau'r DU a thair canolfan alwadau fawr, gan gynnwys un ar gyfer banc HSBC. Mae hefyd yn gartref i gwmni yswiriant Admiral. Byddai'n hollol amhriodol trosglwyddo canolfan fasnachol a churiad calon Abertawe i ganolfan fasnachol sy'n rhan annatod o'r gymuned leol i sedd newydd nad oes ganddi unrhyw beth yn gyffredin â hi. Mae Llansamlet yn gymuned cydlynus o fewn ffin plwyf Eglwys Llansamlet. Dylai aros mewn un ward llywodraeth leol o fewn sedd Abertawe. Ni ddylai'r Comisiwn ystyried unrhyw syniadau neu gynigion i rannu'r ward a rhoi rhan breswyl Llansamlet yn y sedd Seneddol newydd, tra'n cadw'r Parc Menter yn Abertawe, mewn sedd sydd â sail a ffocws yn Abertawe. Pe byddai Llansamlet yn rhan o sedd Castell-nedd ac Abertawe, byddai'r rhan fwyaf o bobl, o ganlyniad Castell-nedd fyddai ffocws y sedd, gydag Abertawe'n cael ei hychwanegu ati. Byddem yn rhan fach o endid llawer mwy ac yn teimlo y byddai'r ardal yn dioddef o fod yn rhan fach o ardal na fu'n rhan ohoni erioed. Mae pobl yn teimlo'n rhan o gymuned leol, sydd â llawer o grwpiau yn y sector gwirfoddol sy'n cefnogi'r gymuned. Eto, maent yn ffurfio rhan o sector gwirfoddol ehangach Abertawe ac nid oes ganddynt unrhyw gysylltiad â Chastell-nedd. Mae hanes Llansamlet yn rhan o hanes diwydiannol Abertawe, wedi'i seilio yn y diwydiannau gwaith metal trwm sy'n nodweddiadol o Gwm Tawe isaf. Arweiniodd adfywio Cwm Tawe isaf at greu'r parc menter cyntaf yn y DU yn gynnar yn y 1980au. Llansamlet neu Abertawe [anghlywadwy 01:42:37] y cyfeirir ati yn y cyflwyniad, mae'r enw'n gollwng y gath o'r cwd. Ni fu gan yr ardal hon gysylltiad â Chastell-nedd erioed. Mae cysylltiadau trafnidiaeth rhwng Llansamlet a Chastell-nedd yn wael, ac ni fu gan ran sylweddol o ardal Y Gellifedw a Llansamlet unrhyw gysylltiadau trafnidiaeth uniongyrchol â Chastell-nedd o gwbl ers i'r bws uniongyrchol gael ei dynnu'n ôl yn

2018. Byddai hyn yn ei gwneud yn anodd iawn gweld yr AS, oherwydd y byddai wedi'i leoli yng Nghastell-nedd yng nghanol y dref, fel y mae ar hyn o bryd. Mae clybiau chwaraeon yn Abertawe, mae'n ddrwg gennyf, yn Llansamlet, naill ai'n cymryd rhan yng nghystadlaethau Abertawe neu'n chwarae mewn cystadlaethau wedi'u lleoli yn Abertawe. Nid oes unrhyw un ohonynt yn chwarae mewn cystadlaethau sydd wedi'u lleoli yng Nghastell-nedd. Mae'r ffocws chwaraeon a diwylliannol yn Llansamlet yn amlwg yn gogwyddo tuag at Abertawe. Mae ychydig o bethau eraill yr hoffwn dynnu eich sylw atynt tra bydd gennyf gyfle. Fel rwyf wedi sôn, cyffordd 44 yw'r allanfa gyntaf oddi ar yr M4 sy'n mynd yn uniongyrchol i Abertawe, sy'n golygu mai Llansamlet yw'r ffin, mewn gwirionedd, y cymunedau a [anghlywadwy 01:43:56], mae'n ddrwg gennyf, rwyf wedi colli pen llinyn. Porth Abertawe. Nid yw newidiadau i'r ffiniau, nid ydynt yn ymwneud â phobl a chymunedau, ond tylino'r ffigurau i gyd-fynd â logarithm. Dyna rwyf i, fel cynghorydd lleol ar gyfer Llansamlet, yn ei chael yn anodd iawn ei ddeall. Mae'r [anghlywadwy 01:44:19] a'r cysylltiadau crefyddol drwy'r eglwysi o Ddwyrain Abertawe i Abertawe, mae cysylltiadau Llansamlet i gyd â Dwyrain Abertawe. Nid oes unrhyw gysylltiadau â Chastell-nedd. Mae cysylltiadau addysgol â'r ysgol Gymraeg yn amlwg yn derbyn plant o Abertawe. Ers canrifoedd, bu'r afon yn rhannu ac yn gwahanu'r cymunedau. Llansamlet, fel rwyf wedi sôn, sydd â'r parc menter mwyaf yn y wlad. Mae gan DVLA a rhai o'r prif gyflogwyr eraill, mae prif swyddfa ddosbarthu'r Post Brenhinol yn Llansamlet. Mae gan Tesco ac Asda eu siopau mwyaf yn y ward, mae prif ganolfan fancio Abertawe yn y Parc Menter. Mae Llyn y Fendrod ac [anghlywadwy 01:45:07] yn Llansamlet, sy'n atyniadau mawr i bobl leol. Mae nifer fawr o werthwyr ceir wedi'u lleoli yn y Parc Menter a Llansamlet, i grynhoi, yw porth Abertawe ac mae hynny'n rhywbeth yr hoffem i chi ganolbwyntio arno yn eich ystyriaethau. Diolch.

AC1: Diolch i chi. A oes unrhyw bwyntiau o eglurhad o'r llawr? Neu gan y panel? Diolch yn fawr iawn.

[Saib 01:45:34 hyd 01:45:42]

AC1: Y siaradwr nesaf yw Alec Williams. Mr Williams, pe gallech chi ddod ymlaen, mae gennych chi 10 munud i'n hannerch. Byddwn yn rhoi gwybod i chi pan fydd gennych ddau funud ar ôl. Pe gallech roi eich enw, yr ardal rydych yn byw ynddi a ph'un a ydych yn siarad fel unigolyn neu fel rhan o grŵp.

AW: Iawn, hyfryd. Diolch. Felly, rwy'n aelod o gymdeithas y Ceidwadwyr. Rwy'n byw yn Nhre-gŵyr. Rwyf wedi treulio rhan o'm bywyd yn byw yn Brynmill ac Uplands. Ond cefais fy magu yn Nynfant felly, chi'n gwybod, rwyf wedi treulio cryn dipyn, cefais fy ngeni ym Mrynaman a bûm yn byw yn yr ardal er 75, felly rwyf wedi bod yno ers peth amser. Felly, chi'n gwybod, wrth edrych ar y cynigion, chi'n gwybod, roeddwn i'n wastad yn teimlo bod etholaeth Gŵyr o chwith braidd os hoffech chi, oherwydd nad oedd rhai o'r ardaloedd roedd yn ei chwmpasu, Clydach ac ati, yn teimlo fel Gŵyr mewn gwirionedd. Rwy'n gweld bod y cynigion cyfredol yn dod â Thre-gŵyr a Waunarlwydd at ei gilydd, sy'n sicr yn synhwyrol yn fy marn i. Es i'r ysgol â llawer o bobl o Waunarlwydd, chi'n gwybod, roedden ni'n rhyngweithio cryn dipyn, ni yn Nhre-gŵyr a Waunarlwydd. Rwy'n credu ei fod yn synhwyrol ein bod ni gyd yn pleidleisio â'n gilydd. Gwelaf fod ymraniad naturiol, bron iawn, rhwng Waunarlwydd a Chocyd, oherwydd mae yna gaeau ac ati rhwng yr ardaloedd. Felly, er bod Cocyd yn cael ei chynnwys yn etholaeth Gŵyr, nad yw'n peth drwg o

reidrwydd, mae yna achos cryf iawn o blaid cynnwys Waunarlwydd yn etholaeth Gŵyr, yn fy marn i. Gwelaf hefyd fod Mayals, Sgeti, Cilâ ac ati wedi'u cynnwys yn etholaeth Gŵyr. Ni allaf ddeall sut yn y byd nad oedd yr ardaloedd hynny'n rhan o etholaeth Gŵyr, oherwydd maent yn rhan naturiol o Benrhyn Gŵyr ac mae'r bobl yn teimlo eu bod yn rhan o Benrhyn Gŵyr. Mae cymuned gydlynus iawn yn yr ardaloedd hynny, chi'n gwybod, sy'n uniaethu'n gryf â Gŵyr, Penrhyn Gŵyr a'r ardal, yr ardal gyfan. Felly rwy'n credu ei fod yn beth da, chi'n gwybod. Gwelaf hefyd fod llinell derfyn yr etholaeth yn mynd rhwng Brynmill a Sgeti, fel petai. Eto, mae hynny'n synhwyrol oherwydd, wedi byw yn Brynmill, nid yw'r ardal honno erioed wedi teimlo'n rhan o Benrhyn Gŵyr, roedd yn teimlo'n fetropolitan. Ac rwy'n credu bod cysylltu'r ardal honno â chanol y ddinas, yn hytrach na Gŵyr, yn beth da, felly rwy'n credu bod y llinell derfyn yn y lle iawn. Felly, yn gyffredinol, rwy'n credu bod etholaeth Gŵyr yn welliant ar yr hen fodel. A dyna ni. Dyna'r cwbl, dyna fy arsylwadau i gyd.

AC1: Diolch i chi. Mi wna' i wirio a oes unrhyw bwyntiau o eglurhad o'r llawr neu gan y panel? Nac oes, diolch yn fawr iawn, Mr Williams. Ychydig o flaen amser, Lynne Joyce, mae'n debyg eich bod wedi clywed y... nid wyf am eu galw'n gyfarwyddiadau, o reidrwydd, ond y cyngor a roddais i'r siaradwr blaenorol. Pe gallech roi eich enw, lle'r ydych yn byw, yr ardal rydych yn byw ynddi, unrhyw ymlyniad sydd gennych neu b'un a ydych yn siarad fel unigolyn. Mae gennych chi 10 munud â rhybudd o ddau funud tua'r diwedd. Diolch.

LJ: Bore da. Fy enw i yw Lynne Joyce ac rwy'n byw yn ardal Sgeti yn Abertawe ac, fel un o breswylwyr Sgeti yn Abertawe, rwy'n cefnogi cynigion y Comisiwn Ffiniau mewn perthynas â Gorllewin Abertawe a Gŵyr. I mi, mae'r agosrwydd rhwng cymunedau Dynfant, Cilâ a Sgeti wedi creu cysylltiadau ar y cyd o ran yr ardaloedd siopa lleol, dalgylch yr ysgol gyfun a chysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus. Rwyf i fy hun yn teithio'n aml rhwng yr ardaloedd hyn ar gyfer gwaith a hamdden, ac mae'n ymddangos yn naturiol y dylent aros gyda'i gilydd yn yr ardal honno. Rwy'n credu y dylid cynnal y buddiant cyffredin rhwng cymdogion ac rwy'n credu bod hynny'n rhoi cynrychiolaeth well i bob aelod o'r cyhoedd gan eu cynrychiolwyr pan fydd y cymunedau hyn yn agos at ei gilydd. Dyna'r cwbl sydd gennyf i'w ddweud, ond rwy'n cefnogi'r cynigion. Diolch.

AC1: Mi wna' i wirio a oes unrhyw bwyntiau o eglurhad o'r llawr neu gan y panel? Nac oes, diolch yn fawr iawn. Yna eto, ychydig o flaen amser, Paxton Hood-Williams? Rydych chi i fod i siarad am 10:40 ond gallwn eich gwahodd i siarad nawr, os hoffech wneud hynny?

PHW: Mae'n ddrwg gennyf?

AC1: Rydych chi i fod i siarad am 10:40 ond hoffem eich gwahodd i siarad nawr, os hoffech wneud hynny?

PHW: [Anghlywadwy 01:50:57]

[Chwerthin].

AC1: Eto, pe gallech chi roi eich enw, eich ardal breswyl yn gyffredinol a'ch ymlyniad, os oes un.

PHW: Iawn, wrth gwrs.

AC1: Mae gennych chi 10 munud â rhybudd o ddau funud ar y diwedd.

PHW: Mae angen i mi roi trefn ar bethau ac yna fe awn ni o'r fan honno. I ddechrau, fy enw i yw Paxton Hood-Williams, rwy'n gynghorydd ar Gyngor Dinas Abertawe, yn gynghorydd dinas Ceidwadol yn cynrychioli ward Fairwood, sef [anghlywadwy 01:51:24] a'r Crwys a'r ardaloedd cyfagos, mewn gwirionedd. Ac, mewn gwirionedd, rwyf wedi byw yn yr ardal honno ar hyd fy oes, [anghlywadwy 01:51:31] ar wahân i ryw bum mlynedd pan roeddwn yn byw yn Uplands. Felly, mewn gwirionedd, rwyf wedi byw yn yr ardal honno ar hyd fy oes. Felly mae gennyf lawer o brofiad a gwybodaeth am yr ardal yn hynny o beth, am wn i ac, yn sicr wrth edrych ar y cynigion sydd wedi'u cyflwyno yma o ran yr hyn sy'n cael ei gynnig ar gyfer sedd Gorllewin Abertawe a Gŵyr, wel, fe ddywedaf rywbeth am yr enw hwnnw'n nes ymlaen, ond mae hwnnw'n fater arall yr hoffwn ddweud rhywbeth amdano. Bach iawn. Ond rwy'n credu ei fod yn gyfuniad naturiol yn hynny o beth. Rwy'n gwerthfawrogi pam y mae angen i ni fynd drwy'r newidiadau hyn i'r ffiniau oherwydd nifer y pleidleiswyr ac ati. Rydych chi'n gwybod y ffigurau hynny'n well, yn well o lawer na fi ac rydych chi'n deall, rwy'n siŵr y bydd y rhan fwyaf o'r bobl yma'n deall, o ran tegwch, mai dyna y mae angen i chi ei wneud i gyfartalu'r niferoedd. A bu'r cynigion hyn yn cael eu cyflwyno ers peth amser, neu bu'r potensial i gyflwyno'r cynigion hyn yno ers peth amser. O ran yr hyn sy'n cael ei gynnig, o ran y cysylltiadau rhwng Gorllewin Abertawe a Gŵyr fel y mae nawr, rwy'n credu, yn fy marn i, lle rwy'n byw yn Fairwood, Y Crwys ac [anghlywadwy 01:52:42] Uchaf, mae'n naturiol teithio trwy ardaloedd Cilâ a Sgeti yng Ngorllewin Abertawe i fynd i'r dref, i Abertawe, a hefyd ar gyfer siopa lleol yng Nghilâ, mae llawer iawn o hynny'n cael ei wneud, felly mae'n rhan fawr o'r gymuned yn hynny o beth ac yn gymuned agos iawn o ran pobl yn byw gyda'i gilydd ac yn gweithio gyda'i gilydd yn yr ardaloedd hynny. Bydd pobl yn teithio trwy Dre-gŵyr pan fyddant am fynd i rai o'r archfarchnadoedd mwy, ac maent ar gael ac mae'r llwybrau hynny yno hefyd. Felly, mae'n briodol iawn yn hynny o beth, yn fy marn i. Ar ben hynny, pan fyddwn yn teithio i'r dwyrain, fel maen nhw'n dweud, yn benodol i Abertawe i siopa, byddwn yn mynd trwy ardaloedd Cilâ yn Sgeti ac ymlaen i'r dref o'r fan honno. Un o'r pethau y mae'r cynnig hwn yn ei wneud, yn fy marn i, yw ei fod yn atgyfnerthu neu'n cael ei atgyfnerthu gan y ffaith, wrth i chi edrych ar yr heddlu, trefniant yr heddlu yn yr ardal yn benodol, mae'n cyfateb i'r ffordd y mae'r heddlu wedi rhoi'r ardal at ei gilydd. Yn yr hanfod, mae'r arolygydd wedi'i leoli yn Townhill, sydd wedi'i rhannu'n ddwy ardal Townhill ac mae ei gyfrifoldebau wedi'u rhannu'n ddwy ardal. Yn sylfaenol, un ohonynt yw Penrhyn Gŵyr i gyd, Sgeti, Cilâ i lawr i'r Mwmbwls a'r ardal honno i gyd, sy'n un ardal benodol, a dyna rydych chi'n cynnig ei wneud o ran dod â'r wardiau hyn at ei gilydd yn yr etholaeth hon, yn y bôn. A dyna'r safbwynt cymdeithasegol sydd ganddynt o ran plismona'r gymuned ac wrth edrych arnynt o'r safbwynt hwnnw, mae'r rhain yn gymuned yn eu rhinwedd eu hunain, sy'n gweithio gyda'i gilydd ac yn cael eu plismona o'r un orsaf. Ac mae canolfan yr orsaf honno yn Sgeti ei hun a dyna'r unig orsaf heddlu sy'n weddill yn yr ardal i'r gorllewin o'r fan honno, mewn gwirionedd. Felly, yn hynny o beth, mae'n cysylltu'n dda iawn yn hynny o beth. Felly, p'un a yw hynny'n atgyfnerthu eich dadleuon, oherwydd rwy'n cefnogi eich dadleuon, yn amlwg, neu b'un a yw eich dadleuon chi yn eu cefnogi nhw, nid wyf yn hollol siwr, ond y naill ffordd neu'r llall, mae'n gweithio'r naill ffordd neu'r llall. Ac mae hynny'n

ymddangos yn ffordd resymegol i'r heddlu gynrychioli, gydnabod natur gymdeithasegol yr ardal, a sut mae'n cyfuno ac yn dod at ei gilydd. Yn sicr, fel y soniwyd yn flaenorol, bûm yn byw yn Uplands am bum mlynedd ac mae'n hollol wahanol i'r ardaloedd i'r gorllewin ohoni, nid oes unrhyw amheuaeth am hynny. Mae'n gwneud synnwyr i mi lunio'r ffiniau yn union fel rydych chi wedi'u llunio, ac rwy'n credu y byddai hynny, rwy'n credu y byddai'n newid synhwyrol iawn at y dyfodol. O gofio bod rhaid i chi wneud y penderfyniadau hyn o ran nifer yr etholwyr fesul etholaeth ar unrhyw adeg. Felly, yn hynny o beth, fel rwy'n dweud, rwy'n credu bod yr hyn rydych yn ei wneud yn synhwyrol iawn. Yr unig newid y byddwn yn ei awgrymu o ran yr hyn y cyfeiriais ato'n gynharach, oedd yn hytrach na'i galw'n Gorllewin Abertawe a Gŵyr, byddai'n well o lawer gennyf ei gweld yn cael ei galw'n Gŵyr a Gorllewin Abertawe, ond mae hynny oherwydd fy mod yn fachgen o Benrhyn Gŵyr, wedi fy ngeni a'm magu ym Mhenrhyn Gŵyr. Rwy'n siwr mai dyna'r rheswm, ond mae'n gwneud mwy o synnwyr mewn llawer o ffyrdd, yn fy marn i, oherwydd roedd Gŵyr yno fel etholaeth ac mae Gorllewin Abertawe yn fwy o ardal amhendant yn hytrach na Gŵyr, yn yr ystyr ei fod yn benrhyn. Felly, ar y sail honno, dyna'r unig newid gwirioneddol yr hoffwn ei weld yn hynny o beth ond, fel arall, byddwn yn cefnogi eich cynigion yn llwyr. Felly os oes gan unrhyw un unrhyw gwestiynau i mi, byddwn yn fodlon ceisio eu hateb.

AC1: Diolch, mi wna' i wirio a oes unrhyw bwyntiau o eglurhad? Mae un o'r llawr?

ANHYSBYS: Oes, [anghlywadwy 01:57:01] Gŵyr a Gorllewin Abertawe yn swnio?

PHW: Ie, mae Gŵyr a Gorllewin Abertawe yn sicr yn swnio'n ffordd well i roi enw'r etholaeth. Ac mae'n gwneud iddi, er ei bod yn rhan o Abertawe o hyd, mae'n gwneud iddi ymddangos yn fwy gwahanol i'r cymunedau eraill yn Abertawe, a fydd hefyd yn dechrau â'r gair Abertawe, yn amlwg. Felly, rwy'n credu ei fod yn ffordd well a mwy dymunol i enwi'r etholaeth.

AC1: Diolch. A oes unrhyw eglurhad pellach?

RS: O ran dosbarthiadau'r heddlu, Paxton, a hoffech i mi sefyll?

PHW: Rwy'n eich clywed chi'n iawn.

RS: O, dyna ni. Fe sonioch am ddosbarth heddlu Sgeti Gŵyr?

PHW: Do.

RS: Ond a gaf i gadarnhau nad yw hynny'n cynnwys Gorseinon, a fyddai wedi'i chynnwys yn yr etholaeth hefyd, a bod Gorseinon a Llwchwr wedi'u cysylltu â dosbarth heddlu Penlan a Gorseinon?

PHW: Ydy. Ond byddwch yn deall, Robert, yn well na fi mae'n debyg, pan edrychwch chi ar Gocyd, mae'r arolygydd sydd wedi'i leol yn Townhill, mae ganddo ddwy ardal sylfaenol. Un yw ardal Sgeti a'r gorllewin a'r llall yw'r gogledd-ddwyrain, sydd wedi'i lleoli o gwmpas Gorseinon ac yn mynd allan tua Llwchwr a'r ardal honno hefyd. Felly mae dwy ardal ar wahân.

RS: Oes.

PHW: Iawn?

RS: Dyna, dyna'r pwynt.

PHW: Mae'n ddrwg gennyf? Maen nhw'n ddwy ar wahân, er mwyn i chi, er mwyn i chi ddeall hefyd, yn hynny o beth. Felly dyna pam mae'n synhwyrol, yn fy marn i, nid oes unrhyw beth sy'n anghyson yn yr hyn sy'n cael ei drafod yma o ran, o ran y ffordd y mae'r heddlu wedi trefnu eu sefydliad hefyd.

AC1: Mr Phillips?

SP: Ie, o ran yr enw a'r israniad, os mynnwch chi, rhwng Gorllewin Abertawe a Gŵyr, er mwyn i mi fod yn hollol glir, mi fyddwn i'n dweud bod Fairwood yn rhan o Benrhyn Gŵyr.

PHW: Ydy.

SP: Byddwn i'n dweud bod Sgeti'n rhan o Orllewin Abertawe.

PHW: Ydy.

SP: Gallech chi ddadlau'r naill ffordd neu'r llall ar gyfer Dyfnant neu Gilâ.

PHW: Rwy'n credu y gallech chi, mae'n debyg. Nid wyf am ddadlau yn hynny o beth, ond mae'n fwy synhwyrol yn fy marn i oherwydd, fel rwy'n dweud, rwy'n fachgen o Benrhyn Gŵyr yn y pen draw. Ac roedd Y Crwys a Chilâ Uchaf yn sicr yn ardal Cyngor Dosbarth Gwledig Gŵyr, on'd oeddent? Ac, yn benodol, ydyn yn sicr, maent yn sicr yn rhan o Benrhyn Gŵyr a'r ffin yw'r afon Clun, mewn gwirionedd. Wyddoch chi? Ond iawn, mae'n bwynt dadleuol o ran p'un ai Gorllewin Abertawe ydyw neu Gŵyr, ond byddwn i'n ffafrio Gŵyr a Gorllewin Abertawe.

SP: Iawn.

PHW: Nid wyf yn credu ei fod yn werth dadlau gormod amdano yn hynny o beth.

SP: Nac ydy, iawn. Rwy'n credu bod hynny'n fwy o bwynt i ni a dylwn i fod wedi gofyn cwestiwn yn gynharach a dweud y gwir, ond mae'r ymraniad hwn o 58/42 rhwng Gŵyr a Gorllewin Abertawe, mae angen i ni ddarganfod lle mae'r ffin benodol honno rwy'n credu. Oherwydd mae llawer o bobl yn credu mai 42/58 ydyw, wn i ddim. Ond mae hwnnw'n ateb defnyddiol, diolch i chi.

PHW: Popeth yn iawn. Rwy'n gobeithio bod hynny o gymorth i rai. Wn i ddim. Beth bynnag, diolch yn fawr iawn i chi.

AC1: Diolch yn fawr iawn.

PHW: Iawn. Diolch.

SW: Nid oes gennym ni fwy o siaradwyr-

[Siarad ar draws 02:00:12]

AC1: Nawr mae gennym ni doriad, yn y niferoedd, o ran y bobl sydd wedi'u rhestru, tan un o'r gloch, ond beth rydym yn bwriadu ei wneud yw gohirio nawr tan un o'r gloch, oni bai y bydd unrhyw bobl eraill yn cyrraedd yn y cyfamser i wneud cynrychiolaethau. Os felly, bydd yr holl gomisiynwyr cynorthwyol ar y safle i glywed y cynrychiolaethau hynny. Ond oni bai y bydd unrhyw un yn cyrraedd yn y cyfamser, mae awr o egwyl tan un o'r gloch. Diolch.

[Egwyl]

AC1: Diolch, pe gallwn ailddechrau'r gwrandawiad, fe grybwyllom y byddem wrth law i glywed unrhyw siaradwyr a fyddai'n cyrraedd ac mae gennym ni un, Emma Turner? Pe gallech chi ddod i'r ddarlithfa, os gwelwch yn dda, a gaf i ddweud wrthych beth sydd ei angen arnom a mynd trwy ychydig o bwyntiau rhagarweiniol wedi i chi gyrraedd. Rhowch eich enw a'r ardal rydych yn byw ynddi, yna unrhyw ymlyniad sydd gennych neu b'un a ydych yn siarad fel unigolion neu beidio. Mae gennych chi gyfnod o 10 munud.

ET: O'r gorau.

AC1: A tua diwedd y 10 munud, ar ôl wyth munud mewn gwirionedd, byddwch yn cael gwybod faint o amser sy'n weddill gennych.

ET: Diolch.

AC1: Efallai y bydd rhai cwestiynau i chi eu hegluro ar y diwedd, ond fe wnawn eich gwahodd nawr i roi eich cynrychiolaethau i ni.

ET: Diolch.

AC1: Diolch.

ET: Felly fy enw i yw Emma, Emma Turner, ac rwy'n byw ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn Ewenni, sy'n rhan o Fro Morgannwg. Rwyf yma fel unigolyn; fodd bynnag, mae llawer o'r hyn yr hoffwn ei ddweud yn ymwneud â'm gwaith fel cyfreithiwr. Rwy'n rhedeg practis cyfreithiol bach ym Mro Morgannwg ac rwy'n cynrychioli rhieni sydd â phlant ag anghenion addysgol arbennig ac anableddau, yn bennaf. Rwyf hefyd yn gwneud rhywfaint o waith i awdurdodau lleol ac ysgolion yng Nghymru a Lloegr. Ond, fel y dywedais, mae fy mhractis wedi'i leoli ym Mro Morgannwg.

AC1: Diolch i chi.

ET: Felly, yn ystod y cyfnod ymgynghori, darllenais lawer o'r dogfennau a gyhoeddwyd. Ac rwy'n credu y byddai fy sylw cyntaf yn ymwneud â'r niferoedd a'r paramedrau. Fel rwy'n deall, 76,811 yw Bro Morgannwg, hynny yw, bod hynny o fewn y paramedrau gofynnol. Felly, fy sylw cyntaf yw ei bod yn ymddangos bod y newid hwn yn ddiangen yn ôl y ffigurau a'm barn i yw y byddai'r newidiadau arfaethedig, eu bod er budd etholaethau cyfagos yn hytrach na Bro Morgannwg. Mae'r rhan fwyaf o'm pryderon yn ymwneud â'r teuluoedd rwy'n eu cynrychioli a'r ffordd y byddai'r newidiadau'n gwneud gwahaniaeth i'w bywydau. Mae gan y rhan fwyaf

o'm cleientiaid blant sydd ag anghenion addysgol arbennig ac anableddau, felly maent yn manteisio ar addysg, gofal cymdeithasol, grwpiau cymorth cymunedol, a thrwy grwpiau cymorth cymunedol rwy'n golygu grwpiau cymorth mwy ffurfiol fel Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth, ond hefyd grwpiau cymorth eraill fel campfeydd sydd â sesiynau i blant ag anghenion addysgol arbennig, grwpiau cymorth i rieni sy'n anffurfiol iawn, a all fod yn sesiynau coffi, mynd â phlant sydd ag anghenion addysgol arbennig am dripiau coffi mewn amgylchedd lle maent yn teimlo'n gyfforddus. Mae fy mhryder i, yn enwedig o ran cynnwys Dinas Powys yn ardal Caerdydd, yn ymwneud â'r hygyrchedd i deuluoedd sy'n edrych tua'r Barri ac sydd wedi edrych tua'r Barri erioed i gael y cymorth sydd ganddynt. Felly, ar hyn o bryd, mae teuluoedd sy'n gysylltiedig ag addysg a gofal cymdeithasol yn ystyried Y Barri fel eu man cyswllt canolog ar gyfer yr holl gymorth a gweinyddiaeth sydd eu hangen arnynt yn ddyddiol ar gyfer eu plentyn. Pe byddai Dinas Powys, er enghraifft, yn cael ei symud i ardal Caerdydd, bydd gan deuluoedd ddwy ardal weinyddol, felly bydd y gwasanaethau y maent wedi arfer â'u cael, fel rwyf yn ei deall hi, yn dod o'r Barri o hyd, ond os hoffent wneud cynrychiolaethau a gweld eu Haelod Seneddol, er enghraifft, bydd rhaid iddynt fynd i ardal Caerdydd i weld yr Aelod Seneddol i siarad am weinyddiaeth ym Mro Morgannwg, yn Y Barri. A dyna lle rwy'n gweld anghysylltedd. Ac rwy'n credu y bydd yn anodd iawn i bobl sydd, gadewch i ni fod yn onest, yn gorfod goresgyn llawer o heriau o ddydd i ddydd o ran trefniadaeth, materion teuluol, mynd â'r plant i'r ysgol, bod ganddynt ddigon o heriau heb orfod gofyn lle mae fy mhwynt ffocal ar gyfer gwneud cwynion neu gynrychiolaethau? A ydynt yn mynd i'r hen ardal fel y mae ar hyn o bryd? Neu a oes rhaid iddynt wneud cynrychiolaethau yng Nghaerdydd yn ymwneud â materion sy'n cael eu gweinyddu yn Y Barri? Felly dyna'r pwynt cyffredinol, mewn gwirionedd. Ond mae llawer o faterion sy'n codi yn fy maes gwaith, eto yn ymwneud ag ysgolion a phlant, er enghraifft mae Dinas Powys ac ardaloedd eraill o'r Fro yn eithaf gwledig, mewn gwirionedd. Ac mae ardaloedd gwledig yn wynebu heriau penodol efallai nad yw ardaloedd eraill yn eu hwynebu. Felly un enghraifft fyddai cludiant ysgol. Y math o faterion sy'n codi'n aml yw lle mae'r bws ysgol yn aros? A yw plentyn yn gallu cerdded ar hyd lôn wledig? Unrhyw bellter i arhosfan fysiau? A yw wedi'i oleuo? A oes palmentydd? Mae'r mathau hynny o gwestiynau gwledig yn codi drwy'r amser. Mae gan ardaloedd gwledig faterion gwledig na fydd Caerdydd yn eu hwynebu o reidrwydd, yn fy marn i, felly rwy'n credu bod Dinas Powys yn benodol yn ffitio'n well o lawer yn y Fro wledig nag y byddai yng Nghaerdydd. A dyna un enghraifft yn unig o'r materion a fyddai'n codi sy'n gwestiynau gwledig penodol, yn fy marn i, a fyddai'n ffitio'n well yn y Fro wledig i'w gweinyddu yn Y Barri.

[Saib 02:08:22 hyd 02:08:34]

ET: Hyd y gwn i, yn flaenorol, ni roddwyd unrhyw ystyriaeth i symud Dinas Powys i etholaeth De Caerdydd a Phenarth, sy'n codi'r cwestiwn eto, pam y mae'n cael ei gwthio i'r cyfeiriad hwnnw nawr? Eto, rwy'n credu bod hynny i weddu etholaethau cyfagos yn hytrach na Bro Morgannwg, sy'n anghywir yn fy marn i. Rwy'n teimlo'n gryf iawn bod ardaloedd fel Dinas Powys yn edrych tua'r ardaloedd lleol am gymorth cymunedol. Nid yw'n edrych tua Phenarth na Chaerdydd. Wrth fyw yn Ewenni lle rwy'n byw, mae Ewenni yn cael ei ystyried yn bentref gwledig yn y Fro, fel Dinas Powys. Ac mae'n gymuned wahanol iawn i Gaerdydd ac mae'r grwpiau cymorth cymunedol, cymdeithasu, amwynderau, mae popeth yn wledig iawn ac, yn sicr, nid yw'n rhan o Dde Caerdydd a Phenarth. Rwy'n credu bod fy amser bron

â bod ar ben, mae'n debyg, felly os oes gennych chi unrhyw gwestiynau, ond dyna'r prif bwyntiau roeddwn am eu gwneud.

AC1: A oes unrhyw gwestiynau o eglurhad? Oes, mae gan Mr Phillips gwestiwn i chi.

SP: Mae'n bwynt o eglurhad a dweud y gwir. Fe sonioch am y maes gwaith y mae'ch practis yn ymgymryd ag ef.

ET: Do.

SP: Wrth gwrs, ni waeth beth fydd canlyniad neu ganlyniad terfynol y broses hon, ni allaf weld y cysylltiad rhwng ffiniau'r etholaethau Seneddol a'r gwasanaethau rydych yn sôn amdanynt am ddau reswm. Yn gyntaf, maent yn cael eu darparu gan awdurdodau lleol, yn y bôn.

ET: Ac maent wedi'u datganoli. Ydynt.

SP: Ac maent wedi'u datganoli.

ET: Ydynt. Ydynt.

SP: Felly rwy'n tybio mai fy mhwynt i yw, a allech chi roi rhywfaint o syniad i mi o gyfran yr achosion a fyddai angen ymyrraeth gan gynrychiolydd etholedig, o ystyried eu bod wedi'u datganoli, byddwn yn dychmygu mai'r cyswllt cyntaf fyddai'r Aelod o'r Senedd, i ddechrau, yn hytrach na'r Aelod Seneddol? Ac yn ail, nid ydym yn cynnig, fel y dywedais beth bynnag fo'r canlyniad terfynol, nid yw hynny'n effeithio ar ffiniau awdurdodau lleol na'r gwasanaethau a ddarperir gan yr awdurdodau lleol hynny.

ET: Nac ydy.

[Siarad ar draws 02:11:22]

ET: Mae hynny'n bwynt dilys iawn, ond rwy'n credu bod eich cwestiwn yn awgrymu neu'n hytrach yn dibynnu ar ddealltwriaeth dda ymhlith teuluoedd.

SP: Iawn.

ET: O ran lle maent yn mynd ar gyfer agweddau penodol ar eu bywydau. Felly, nid yw pobl yn sylweddoli bob tro bod addysg yn fater i'w haelodau cynulliad lleol yn hytrach na'u Haelod Seneddol. Ac mae hynny'n wir ar gyfer gofal hefyd. Felly, yn aml iawn, rwy'n gweld y bydd rhywun, eu man galw cyntaf fydd yr Aelod Seneddol. Yna, efallai y bydd yr Aelod Seneddol yn dweud, mae hwn yn fater datganoledig, mae angen i chi siarad â'ch aelod cynulliad neu hyd yn oed eich cynghorydd lleol. Ond nid wyf yn credu, nid wyf yn credu, mewn llawer iawn o ardaloedd, bod yna ddealltwriaeth o hyd bod materion datganoledig yn faterion i'ch aelod cynulliad.

SP: Pwynt teg. Diolch i chi.

ET: Felly, wrth symud ymlaen o'r pwynt hwnnw, rwy'n credu ei fod yn peri dryswch pan mae'n rhaid i chi ymgodymu â'r ffiniau'n gyntaf oll, y llinell awdurdod o ran

pwy, pwy sydd ag awdurdod dros feysydd penodol. A byddai'n wir, oni fyddai, pe byddai, er enghraifft, pe byddai eich AS yn Ne Caerdydd a Phenarth a'ch bod yn byw yn Ninas Powys, er enghraifft, a bod gennych broblem yn ymwneud â chludiant ysgol neu ofal cymdeithasol neu'ch apêl yn ymwneud â derbyniadau ysgol, byddai'n rhaid i chi groesi'r ffin newydd, efallai i wneud cwyn i'ch Aelod Seneddol yng Nghaerdydd, a fyddai'n ei hanfon yn ôl i'ch aelod cynulliad ar draws y ffin i ardal arall, a fyddai'n ymdrin â'r awdurdod lleol yn y Fro. Mae'n anghysylltedd llwyr. Nid yw'n gydlynus iawn, nac ydy?

SP: Nac ydy, nac ydy, rwy'n cytuno'n llwyr. Mae hynny'n eglurhad defnyddiol. Yr hyn roeddwn yn ceisio ei ddweud, am wn i, oedd ein bod wedi clywed llawer am Ddinas Powys y bore yma ac yn, yn y cynrychiolaethau, ond mae'n fwy yn fater o, wel, cymerwch Benarth, er enghraifft.

ET: Ie.

SP: Nid yw'n rhan o etholaeth Bro Morgannwg ond mae'n rhan o ardal yr awdurdod lleol.

ET: Ydy. Ac mae'n-

SP: Felly rwy'n derbyn, rwy'n derbyn y pwynt, mae hynny'n eglurhad defnyddiol.

ET: Ac o safbwynt personol mewn cyd-destun gwahanol, lle rwy'n byw, mae gennyf i rywbeth tebyg o ran meddygfeydd a pha ysbytai i fynd iddynt ar gyfer gwasanaethau gwahanol. Ac rwy'n credu fy mod i'n eithaf cymwys o ran dod o hyd i'm ffordd o gwmpas y system. Ond mae yna adegau pan gaf fy ngwthio o un feddygfa i un arall neu o un meddyg i'r llall, un adran feddygol i'r llall. Rwy'n gwybod bod hynny'n bwynt gwahanol, ond rwy'n aml yn cael fy nghyfeirio o un lle i'r llall fel hyn ac rwy'n teimlo, rwy'n gallu rhoi trefn ar bethau'n gymwys, ond bydd llawer o bobl â llawer o heriau sy'n gorfod canfod eu ffordd drwy'r ddrysfa.

SP: Diolch i chi.

AC1: Diolch yn fawr iawn.

ET: Iawn, diolch.

[Saib 02:14:49 hyd 02:15:08]

AC1: Diolch. Felly, fe wnawn ni ohirio eto tan un o'r gloch, oni bai y bydd rhywun allan yn cyrraedd sy'n dymuno gwneud cynrychiolaethau yn y cyfamser.

[Egwyl]

AC1: Prynhawn da. Croeso i Abertawe. Fy enw i yw Andrew Clemes ac rwy'n Gomisiynydd Cynorthwyol i'r Comisiwn Ffiniau i Gymru a byddaf yn cadeirio'r gwrandawiad cyhoeddus y prynhawn yma. Mae'r panel yn cynnwys fy nghyd Gomisiynydd Cynorthwyol, Steven Phillips, ynghyd â Shereen Williams, sef yr ysgrifennydd i'r Comisiwn. Mae gennym ni rai siaradwyr, gan ddechrau gyda Mr Mike Carroll, Mike O'Carroll, mae'n ddrwg gennyf, y prynhawn yma. A gaf i nodi y

bydd gan unrhyw siaradwr 10 munud i annerch y panel, bydd y panel yn gwahodd siaradwyr i roi eu henw, eu hardal breswyl yn gyffredinol a'u hymlyniad wrth unrhyw grŵp, os oes un, neu b'un a ydynt yn siarad fel cyfrannwr unigol. Rydych chi'n helpu, byddwch yn cael cymorth â'ch amseriad gan fy nghydweithiwr yn y rhes flaen, a fydd yn codi darn o bapur â dau funud yn weddill i roi gwybod i chi fod gennych yr amser hwnnw ar ôl o'ch slot 10 munud. Felly a gaf i ofyn i Mr Mike O'Carroll ddod i'r podiwm, os gwelwch yn dda?

[Saib 02:16:30 hyd 02:16:42]

MO: Prynhawn da. Fy enw i yw Mike O'Carroll, rwy'n byw yn ardal Sandfields yn ward Y Castell yn Abertawe a fi oedd ymgeisydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn etholiadau seneddol San Steffan yn 2017 a 2019 ar gyfer etholaeth Gorllewin Abertawe. Hoffwn ddechrau drwy ddiolch i'r Comisiynwyr, y Comisiynwyr Cynorthwyol a'r staff cymorth am eu gwaith pwysig. Rwy'n gwerthfawrogi nad yw'n dasg hawdd iddynt o ystyried yr amrywiadau a ganiateir i'r cwota a'r gostyngiad mawr i gynrychiolaeth Cymru yn yr arolwg cyfredol. Mae tasg y Comisiwn yn arbennig o anodd yn Abertawe, sef ardal awdurdod lleol sy'n cynrychioli 2.5 cwota. Rwy'n credu mai cynigion y Comisiwn ar gyfer dwy etholaeth lawn i'r gorllewin o'r Tawe, gan gydnabod y ffin ddaearyddol sy'n cael ei chreu gan afon Tawe, yw'r trefniant mwyaf synhwyrol a'r gorau o'r set gymharol wael o opsiynau sydd ar gael. Yn unol â hynny, mae fy sylwadau y prynhawn yma yn ymwneud â'r ddwy sedd arfaethedig yn Abertawe i'r gorllewin o'r Tawe, sydd â'r enwau Canol a Gogledd Abertawe a Gorllewin Abertawe a Gŵyr yn y cynigion cychwynnol. Yn debyg i lawer o'r ymatebwyr ysgrifenedig, rwy'n teimlo nad yw'r cyfluniad arfaethedig rhwng y ddwy sedd hynny o'r safon orau ar hyn o bryd, felly rwy'n siarad o blaid y cynigion a gyflwynwyd yn ysgrifenedig gan Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru ac a gefnogwyd, hyd y gwn i, yn annibynnol gan sawl un arall a gyflwynodd ymatebion ysgrifenedig i'r cynigion cychwynnol. Hynny yw, symud wardiau Llwchwr Uchaf, Llwchwr Isaf, Gorseinon, Pontybrenin, Penyrheol a Chocyd o Orllewin Abertawe a Gŵyr i'r hyn a fyddai'n dod yn etholaeth Gogledd Abertawe, ac yna symud wardiau Uplands, Y Castell a Townhill i'r cyfeiriad arall. Byddai'r ddwy etholaeth yn aros o fewn yr amrywiad a ganiateir i'r cwota ac ni fyddai'n effeithio ar unrhyw etholaethau eraill. Mae fy mhryderon o ran cynigion cychwynnol y Comisiwn a'm cefnogaeth i'r gwrthgynnig hwn wedi'u seilio ar ystyriaethau statudol, sef ffiniau llywodraeth leol a chysylltiadau lleol. I ddechrau, fel mae nifer fawr o'r cyflwyniadau ysgrifenedig wedi sôn, nid yw'r ffin rhwng wardiau Sgeti ac Uplands, a fyddai mewn etholaethau ar wahân yn y cynigion cychwynnol, yn un naturiol ac mae'n chwalu cysylltiadau cymunedol lleol. Mae ysgol uwchradd fawr, Ysgol yr Esgob Gore, yn agos at y ffin sydd â'i dalgylch yn croesi'r ddwy ardal, ac mae campws Prifysgol Abertawe yn Sgeti ond mae'r rhan fwyaf o'r myfyrwyr yn byw yn Uplands. Mae gan lawer o'r tai yn Uplands godau post Sgeti ac ati. Mae hynny'n wir ym mhen arall Sgeti hefyd, lle mae'n mynd i wardiau Gogledd Cilâ a De Cilâ, a dyna pam rwy'n anghytuno â'r cynigion hynny sydd wedi ceisio rhoi ffin yr etholaeth rhwng Sgeti a Chilâ. Eto, mae ysgol uwchradd fawr, Ysgol yr Olchfa, ar ffin y ward rhwng Sgeti a De Cilâ ac mae llety prifysgol sylweddol o hyd yn ward Gogledd Cilâ, yn ogystal â chymunedau ffydd wedi'u gwasgaru ar draws yr ardal. Yn yr un modd, yn ei arolwg blaenorol yn 2018, na chafodd ei roi ar waith, derbyniodd y Comisiwn fod gan wardiau Cocyd a Chwmbwrla gysylltiad naturiol ag ystâd Gendros ac y dylent fod yn yr un etholaeth, ond mae'r cynigion cychwynnol yn yr arolwg hwn yn rhoi ffin yr etholaeth ar ganol Gendros. Mewn gwirionedd,

mae'r gwahaniadau naturiol ar ochr orllewinol Abertawe, ar hyd dwy echelin, dwy echelin reiddiol, un ar hyd yr A4118, dan yr enwau amrywiol Water Road, Sketty Road a Gower Road sy'n mynd o ganol y ddinas yn ward Y Castell, drwy Uplands, Sgeti, Cilâ, Fairwood, Penlan a Gŵyr, ac yn ail, yr A483, sy'n mynd o Gwmbwrla drwy Gocyd ac yna'n ymrannu gydag un gangen yn mynd i Bontybrenin yn Llwchwr sydd, yn ei thro, yn gwasanaethu Gorseinon, Penyrheol a Phontarddulais. Mae'r gwrthgynigion rwy'n sôn amdanynt neu'n siarad o'u plaid yn seilio etholaethau ar y ddwy gangen hyn, yn hytrach na'r etholaethau mwy mympwyol a thraws gymunedol sydd wedi'u cynnwys yn y cynigion cychwynnol. Ac i gloi, i bwysleisio'r pwynt hwnnw, mae'n werth nodi yn yr etholaeth a gynigiwyd yn wreiddiol, etholaeth Canol a Gogledd Abertawe, byddai gyrru o un pen i'r llall h.y. o ward Y Castell yn y de i Bontarddulais yn y gogledd-orllewin, byddai'r llwybr mwyaf naturiol yn cynnwys gyrru trwy nifer o wardiau a fyddai yn etholaeth Gorllewin Abertawe a Gŵyr am nifer o filltiroedd ac, mae'n ymddangos i mi, os na allwch yrru'n hawdd o un pen o'r etholaeth i'r llall heb groesi'r ffiniau, yna mae'n debyg nad yw wedi'i llunio ar hyd llinellau naturiol sy'n cefnogi cysylltiadau cymunedol lleol. Felly, rwy'n erfyn ar y Comisiwn i ystyried y gwrthgynnig sydd i'w weld yng nghyflwyniadau ysgrifenedig 9957, 9959, 9967 a 9992, y mae pob un ohonynt yn pledio'r un achos, er mewn ffyrdd gwahanol. Diolch.

AC1: Diolch, Mr O'Carroll, a oes unrhyw bwyntiau o eglurhad gan unrhyw un ar y llawr? Neu'r panel? Nac oes. Mr O'Carroll, diolch yn fawr iawn i chi am ddod heddiw. Hoffem alw ar Mr Riaz Hassan, os gwelwch yn dda.

[Saib 02:22:24 hyd 02:22:36]

AC1: Felly eto, Mr Hassan, pe gallech chi roi eich enw, eich ardal breswyl, nid eich cyfeiriad, a oes gennych unrhyw ymlyniad a ddatganwyd gennych neu b'un a ydych yn unigolyn, mae hynny'n iawn hefyd. Mae gennych chi 10 munud a bydd y fenyw o'ch blaen yn rhoi gwybod i chi pan fydd gennych, pan fyddwch wedi mynd y tu hwnt i wyth munud.

RH: Diolch yn fawr iawn i chi, gadeiryddion. Diolch yn fawr iawn i chi, aelodau'r panel. Diolch, diolch yn fawr iawn, bawb, am roi cyfle i mi gyflwyno fy nghynnig. Fy enw i yw Riaz Hassan. Yn broffesiynol, rwy'n gydlynydd cydlyniant cymunedol, ond mae'n bwysig nodi nad wyf yma i gynrychioli Llywodraeth Cymru na Chyngor Abertawe. Rwyf yma fel aelod o'r cymunedau Mwslimaidd ac yna fel un o breswylwyr ward Sgeti yn Abertawe. Mae un o'm cydweithwyr, Dr Mahaboob Basha, mae'n gweithio i Brifysgol Abertawe, mae'n aelod blaenllaw o'r gymuned Fwslimaidd. Mae'n llywodraethwr Parkland yn Ysgol Uwchradd yr Olchfa. Roedd i fod i ddod yma i roi'r cyflwyniad hwn ar y cyd, ond mae allan o'r wlad, felly rwy'n ei gyflwyno ar ei ran ef hefyd, mewn ffordd. Roedd yna gyflwyniad, a fyddwn yn gallu ei ddangos neu?

AC1: Mae'n dweud bod gennym ni hwnnw'n ysgrifenedig.

SW: Ydy, mae gennym ni'n ysgrifenedig.

RH: Ydy.

[Siarad ar draws 02:24:02]

SW: Gawn ni oedi'r ffrwd fyw am eiliad, os gwelwch yn dda? A yw hynny'n iawn?

AC1: Mae'r ffrwd fyw yn ei hôl nawr, rwy'n credu.

SW: Ydy.

RH: A ddylwn i ddechrau? Iawn, diolch. Felly, mae fy ngwrthgynnig ar gyfer etholaeth newydd Gorllewin Abertawe a Gŵyr, a fydd yn cynnwys 76,071 o bleidleiswyr, ac etholaeth newydd Gogledd Abertawe, a fydd yn cynnwys 75,342 o bleidleiswyr. Y rheswm rwy'n dweud hynny o ran sut bydd hynny'n edrych yn fwy cydlynus o ran nifer y pleidleiswyr, os ychwanegwn ni Uplands at 10,834 o wardiau, Y Castell, 10,312 o bleidleiswyr a Townhill, 5,592 o bleidleiswyr, bydd hynny'n rhoi cyfanswm o 26,738 o bleidleiswyr i ni yn etholaeth arfaethedig Gorllewin Abertawe a Gŵyr y Comisiwn Ffiniau i Gymru. A'r hyn rwy'n ei ddweud yma yw, pe bydden ni'n tynnu Penyrheol, 4,621, Llwchwr Isaf, 1,795, Llwchwr Uchaf, 2,146, Gorseinon, 3,340, Pontybrenin, 3,506 a Chocyd, 10,473, byddai hynny'n rhoi cyfanswm o 25,881 o bleidleiswyr i ni o etholaeth arfaethedig Gorllewin Abertawe a Gŵyr y Comisiwn Ffiniau i Gymru, a fydd yn gyfartal â'r math o niferoedd roeddem yn edrych arnynt yn y ddwy, y ddwy etholaeth. O ran y ffiniau, sut olwg fydd ar hynny, ac rwy'n credu os edrychwch chi ar ddosbarthiad y ffin, hyd yn oed yn ddaearyddol, mae'n edrych yn fwy cydlynus o ran, o ran y niferoedd. A dyma sut, fe welwch chi Townhill, Uplands a Sgeti, pe bydden ni'n eu cynnwys yn ardal Gorllewin Abertawe, yna fe welwch chi Ogledd Abertawe, y cynnig rwy'n ei awgrymu, pe byddwch chi'n cymryd Cocyd, Pontybrenin a Phenyrheol, byddai hynny'n dda iawn o ran rhoi ffiniau cyfartal, gweledol i ni. Felly eto, hoffwn fynd i ychydig bach mwy o fanylder o ran cydlyniant daearyddol. Felly beth mae hynny'n ei olygu? Bydd yn parhau i ddefnyddio afon Tawe ar yr arfordir fel ffin naturiol ar gyfer gwahanu Gorllewin Abertawe a Gŵyr, yn mynd ar hyd yr arfordir o orllewin afon Tawe, trwy'r Castell, Townhill, Uplands, trwy Sgeti, Y Mwmbwls, Mayals i Benrhyn Gŵyr. Eto, bydd yn, byddwn yn parchu'r ffiniau presennol. Felly mae hynny'n golygu cadw Dynfant, De Cilâ a Gogledd Cilâ, yn ogystal â Mayals ac yn cynnwys Y Mwmbwls, a Sgeti yn ymuno ag Uplands, Townhill a'r Castell, i afon Tawe, ac yn cwmpasu Penrhyn Gŵyr, wrth greu sedd fwy cydlynus Gogledd Abertawe. Eto, bydd yn atgyfnerthu'r cysylltiadau lleol sy'n golygu'r cymunedau, gwaith, hamdden a gwasanaethau sydd eisoes yn yr ardal, mewn ardal allweddol sy'n cynnwys ein dwy brifysgol, llety myfyrwyr [anghlywadwy 02:27:56] ac ysbytai, y cyngor a gwasanaethau, datblygiadau adfywio allweddol fel canol y ddinas, sy'n manteisio i'r eithaf ar hwylustod, gyda'i gilydd mewn un etholaeth. Ac yna gweld sut y gallwn atgyfnerthu'r cysylltiadau lleol, fel petai, mewn ffordd sy'n, sy'n edrych yn fwy cydlynus os yw wedi dod yn rhan o'r, o'r un etholaeth yma, rwyf i, neu'n hytrach rydym ni, yn cymryd rhai rhannau o'r etholaeth sy'n cael eu cynnig yng nghynnig cyfredol y Comisiwn Ffiniau i Gymru. Eto, o ran ystyriaethau eraill, oherwydd rwy'n cyflwyno hyn ar ôl trafodaeth ag aelodau o'r cymunedau Mwslimaidd yn Abertawe. Felly, os gwelwch chi, os cadwch chi gydlyniant y gymuned Fwslimaidd, mae gan wardiau Sgeti, Uplands a'r Castell boblogaeth uchel o gymunedau Mwslimaidd Abertawe, ond mae'r mosg canolog, y mosg Shia yn y Ganolfan Gymunedol Islamaidd newydd arfaethedig, a fydd yn Sgeti. Yn ddaearyddol, daw hynny â mwy o gydlyniant i'r etholaeth rwy'n ei chynnig, sef etholaeth Gorllewin Abertawe a Gŵyr. Eto, mae'r gymuned Fwslimaidd yn cael ei chynrychioli ar hyn o bryd gan un Aelod Seneddol ac un Aelod o'r Senedd. Ac eto, mae hynny'n ystyriaeth allweddol wrth i ni ystyried cydlyniant cymunedol. O ran cydlyniant cymunedau lleiafrifol

eraill, eto, fe welwch chi'r wardiau allweddol hynny. Ar hyn o bryd, dyma'r wardiau sydd â phoblogaeth uchel o grwpiau lleiafrifol eraill, yn enwedig y gymuned Tsieineaidd, y rhai o dras Affricanaidd, y cymunedau Arabaidd, byddai'n niweidio cydlyniant cymunedol pe byddant yn cael eu rhannu'n ddwy etholaeth ar wahân. Eto, o ran democratiaeth, cydlyniant democrataidd, sy'n alinio'n agosach â chynrychiolaeth etholaethau'r Senedd, ac eto hoffwn, hoffwn wneud ychydig o bwyntiau sy'n bwysig iawn. Mae angen i ni sicrhau bod Cyngor Cymuned y Mwmbwls, mae fy ffrind a'm cydweithiwr, Mark, yn y fan honno'n cynrychioli'r Mwmbwls, ond mae angen i'r Cyngor Cymuned sy'n cynnwys Mayals a'r Mwmbwls aros yn yr, yn yr etholaeth. Eto, byddai'n well gan gymunedau lleiafrifol fod mewn un etholaeth. Felly beth mae hynny'n ei olygu'n ymarferol? Cyfuno Uplands â Sgeti, Mayals, ac eto, mae'r rhan fwyaf o bobl yn edrych tua'r gorllewin yn fwy nag i'r dwyrain o afon Tawe, ac mae hynny'n rhywbeth y mae angen i ni ei gadw mewn cof, yn fy marn i. Y trydydd pwynt yr hoffwn ei wneud, chi'n gwybod, yw y bydd ein cynnig ar gyfer Gogledd Abertawe yn sicrhau bod y cymunedau gwledig a lled-wledig sydd â chysylltiadau yn parhau i fod â chysylltiadau, fel Pontarddulais a Gorseinon. Mae'r ffiniau, Cymru, cynnig y Comisiwn Ffiniau yn rhannu hynny, fel petai, ond yr hyn rwy'n ei gynnig yw, pe byddai gwrthgynnig Gorllewin Abertawe a Gŵyr a Gogledd Abertawe yn cael ei dderbyn, yna byddai cydlyniant rhwng yr ardaloedd gwledig a lled-wledig. Ac eto, y ddau bwynt olaf yr hoffwn eu gwneud yw bod dwyrain a gogledd Abertawe, y bobl sy'n byw yn Abertawe, eu bod eisoes yn ymwybodol o'r ymraniad. Eto, o ran materion yn ymwneud â chydlyniant cymunedol, os edrychwn ni ar achosion troseddau casineb o ran crynodiad y dde eithaf yn yr ardaloedd hynny, a dyna pam fy mod yn dweud bod y rhan fwyaf o'r cymunedau'n edrych yn fwy i'r gorllewin na'r dwyrain, ac mae hynny'n rhywbeth y mae angen ei ystyried. Ac eto, un agwedd allweddol, a dyma fy mhwynt olaf, fy mhwynt olaf yw, yw'r ymddiriedaeth, ymddiriedaeth, yn enwedig o fewn, nid yn unig o fewn y cymunedau Mwslimaidd, ond yn enwedig ym mwyafrif y cymunedau lleiafrifol, dyna yw'r pwynt allweddol. A'r enghraifft y byddwn yn ei rhoi yma yw'r hyn a ddigwyddodd yn ddiweddar, yn Affganistan yn benodol, daeth y gymuned Affganaidd sefydledig yma yn Abertawe ataf, ac roeddent am gyflwyno eu safbwyntiau a'u pryderon i'r Aelod Seneddol ac roedd, roedd yn dda, mewn ffordd, bod Geraint, roedd yn cynrychioli Gorllewin Abertawe, felly mi drefnais gyfarfod gydag ef, ac roedd yn haws o lawer iddo fod yn ymwybodol o'r, chi'n gwybod, yr achosion. Roedd yn adnabod y rhan fwyaf o'r gymuned, roedd y gymuned yn ei adnabod ef ac fe chwaraeodd hynny rôl allweddol iawn. Felly eto, os oes un Aelod Seneddol, mae'n haws o lawer i'r gymuned fynd i rannu eu, eu pryderon ag un AS. Ac eto, yn ddaearyddol, fel y dywedais, mae'n gysylltiedig â'r Aelod o'r Senedd hefyd. Felly, dyna rai ystyriaethau allweddol y byddwn yn gofyn i'r panel eu hystyried, chi'n gwybod, pan fyddant yn gwneud eu penderfyniad terfynol. Diolch yn fawr iawn i chi unwaith eto.

AC1: Diolch yn fawr iawn i chi. A oes unrhyw gwestiynau o eglurhad o'r llawr? Mr Phillips?

SP: Oes, mae gennyf i ddau, dau fater o eglurhad. I ddechrau, rwy'n tybio fy mod yn gwybod yr ateb i hyn, ond nid yw'r cynigion hyn yn effeithio o gwbl ar etholaeth arfaethedig Dwyrain Abertawe a Chastell-nedd? Nid oes unrhyw, nid yw'r map y gwnaethoch ei ddangos yn croesi'r ffin benodol honno? Iawn. Ac i ymhelaethu ychydig bach ar fy ail bwynt, rwy'n deall yr hyn rydych chi'n ei ddweud bod cymuned benodol neu fyfyrwyr neu, neu grwpiau buddiant yn ei chael yn haws

ymdrin ag un AS, ond a yw hynny, yn eich tyb chi, yn sylweddol, wel mae'n amlwg yn ffactor sylweddol, ond nid wyf, nid wyf yn credu fy mod yn deall yn iawn pa mor hanfodol ydyw, os gwelwch chi beth sydd gennyf i? Efallai-

RH: Rwy'n credu, os ymhelaethaf ychydig bach mwy ar hynny. Yr enghraifft ddiweddar yw, beth sy'n digwydd, rwy'n credu mai'r rheolau a'r rheoliadau sydd gennym o fewn ein system gyfredol yw e, mewn ffordd. Felly fel arfer, bydd yr Aelod Seneddol neu'r Aelod o'r Senedd yn ymdrin â materion os ydych chi'n un o'u hetholwyr. Felly dywedwch, er enghraifft, eich bod yn byw mewn un etholaeth ond yn cael problemau mewn etholaeth arall, pan ewch chi at yr Aelod Seneddol neu'r Aelod o'r Senedd, yr hyn y bydden nhw'n ei ddweud, ac yn benodol pan fyddwch yn anfon neges e-bost atynt, yw 'Ydych chi'n etholwr yn fy ardal i? Os nad ydych, mae angen i chi fynd at ôl at Aelod Seneddol eich etholaeth chi'. A'r rheswm rwy'n dweud, rwy'n dweud hynny'n benodol yn y, yn y gymuned Fwslimaidd a'r gymuned leiafrifol yn bennaf yw, os oes un Aelod Seneddol, maen nhw'n mynd ac yn siarad â'r cymunedau Mwslimaidd tra mae'r materion yno ac, eto, mae angen i ni feddwl am y materion byd-eang a'r effaith ar ein cymuned leol, felly roedd Affganistan yn enghraifft dda a roddais o rai o'r problemau a ddigwyddodd yn Llundain, lle y gwelsom yr effaith o ran cydlyniant cymunedol yma'n lleol. A phan roedd un AS yn codi'r materion ac yn trafod yn, yn y mosg, eto, y mater yw, os oes materion sy'n dod i sylw'r Aelod Seneddol neu'r Aelod o'r Senedd, os nad yw'r unigolyn hwnnw o'i etholaeth, eto, cânt eu cyfeirio'n ôl i siarad â'r unigolyn arall, chi'n gwybod? A llawer o'r amser, mae'r bobl leol fel petaent, chi'n gwybod, maent yn teimlo nad ydynt yn cael eu clywed. Felly eto, mae'r mater o ymddiriedaeth yn hollbwysig ac, yn benodol, wrth sôn am aelodau'r cymunedau lleiafrifol, mae rhai Aelodau Seneddol, nid wyf yn sôn am yr aelod presennol, mae'n cymryd amser iddyn nhw feithrin yr ymddiriedaeth a'r hyder hwnnw. A phan fyddant yn mynd i'r ardal honno, mae pobl yn dechrau ymddiried ynddynt yn fwy nag, nag unrhyw un arall. Ac eto, dyna'r, dyna'r realiti, wyddoch chi, dyna fel y mae hi, sy'n ystyriaeth bwysig iawn. Eto, roedd Shereen yn arfer bod yn gydlynydd cydlyniant cymunedol, wyddoch chi, rwy'n siŵr, wyddoch chi, bydd hi'n gwybod, wyddoch chi, yn well bod meithrin ymddiriedaeth a hyder yn cymryd amser yn y, yn y cymunedau. Ac rwy'n credu, chi'n gwybod, bod angen i hynny gael ei ystyried.

SP: Iawn, diolch.

AC1: Diolch yn fawr iawn.

RH: Diolch. Iawn.

[Saib 02:37:13 hyd 02:37:24]

AC1: Ac rwyf am alw'r Cynghorydd Liz Aldworth ymlaen.

[Saib 02:37:26 hyd 02:37:53]

AC1: Felly pe gallech chi roi eich enw a'r ardal rydych yn byw ynddi, hefyd unrhyw ymlyniad sydd gennych neu a ydych yn gyfrannwr unigol. Ac eto, mae gennych chi 10 munud ac fe gewch chi, fe gewch chi rybudd ar gyrraedd wyth munud bod, bod eich amser ar fin dod i ben. Iawn? Diolch yn fawr iawn i chi.

EMA: Iawn, Elizabeth Myra Aldworth ydw i, rwy'n siarad yn bersonol y bore yma, ond rwy'n aelod etholedig i Gyngor Sir Caerffili ac yn aelod etholedig o Gyngor Cymuned Bedwas, Trethomas a Machen hefyd. Hoffwn gyflwyno i'r Comisiwn Ffiniau fy marn bersonol ynghylch y posibilrwydd o newid etholaeth Caerffili yn y dyfodol. Diolch. Felly, af yn ôl i 1991 pan gefais fy ethol am y tro cyntaf i redeg Cyngor Dosbarth y Cwm ac, ar yr un diwrnod, Cyngor Cymuned Bedwas, Trethomas a Machen hefyd. Roedd dod yn aelod o ddau awdurdod lleol ar yr un diwrnod yn llethol braidd ac rwy'n dal i wasanaethu fel cynghorydd yr holl flynyddoedd yn ddiweddarach. Bûm yn faer bwrdeistref Caerffili, a oedd yn gyfnod balch iawn i mi a'n teulu, yn wir, roeddwn yn gallu gweld gwaith yr ardal dan sylw a mynd y tu allan i'r ardal i gynrychioli'r fwrdeistref, a oedd yn bleser o'r mwyaf. Bu Caerffili wedi'i gefeillio a'r Almaen ers blynyddoedd lawer, efallai 70 o flynyddoedd erbyn hyn, a bu'n gennyf ymweld â'n gefeilldref yno, sef Ludwigsburg. Mae Ludwigsburg tuag 20 munud o Stuttgart ac mae Stuttgart wedi'i gefeillio â Chaerdydd, felly mae hyn i gyd yn cyfrannu at y cariad sydd gennyf tuag at y lle rwy'n hanu ohono, sef Caerffili. A dyna pam rwy'n siarad heddiw. Cafodd fy ngŵr a minnau ein geni yn Ysbyty'r Glowyr Caerffili. Ysbyty y talwyd amdano gan Ffederasiwn Glowyr De Cymru, glowyr lleol a dalodd ardoll i greu ysbyty bach i drin glowyr anafedig a sâl, ac yna daeth yn ysbyty cymuned lle cafodd fy merch ei geni, ynghyd â'm hŵyr, sy'n 17 oed erbyn hyn. Mae arnom ddyled i'r cyfraniadau hynny o Gwm Rhymni. Cefais fy magu yn Senghennydd, roedd fy rhieni, y ddau ohonynt yn dod o'r Cwm, o Gwm Aber. Roeddem yn byw mewn tŷ cyngor ac roedden ni'n hapus iawn, yng Nghyngor Dosbarth Trefol Caerffili yn y dyddiau hynny. Aeth fy addysg bellach â mi i Gaerdydd, yn teithio o Senghennydd ar fws, yna ar drên, ac yna bws i'r ddinas. Roedd yn wahanol iawn i bentref Senghennydd, roeddwn wrth fy modd yn siopa ac roedd yna fywyd cymdeithasol gwych hefyd. Ond ni fentrais i Gasnewydd am unrhyw reswm tan roeddwn yn fy arddegau. A dweud y gwir, cafodd fy ewythr swydd yng Ngwaith Dur newydd Llanwern. Symudodd fy modryb, fy ewythr a'm cefndryd o [anghlywadwy 02:41:32] i Gwmbrân yn y 1960au. Aethom i ymweld â nhw ar fws i Gaerffili ac yna i Gasnewydd ac yna bws arall i [anghlywadwy 02:41:43], ond ni ymwelsom â Chasnewydd erioed. Wedi i mi briodi, ymgartrefais yn Nhrethomas, ac roedd hynny rhyw 47 o flynyddoedd yn ôl. Glofa [anghlywadwy 02:41:02] oedd curiad calon y pentref ac, yn Nhrethomas, roedd y Gwaith Distyllu [anghlywadwy 02:42:02] a Glo Prydeinig, sef golosgfa. Wrth lwc, rhwng y ddau bentref hyn, roedd digonedd o siopau lle'r oeddech yn gallu prynu esgidiau, dodrefn, ffrwythau a llysiau, cigydd a siop fara. Roedd ein hymweliadau â'r dref fawr agosaf i Gaerffili, a oedd 10 munud i ffwrdd. Eto, ar fws. Roeddem yn byw ac yn bod yng Nghaerffili; teithiau i'r marchnadoedd dan do a sinema'r Castell ac, yn amlwg, Castell Caerffili, aethon ni yno hefyd. Heddiw, y ffocws i bobl ifanc sy'n mwynhau ffasiwn yw mynd i Gaerdydd. Mae arna' i ofn nad yw Casnewydd yn cymharu â'r casgliad helaeth o siopau yn ein prifddinas. Mae fy wyres a'i ffrindiau yn [anghlywadwy 02:43:01] yn mynd i Gaerdydd yn aml iawn. Y dillad, y lleoedd bwyta, maent wrth eu bodd. Mae'r grŵp oedran, maen nhw'n 15, 16 oed, maen nhw eisoes wedi penderfynu mai Caerdydd yw'r ddinas iddyn nhw. Mae'r bandiau mawr, y cantorion yn cynnal sioeau yng Nghaerdydd, mae fy meibion-yng-nghyfraith yn mynd i Stadiwm Principality i wylio gêm Cymru, rygbi. Mae fy ngŵr a'm hwyrion wedi gwylio gemau Clwb Pêl-droed Dinas Caerdydd yn fyw, ac nid wyf yn awgrymu nad yw Clwb Pêl-droed Casnewydd yn dîm cystal ac rwy'n gobeithio y byddant yn fuddugol ddydd Sadwrn pan fyddant yn chwarae Bristol Rovers. Mae brandio Caerffili, logo'r castell, yn fonws i lawer o fusnesau a gwasanaethau. Bydd newid etholaeth yn achosi dirywiad economaidd i lawer ohonynt, mae delwedd

gorfforaethol yn bwysig y dyddiau yma ac mae Caerffili yn rhan o gynllun llunio lleoedd ar gyfer ein cyngor bwrdeistref. Gallai newid ffin yr etholaeth arwain at argyfwng hunaniaeth i rai cwmnïau sydd â Chaerffili yn rhan o'u henw. Os gwelwch yn dda, a wnewch chi dderbyn gwrthgynnig ein haelod, ein Haelod Seneddol, Wayne David, sydd â chefnogaeth gref ymhlith pleidleiswyr yng Nghaerffili, fel sydd i'w weld yn ei gyflwyniad. Byddai'n braf, byddai'n drueni hanesyddol cysylltu Caerffili â Gorllewin Casnewydd, ac rwy'n gofyn i chi feddwl ac ystyried yn ofalus cyn gwneud penderfyniad o'r fath, Gomisiynwyr. Diolch yn fawr iawn i chi.

AC1: Rwyf am wirio a oes unrhyw bwyntiau o eglurhad o'r llawr? Neu gan y panel? Nac oes. Diolch yn fawr iawn i chi, Gynghorydd. A'n siaradwr nesaf yw Wayne David AS.

[Saib 02:45:25 hyd 02:45:36]

AC1: AC1: Mae'n iawn, Mr David, os rhowch eich enw ar y cofnod. Eich ardal breswyl, eich ymlyniad, a nodwch os ydych yn siarad ar eich rhan eich hun neu'n rhan o grŵp, ac mae gennych 10 munud, gyda rhybudd ar gyrraedd wyth munud.

WD: Diolch yn fawr iawn i chi.

AC1: Diolch.

WD: Fy enw yw Wayne David, fi yw'r Aelod Seneddol dros Gaerffili. Rwy'n siarad fel yr Aelod Seneddol, â phrofiad o gynrychioli etholaeth Caerffili ers 21 mlynedd. Rwy'n gofyn heddiw i bobl feddwl eto am y cynigion cychwynnol gan y Comisiwn Ffiniau fel y maent yn ymwneud â Chaerffili a Gorllewin Casnewydd, ac i roi ystyriaeth ofalus i'm gwrthgynnig, y mae'r Cynghorydd Aldworth newydd gyfeirio ato. Un peth yr hoffwn ei wneud yn glir ar y dechrau, nid wyf yn siarad o safbwynt unrhyw fuddiant breintiedig. Rwyf wedi penderfynu ymddeol pan ddaw'r etholiad cyffredinol nesaf, oherwydd byddaf yn 65 oed, neu'n 66 oed efallai, yn yr etholiad hwnnw. Felly nid oes gennyf unrhyw fuddiant breintiedig o gwbl yn yr hyn y bydd y Comisiwn Ffiniau yn penderfynu yw'r ffiniau priodol. Rwy'n siarad fel rhywun sy'n adnabod fy etholaeth fel cefn fy llaw. Rwyf wedi'i chynrychioli ers 21 mlynedd. Rwyf wedi byw ynddi trwy gydol y cyfnod hwnnw. Rwy'n adnabod y bobl fel cyfeillion agos i mi. Yn wir, roeddwn yn byw yng Nghaerffili i ddechrau, yng Nghaerffili y cwrddais â'r fenyw sy'n wraig i mi, ac rydym bellach yn byw ym Medwas, felly rwy'n meddwl fy mod mewn sefyllfa dda i ddeall yr hyn y mae pobl y gymuned rwy'n rhan ohoni yn ei deimlo yn eu bywydau. Byddwn yn pwysleisio hefyd nad fy marn fel aelod etholedig yn unig yw hyn, gallaf ddweud yn hyderus mai dyna yw barn pob un cynghorydd bwrdeistref sy'n cynrychioli hanner deheuol yr etholaeth. Hynny yw, Cwm Aber, tref Caerffili, a Bedwas, Trethomas a Machen. Beth bynnag fo'u plaid, mae pawb o'r un farn, ond mae'r gwrthgynnig rwyf wedi'i gyflwyno, er ymhell o fod yn berffaith, yn farn gyffredin serch hynny, yn fwy derbyniol nag awgrym y Comisiwn Ffiniau. Er enghraifft, i gefnogi'r honiad hwn, byddwn yn dyfynnu barn Jamie Pritchard, a fu'n Gynghorydd Llafur yn Ward Morgan Jones yng Nghaerffili, ac yn ddirprwy arweinydd y Cyngor Bwrdeistref, a ysgrifennodd ar sail bersonol ei fod yn cefnogi'r hyn a gyflwynais, a bydd ei gyflwyniad wedi'i gynnwys mewn bwndel o ddogfennau y byddaf yn ei gyflwyno i chi ar ôl i mi siarad. A gaf i ddweud hefyd, mae ef yn siarad o safbwynt y Blaid Lafur; ond o safbwynt Plaid Cymru, clywsoch yng Nghaerdydd gan Lindsay Whittle, a fu'n Gynghorydd Plaid Cymru yng Nghaerffili ers cyfnod hir, a dyna farn Lindsay Whittle

hefyd. Yn ogystal â'r Aelod Seneddol, dyma safbwynt yr Aelod Cynulliad, Hefin David, a'r cynghorwyr bwrdeistref, fel y soniais, ond hefyd, yn arwyddocaol, dyma farn y cynghorau cymuned sy'n cynrychioli'r ardal. Mae gennyf lythyrau oddi wrth Gyngor Tref Caerffili, sef y cyngor cymuned mwyaf yn yr ardal, a hefyd oddi wrth gyngor cymuned Penyrheol [anghlywadwy 02:49:11]. Rwy'n ei ynganu fel 'Penreol' wrth gwrs, ond dylai'r enw gael ei ynganu yn Gymraeg, Penyrheol, ond mae pawb yn dweud 'Penreol'. Cynhaliodd y cyngor cymuned arolwg o'r bobl sy'n byw yn yr ardal, gan ofyn eu barn, a daethant i'r casgliad yn unfrydol fod ganddynt bryderon, pryderon gwirioneddol, os nad gwrthwynebiad llwyr, i'r hyn a gynigiwyd yn wreiddiol gan y Comisiwn Ffiniau. Byddwch yn clywed mewn eiliad gan gadeirydd Cyngor Cymuned Bedwas, Trethomas a Machen am yr hyn y mae ei gyngor cymuned yn ei feddwl a'r hyn y mae ef yn ei gredu hefyd. Rwy'n ymwybodol bod nifer fach o unigolion yn y gwrandawiad diwethaf yng Nghaerdydd, a siaradodd o blaid y cynnig, a'u bod â chysylltiadau â'r Blaid Geidwadol leol. Ond byddwn yn dweud yn wrthrychol ac yn barchus mai llais lleiafrifol bach iawn, iawn yng Nghaerffili yw'r Blaid Geidwadol. Nid oes ganddynt unrhyw seddau ar lefel y fwrdeistref, nid oes ganddynt unrhyw seddau ar lefel cynghorau cymuned, yn unrhyw un o ardaloedd cynghorau cymuned yr ardal, ac yn amlwg, ni chawsant unrhyw lwyddiant wrth ymladd am sedd naill ai yn Senedd Cymru neu yn Senedd San Steffan. Ni allwn ond dyfalu beth yw eu cymhelliant dros gefnogi'r cynnig, nid yw'n adlewyrchiad o farn glir y gymuned. Ond byddwn yn awgrymu hefyd nad dim ond gwleidyddion lleol ar ba bynnag lefel sy'n pryderu am y sefyllfa, dyma farn nifer eang o sefydliadau yn ardal Caerffili. Ac rwy'n dyfynnu, er enghraifft, Canolfan Glowyr Caerffili mewn perthynas â'r gymuned. Cafwyd cyflwyniad gan yr ysgrifennydd yn y gwrandawiad yng Nghaerdydd. Clwb Rygbi Senghennydd yng Nghwm Aber, pwyllgor Neuadd y Gweithwyr, Bedwas. Mae hyd yn oed cynulleidfa Eglwys Gatholig Rufeinig y Santes Helen yng Nghaerffili wedi llofnodi deiseb, a byddaf yn ei chyflwyno i chi yn nes ymlaen, yn erbyn y cynnig hwn. Yn ogystal, mae pob aelod o Gôr Meibion Cwm Aber wedi llofnodi deiseb, a gyflwynir i chi yn nes ymlaen, ac mae gennym Gôr Meibion Caerffili. Dyna ychydig rai o'r sefydliadau, ac mae hyn yn dangos, byddwn yn awgrymu, cryfder y teimladau yn y gymuned. Yn wir, os caf, hoffwn ddyfynnu o lythyr a ysgrifennwyd ataf gan gadeirydd Côr Meibion Caerffili. Dywed John Morgan, a dyfynnaf ef yn union, a byddaf yn cyflwyno'r llythyr i chi, 'Mae ein cymharu ni ag ardal fel Casnewydd neu Gaerdydd yn wallgof pan mae gennym agweddau a gofynion cymdeithasol gwahanol, a chymuned wahanol yn enwedig. Croesawaf y cyfle i esbonio'n bersonol fy rhesymau dros ysgrifennu, a pham y dylem ddal gafael ar sefydlogrwydd gwleidyddol yn ein hardal. Rwy'n siŵr y bydd sefydliadau elusennol lleol eraill mewn penbleth hefyd'. Dyna beth mae wedi'i ysgrifennu. Mae'r llythyr hwnnw ganddo yn bwysig oherwydd mae'n amlygu'r ffordd orau y gall Aelod Seneddol gyflawni ei swydd. Yn fy mhrofiad helaeth dros 21 mlynedd, nid oes gennyf unrhyw amheuaeth y ceir y gynrychiolaeth orau pan mae gan y cymunedau a gynrychiolir ryw fath o berthynas naturiol â'i gilydd. Mae hyn yn galluogi'r AS, sef fi fy hun yn yr achos hwn, i fynegi un farn ar ran yr etholaeth, yn ogystal ag ymateb i bryderon etholwyr unigol. Trwy gydol 21 mlynedd, rwyf wedi cynnal cymorthfeydd rheolaidd ym mhob rhan o fy etholaeth. Rwyf wedi ymwneud, yn llythrennol, â degau o filoedd o achosion, ac rwyf bob amser wedi cynnal swyddfa etholaeth. Diben y swyddfa hon yn bennaf fu helpu i roi cymorth i etholwyr, a chaiff gwerth fy swyddfa, fy mhresenoldeb yn yr etholaeth fel rhan o'r gymuned, ei amlygu unwaith eto gan John Morgan yn y llythyr y byddaf yn ei roi i chi yn nes ymlaen. Rwy'n canolbwyntio ar dref Caerffili, oherwydd mae wrth wraidd y penbleth y mae'r

ddeddfwriaeth wedi ein gosod ni ynddo. Nid oes senario perffaith ac mae'n amlwg nad yw'r sefyllfa bresennol yn opsiwn, ond rwyf wedi cyflwyno gwrthgynnig sydd wedi cael cefnogaeth sylweddol iawn. Mae cadw Cwm Rhymni Isaf, Basn Caerffili a'i gefnwlad uniongyrchol i'r gogledd yn ganolog i'm gwrthgynnig. Fel y gwelwch o'm gwrthgynnig, rwyf wedyn yn ymestyn etholaeth newydd Caerffili i gynnwys y cymunedau o amgylch y Coed Duon a Phontllanfraith, sef ardaloedd â pherthynas gref â Chaerffili. Mae hanner arall fy ngwrthgynnig yn ymwneud â chysylltu'r wardiau y mae'r Comisiwn Ffiniau wedi'u nodi yng ngorllewin Casnewydd â chefnwlad uniongyrchol y ddinas. Felly, rhennir yr ardal rhwng y gogledd a'r de yn hytrach na'r dwyrain a'r gorllewin, ac mae hyn yn dilyn y ddaearyddiaeth naturiol yn ogystal â'r cysylltiadau hanesyddol, diwylliannol a chyfoes sy'n gadarn yn eu lle. A gaf i ddweud, yn olaf? Fel cyn-lefarydd yr wrthblaid yn y Senedd ar newidiadau i ffiniau, rwy'n deall yn iawn yr amodau y mae'n gyfreithiol ofynnol i'r Comisiwn Ffiniau eu dilyn. Felly, hoffwn bwysleisio bod fy ngwrthgynnig yn bodloni meini prawf Deddf Etholaethau Seneddol 1996, fel y'i diwygiwyd, ac nad oes unrhyw effeithiau canlyniadol ar etholaethau eraill. Mewn geiriau eraill, yr hyn rwy'n ei gynnig, yn ei hanfod, yw ad-drefnu'r ffiniau etholaethol rhwng etholaeth arfaethedig Gorllewin Casnewydd a Chaerffili, ac etholaethau [anghlywadwy 02:55:48], a byddwn yn awgrymu'n barchus bod y gwrthgynnig hwn i grynhoi tair etholaeth i ddwy yn llawer mwy tebygol o gael ei dderbyn gan y cyhoedd na'r hyn a gynigiwyd yn wreiddiol gan y Comisiwn Ffiniau. Diolch i chi.

AC1: A oes unrhyw gwestiynau o eglurhad o'r llawr? Mr Phillips?

SP: Diolch am hyn. Mae gennyf ddau bwynt o eglurhad. Yn gyntaf, yn ystod yr ymgynghoriad cychwynnol, cawsom nifer o gynrychiolaethau ynghylch hepgor ward Nelson, a'i chynnwys ym Merthyr ac Aberdâr, rwy'n meddwl. Sylwaf nad yw eich cynnig yn cynnwys ward Nelson, felly a wnewch chi esbonio ychydig mwy am yr hepgoriad hwnnw, fel petai, os yw'n hepgoriad. Yr ail bwynt, nid oes gennyf unrhyw amheuaeth, clywsom gynrychioliadau yn y gwrandawiad cyhoeddus diwethaf, ac rydym wedi derbyn cynrychiolaethau ysgrifenedig niferus yn cefnogi'r hyn a ddywedoch, ond nid yw'n ymddangos bod cefnogaeth iddo yn Islwyn, rydym wedi cael cynrychiolaethau o'r rhan honno o'r byd sydd, yn y bôn, yn cefnogi'r cynigion cychwynnol. Felly, tybed pa ddeialog a fu gyda'ch cymheiriaid ac eraill, ar yr ochr honno o fwrdeistref sirol Caerffili?

WD: I ateb eich pwynt cyntaf yn gyntaf, o ran Nelson. Byddwn yn dweud dau beth. Y pwynt cyntaf yw fy mod yn awyddus iawn. Ond mae gennyf bryder, ac mae cefnogaeth yn y gymuned dros ail-lunio ffiniau [anghlywadwy 02:57:42] o fewn tair etholaeth. Mae cynnwys Nelson yn achosi effaith ganlyniadol mewn man arall, yn anochel. Ac mae hynny'n agor yr hyn y gallai rhai pobl ei ddisgrifio fel clwyfau sy'n bodoli. A'r ail bwynt yw hyn: rwyf wedi cynrychioli Nelson hyd eithaf fy ngallu am y 21 mlynedd diwethaf, ac mae'r ward wedi'i hynysu rhywfaint o ran daearyddiaeth etholaeth Caerffili. Rwy'n siŵr y byddai pobl Nelson yn dweud hynny eu hunain. Ac mae gan Nelson, mewn gwirionedd, berthynas ychydig yn agosach â'r cymunedau i'r gogledd, lleoedd fel Treharris ac [anghlywadwy 02:58:25]. Er fy mod wedi ystyried hyn yn ofalus, dyma pam nad wyf wedi ceisio cynnwys Nelson mewn unrhyw gynigion a gyflwynais. Mae fy ail bwynt yn ymwneud ag etholaeth Islwyn. Rwy'n meddwl ei bod yn deg dweud na all unrhyw gynnig fod yn berffaith. Mae'r ddeddfwriaeth wedi'i llunio'n ofalus, mae'r opsiynau sydd ar gael yn eithaf cyfyngedig i bawb, mae'n rhaid i ni gadw at y Ddeddf, ac yn achos etholaeth Islwyn,

er bod y cynnig a gyflwynwyd yn dderbyniol mewn sawl ffordd, mae'r effaith ganlyniadol ar Gaerffili yn drychinebus. Felly, rwy'n meddwl ei bod yn gwneud llawer iawn o synnwyr i gydnabod, fel y dywedais, yr ardaloedd, y trefi a'r pentrefi yn rhan ganolog etholaeth bresennol Caerffili, fel Ystrad Mynach, fel Hengoed, fel Tir-y-berth, sydd â chysylltiadau cryf â rhan sylweddol o ardal cwm [aneglur], fel mae'n cael ei galw weithiau, lleoedd fel y Coed Duon a Phontllanfraith. Os oes cysylltiad rhwng y cymunedau hynny, mae'n gwneud yr etholaeth yn hyfyw ac yn ddymunol, yn fy marn i, ac mae'r rhannau sy'n weddill o etholaeth Islwyn yn edrych yn naturiol, rwy'n meddwl, nid at leoedd fel [anghlywadwy 003:00:00], nad ydynt yn gyfarwydd i lawer o bobl, ond yn hytrach at Gasnewydd, ac mae hynny'n berthnasol yn hanesyddol, o ran datblygiad y diwydiant glo, ond mae hefyd yn berthnasol o ran cymuned fuddiant pobl mewn lleoedd fel Trecelyn a Chrymlyn, maent yn edrych i'r de tuag at Gasnewydd. A gallech ddweud, wel, beth am gymunedau fel Argoed, mae'n ffordd bell o Argoed i lawr i Gasnewydd, ac mae hynny'n wir. Ond mae'n ffordd bell hefyd o Senghennydd i lawr i Gasnewydd ac [anghlywadwy 03:00:34], felly nid yw ein cynigion yn berffaith, ond gallaf ddweud yn rhesymol, gallaf ddweud yn onest, rwy'n meddwl bod y cynnig a gyflwynais yn haeddu ystyriaeth ofalus iawn, a chredaf y byddai'n dderbyniol ar y cyfan i bobl yn Islwyn ac i bobl yng Nghaerffili.

SP: Diolch i chi.

AC1: Diolch i chi, Mr David.

WD: Diolch. Cyn i mi adael, a gaf i gyflwyno'r llyfrau a'r ddeiseb? Rwyf...

SW: A wnewch chi eu pasio? Gallaf eu derbyn, gallaf eu cymryd, os yw hynny'n iawn? Byddwn yn prosesu hyn ac yn anfon y gydnabyddiaeth atoch, os yw hynny'n iawn?

[Trafodaethau yn y cefndir 03:01:15].

AC1: Diolch i chi.

WD: Diolch yn fawr iawn.

AC1: Y siaradwr nesaf yw'n Cynghorydd Chris Morgan.

[Saib 03:01:24 hyd 03:01:39]

CM: Diolch i chi, Gomisiynwyr. Y Cynghorydd Chris Morgan wyf i. Fi yw cadeirydd Cyngor Cymuned Bedwas, Trethomas a Machen. Rwyf yma i siarad am gynigion fy AS, Mr Wayne David, ynghylch dewisiadau eraill o ran newid ffiniau. Prynhawn da, bawb. Diolch i chi am ganiatáu i mi siarad y prynhawn yma. Rwy'n siarad ar ran cymunedau Bedwas, Trethomas a Machen fel cadeirydd y Cyngor Cymuned. Dros y misoedd diwethaf, rwyf wedi siarad â'm hetholwyr a chymdogion am y newidiadau arfaethedig i'n hetholaeth Seneddol, ac rwy'n clywed yr un cwestiynau yn gyson. Pa gysylltiad sydd rhyngom ni a Chasnewydd? Mae Casnewydd yn ddinas, nid oes unrhyw beth yn gyffredin rhyngom. Nid wyf eisiau mynd i Gasnewydd i weld fy AS. Ni allant wneud hynny. Nid yw hyn yn ddemocrataidd. Iawn. Fy mhentref yw fy nghymuned, a byddaf yn siarad fel pe baent yn un. Mae'r ddemografeg yn wahanol, mae'n ddrwg gennyf, dechreuaf eto. Lleolir fy

mhentref, fy nghymuned, ym mhen isaf basn Caerffili. Rydym yn gasgliad o hen bentrefi glofaol sy'n edrych i'r cymoedd, gyda thref fel Caerffili yn ganolog. Mae Casnewydd yn ddinas borthladd sydd â demograffeg wahanol a phroblemau gwahanol. Mae naw milltir o gefn gwlad agored rhwng Casnewydd a'm hardal i. Nid oes cysylltiadau rheilffordd ac nid oes cynlluniau ar gyfer cysylltiadau o'r fath, mae'r Metro wedi'n siomi. Nid oes llwybr beicio diogel i Gasnewydd, nac unrhyw gynlluniau o'r fath. Ceir cysylltiadau gwael ar hyd ffordd yr A468, sy'n dagfa brysur [anghlywadwy 03:03:17] bob diwrnod, ac mae cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus yn annibynadwy. Nid oes gan fy ardal unrhyw ymlyniad â Chasnewydd. Byddai rhai yn dweud mai pobl y Cymoedd ydym, yn syml. Rwy'n cefnogi ac yn cymeradwyo'n llwyr y gwrthgynnig a gyflwynwyd heddiw, fel mater o synnwyr cyffredin sy'n cysylltu'r cymunedau'n dda. Os cymerwn y ddau gynnig ar wahân, mae un, sef etholaeth arfaethedig Caerffili, yn cysylltu'r trefi a'r pentrefi ar hyd llinellau hen dramffordd Rhymni a rheilffordd Aberhonddu a Merthyr a ddaeth â ffyniant, mae'n ddrwg gennyf, rwy'n colli fy nhrywydd, a ddaeth â ffyniant i'r pentrefi hynny, y cysylltiadau â Chwm Aber, Senghennydd a Chaerdydd drwy Gaerffili, y cyswllt rheilffordd i'r llwybr i Gasnewydd, a gafodd ei ddileu ym 1955. Byddai hynny'n rhoi cyfanswm o 75,092 o etholwyr. Mae cefnogaeth dda i'r ail gynnig ar gyfer etholaeth Gorllewin Casnewydd a Threcelyn yn yr ardal honno. Mae'n llifo'n naturiol ar hyd llinellau camlas Sir Fynwy ac Aberhonddu i Gasnewydd. Daeth y trefi a'r pentrefi hyn â ffyniant i Gasnewydd yn ystod y Chwyldro Diwydiannol, drwy gyfrwng y gamlas. Ac yn ddiweddarach, y rheilffyrdd. Mae gan y trefi hyn berthynas naturiol â Chasnewydd, ond nid felly fy nhrefi a'm pentrefi i, mae'n ddrwg gen i ddweud. Mae'r cynigion hyn yn gwneud llawer mwy o synnwyr i mi. Pam ydym ni'n mynd o'r gorllewin i'r dwyrain pan fo llif naturiol y cymoedd a'u cymunedau yn mynd o'r gogledd i'r de? Fy mhryder ynghylch y cynnig cychwynnol yw'r diffyg democratiaeth ymddangosiadol a achosir yn y cymunedau hynny, sydd heb gymryd rhan yn y ddadl hon, nac wedi cymryd diddordeb. Nid oes modd i chi newid hanes cymunedau'r Cymoedd, na'r ffordd y magwyd pobl, ond gallwch gofleidio hyn. Byddwn yn annog y Comisiwn i ailfeddwl. Ystyriwch y dewisiadau amgen credadwy a gyflwynwyd heddiw, a geiriau ein AS sy'n ymddeol. Mae hyn yn parhau i fod yn destun pryder iddo, ac felly hefyd y gweddill ohonom. Diolch i chi am ganiatáu i mi siarad heddiw.

AC1: Diolch i chi. A oes unrhyw bwyntiau o eglurhad? Na. Diolch i chi. Pob hwyl, y Cynghorydd Morgan.

[Saib 03:05:24 hyd 03:05:34]

AC1: Disgwylir y siaradwr nesaf am ddau o'r gloch, Miss Wallow, a ydych chi'n barod i ddechrau ychydig yn gynharach? Diolch. Mae gennych gyflwyniad, a ydych chi eisiau ei roi ar y sgrin?

JW: Rwyf wedi'i anfon drwy e-bost.

SW: Rydym wedi'i dderbyn.

AC1: Miss Wallow, wrth i ni ei roi ar y sgrin, dywedwch bwy ydych chi, rhowch eich ardal breswyl, a nodwch os oes gennych ymlyniad ag unrhyw grŵp neu a ydych chi'n siarad fel unigolyn.

JW: Helô, fy enw yw [Joanne Wallow?03:06:06], rwy'n dod o Dreforys, fi yw cadeirydd Cangen Plaid Cymru yn Nwyrain Abertawe, ond heddiw rwy'n cynrychioli fy hun fel dinesydd preifat yn hytrach na'r blaid, gan fod y blaid wedi gwneud ei chynigion ei hun i'r Comisiwn Ffiniau, sy'n sylweddol wahanol i'r cynigion yr hoffwn eu hawgrymu heddiw.

AC1: Pa blaid, mae'n ddrwg gennyf?

JW: Plaid Cymru.

AC1: Plaid Cymru. Unwaith eto, mae gennych 10 munud a byddwch yn cael gwybod pan fydd gennych chi ddau funud yn weddill. Iawn?

JW: Iawn.

AC1: Diolch.

JW: Y peth cyntaf yr hoffwn ei ddweud yw fy mod yn meddwl bod y mwyafrif o'r cynigion ynghylch gogledd, canolbarth a gorllewin Cymru yn dda iawn, ac rwy'n meddwl eu bod yn briodol fel y maent, ond mae angen rhai newidiadau yn y gogledd. Rwy'n meddwl y dylai etholaeth Dwyfor Meirionnydd gael ei hailenwi gan fod etholaeth newydd Dwyfor Meirionnydd yn cynnwys y rhan fwyaf o Arfon, felly ni fyddai pobl sy'n byw yng Nghaernarfon a Llanrug a lleoedd felly yn cael eu cynrychioli yn enw newydd yr etholaeth, ac nid wyf yn meddwl bod hynny'n deg. Hefyd, cynigir cynnwys ward Pentir fel rhan o Ddwyfor Meirionnydd, ond byddai'n gwneud mwy o synnwyr i'w symud i Aberconwy. Bydd unrhyw un sydd wedi bod ym Mhentir yn deall bod y ward yn teimlo'n debycach i ran o ddinas Bangor yn hytrach na Chaernarfon neu'r Felinheli, ac yn ogystal, rwy'n meddwl y byddai'n gwneud synnwyr i ail-werthuso enwau rhai o'r etholaethau yng ngogledd y wlad. Un o'r rhain yw etholaeth Clwyd, gan fod y rhan fwyaf o Afon Clwyd y tu allan i'r etholaeth, mewn gwirionedd, ac rwy'n meddwl y byddai Colwyn a Dinbych, neu rywbeth felly, yn enw gwell. A chredaf fod yr enw Maldwyn a Glyndŵr yn eithaf hir, felly efallai y byddai'n briodol defnyddio'r enw Cymraeg, Maldwyn, gan ei fod yn enw a ddefnyddir yn eithaf cyffredin yn yr ardal eisoes. O ran gorllewin Cymru, rwy'n meddwl y dylai'r ffin rhwng Ceredigion Preseli a Chanol a De Sir Benfro gael ei diwygio ychydig er mwyn diogelu ward Maenclochog, sy'n Gymraeg ei hiaith, wrth ei symud i Geredigion Preseli, a symud wardiau Solfach a Thyddewi, sy'n Saesneg eu hiaith, i Ganol a De Sir Benfro. Rwy'n meddwl ei bod yn gwneud synnwyr i newid yr enw Canol a De Sir Benfro i ddim ond Penfro, oherwydd mae'r enw cyntaf yn eithaf trwsgl. Mae etholaethau eraill yng Nghymru lle mae rhannau sirol enw'r etholaeth wedi'u gollwng, fel Mynwy, ac Aberhonddu a Maesyfed. Hoffwn gynnig ymestyn etholaeth Llanelli mewn ffordd wahanol i'r hyn y mae'r Comisiwn wedi'i gynnig, wrth ei hymestyn i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain tuag at Rydaman, fel y bydd yr etholaeth yn parhau i fod yn drefol ei natur i raddau helaeth, ac ni fyddai'n cynnwys unrhyw ardaloedd gwledig, a fyddai, yn fy marn i, yn fwy cartrefol fel rhan o etholaeth Caerfyrddin. Ac eto, rwy'n meddwl y dylai rhai o'r enwau gael eu diwygio, fel y dywedais eisoes, rwy'n meddwl y dylai Aberhonddu a Maesyfed gael ei newid i Aberhonddu, Maesyfed a Chwmtawe i gydnabod bron i 20,000 o bobl nad ydynt yn byw yn Sir Frycheiniog neu Sir Faesyfed, ond a fyddant yn byw yn yr etholaeth. Rwy'n meddwl y dylid newid Dwyrain Abertawe a Chastell-nedd i Gastell-nedd a Dwyrain Abertawe, gan mai Castell-nedd sy'n llunio'r rhan

fwyaf o'r etholaeth. O ran y de-ddwyrain, rwy'n meddwl y dylid symud y ffin ychydig rhwng Aberafan Porthcawl a Phen-y-bont, gan uno Cefn Cribwr ag Aberafan Porthcawl a gosod Cefn Glas ym Mhen-y-bont, fel bod y ffin yn fwy o linell syth, sy'n gwneud mwy o synnwyr. Hefyd, gan fod etholaeth Aberafan wedi bodoli am gyfnod hirach na thref Port Talbot, efallai ei bod yn hen bryd i'r enw Port Talbot gael ei adlewyrchu yn enw'r etholaeth newydd. Felly, dyma fap o'r newidiadau a gynigiaf yn ne-ddwyrain y wlad, gan fy mod yn meddwl mai dyma'r rhan o Gymru sydd angen ei hailfeddwl fwyaf. Darllenais y sylwadau a wnaed yn ystod y cyfnod ymgynghori cyhoeddus a gwn fod Andrew RT Davies, arweinydd y Ceidwadwyr Cymreig, wedi dweud ei bod yn gwneud synnwyr i gadw Bro Morgannwg fel y mae, gan mai dyma'r unig etholaeth yng Nghymru sy'n bodloni'r gofynion presennol a gyflwynwyd gan y Comisiwn Ffiniau. Rwyf wedi cadw De Caerdydd a Phenarth fel y mae, ond gan hepgor ward Llanrhymni a'i gosod yn etholaeth newydd Gogledd Caerdydd, ac addasu Canol Caerdydd i gynnwys wardiau sy'n adlewyrchu rhan ganolog y ddinas yn well, ac fel y gwelwch, rwyf wedi cadw Caerffili fel y mae, gan fod llawer o bobl yn ddig ynghylch cael gwared ar Gaerffili, ac yn lle hynny rwyf wedi uno Islwyn â Gorllewin Casnewydd, gan fod hynny'n gwneud mwy o synnwyr i mi na Chaerffili a Gorllewin Casnewydd, fel y dywedodd y gŵr bonheddig a siaradodd o'm blaen, a chredaf mai Pontypridd ac Aberpennar ddylai fod yr enw newydd ar gyfer etholaeth Pontypridd, gan fod tref Aberpennar bron mor fawr â Phontypridd ei hun, felly mae'n gwneud synnwyr ei chynnwys yn enw unrhyw etholaeth o'r fath. Rwy'n cynnig enw newydd ar gyfer etholaeth estynedig Blaenau Gwent, sef Blaenau Gwent a Bedwellte, gan mai Bedwellte yw'r fwrdeistref sy'n cynnwys y Coed Duon a Phontllanfraith, a ychwanegaf at Flaenau Gwent yn fy awgrym. Ddiolch i chi am gymryd eich amser i ystyried fy nghynrychiolaethau, ac mae wedi bod yn anrhydedd i chwarae fy rhan yn y broses ddemocrataidd, a hynny ar ein dydd gŵyl genedlaethol. Diolch i chi am eich amser.

AC1: Diolch i chi. A oes unrhyw bwyntiau o eglurhad o'r llawr? Neu'r panel?

SP: Ie, un cwestiwn. Wel, dau gwestiwn, mewn gwirionedd. A ydych chi'n siarad ar ran Plaid Cymru?

JW: Nac ydw.

SP: Nac ydych, iawn.

JW: Heddiw, rwy'n siarad fel dinesydd preifat.

SP: Iawn. Mae hynny'n ateb fy nghwestiwn, oherwydd mae Plaid Cymru wedi cyflwyno cynnig gwahanol mewn perthynas ag etholaeth Llanelli; ai dyna safbwynt swyddogol y blaid o hyd?

JW: Ie. A dweud y gwir, rwy'n meddwl nad yw'r cynigion ynghylch etholaeth Llanelli a wnaed gan Blaid Cymru yn gwneud cymaint o synnwyr, gan y byddai'r ffin yn croesi afon Tywi. Rwy'n cynnig ail-greu etholaeth Llanelli fel yr oedd yn y 1970au pan oedd yn cynnwys Rhydaman.

SP: Iawn, mae'r eglurhad yn ddefnyddiol. Diolch i chi.

JW: Diolch i chi.

SW: A gaf i ofyn cwestiwn am eglurhad? Ysgrifennoch am [anghlywadwy 03:12:58] a Chaerdydd, ac i gadarnhau, a fyddech chi'n ad-drefnu Gorllewin Casnewydd a Chaerffili, ac Islwyn, a chefnogi Sir Fynwy yn unol â'n cynigion, a Dwyrain Casnewydd yn unol â chynigion y Comisiwn?

JW: O ran Dwyrain Casnewydd, af yn ôl at y sleid er mwyn i chi weld y map. Byddai Dwyrain Casnewydd yn cynnwys Betws a Sain Silian, ac ni allaf gofio enw'r ward arall, mae'n ddrwg gennyf, ond byddai hefyd yn cynnwys ward Mill o Sir Fynwy, oherwydd fel arall, ni fyddai'n ddigon mawr i fodloni'r cwota. Ac fel y gwelwch, mae'r etholaeth newydd Gorllewin Caerdydd a gynigiais, fwy neu lai, yn debyg iawn i'r hyn a gynigiwyd gan y Comisiwn, ond ei bod yn cynnwys Tonysguboriau a Llantrisant. Mae Nantgarw, yn y sefyllfa hon, yn parhau i fod yn rhan o Rondda Cynon Taf yn hytrach na chael ei gosod yng Ngogledd Caerdydd.

SW: Iawn.

JW: Diolch.

AC1: Diolch yn fawr i chi.

JW: Diolch i chi.

[Trafodaethau yn y cefndir 03:14:03]

[Saib 03:14:17 hyd 03:14:40]

AC1: Rydym ychydig ar y blaen â'r amserlen. Mr Allen?A ydych chi eisiau siarad yn gynnar? Dewch at y ddarlithfa, os gwelwch yn dda, diolch. Mr Allender, a wnewch chi gadarnhau eich enw, eich ardal breswyl, ac os oes gennych unrhyw ymlyniad, nodwch hynny, neu nodwch os ydych yn siarad fel unigolyn.

RA: Mae'n ddrwg gennyf, ni chlywais hynny'n llawn.

AC1: Rhowch eich enw a'ch ardal breswyl, a nodwch os ydych yn siarad fel unigolyn neu fel rhan o sefydliad.

RA: Iawn.

AC1: Mae gennych 10 munud a bydd fy nghydweithiwr yn rhoi gwybod i chi pan fydd dau funud i fynd. Iawn?

RA: Iawn.

AC1: Diolch i chi.

RA: Fy enw yw Robert Allender, rwy'n byw yn ward Llansamlet, ac rwy'n mynd i siarad am yr anawsterau wrth fynd o'r rhan arall o ward Llansamlet tuag at Gastell-nedd, neu o unrhyw ran o ward Llansamlet tuag at Gastell-nedd. Mae Llansamlet a'r Gellifedw a'r ardaloedd eraill [anghlywadwy 03:15:46] yn edrych tuag at Abertawe, maen nhw'n wynebu Abertawe, mae pedwar bws bob awr yn mynd o ardal

Llansamlet, ond i ddal bws i Gastell-nedd, mae gofyn i chi fynd i Abertawe a chael bws oddi yno i Gastell-nedd. Nid oes unrhyw gysylltiad gwirioneddol rhwng yr ardaloedd hynny o Lansamlet ag ardal Castell-nedd. Fel y dywedaf, mae Llansamlet a'r Gellifedw a'r Glais yn edrych tuag at Abertawe o ran siopa a phethau penodol eraill. Mae'n ymddangos yn rhyfedd, mae'r rhan honno o'r ward, sy'n ward fwy o faint, nid wyf yn gynghorydd, rwy'n aelod o'r Blaid Lafur, ond nid wyf yn gynghorydd. Rwy'n etholwr cyffredin ac mae gennyf bryderon penodol. Rwy'n teimlo bod y rhan honno o'r ward wedi'i gwahanu, er ei bod yn gweithio'n dda ar gyfer gwrandawiadau'r cyngor, oherwydd mae'r pedwar cyngor wedi dod o [anghlywadwy 03:17:12] byddai'n ymddangos yn rhyfedd oherwydd byddai'r cyngor wedi'i leoli yn Abertawe, ond byddai hanner y ward yn mynd i ardal lle nad oes unrhyw gysylltiad, neu le nad oes unrhyw ymlyniad gwirioneddol. Mae'n teimlo fel petai rywun yn dweud wrth hanner ward Llansamlet nad oes ei hangen bellach, ffarwel, rhaid i chi fynd i Gastell-nedd, ond nid yw'r bobl yn mynd i siopa yng Nghastell-nedd. Os ydynt eisiau rhywbeth o [anghlywadwy 03:17:49] neu unrhyw amwynder dinesig arall, byddant yn mynd tuag at Abertawe. Ac rwy'n credu bod y bobl rwy'n eu hadnabod yn y Glais a'r Gellifedw yn teimlo'r un ffordd, eu bod â mwy o gysylltiad ag Abertawe na Chastell-nedd. Felly iddyn nhw, mae'n ymddangos yn rhyfedd fod Castell-nedd yn cael ei chynnig fel ardal oherwydd nid oes unrhyw gysylltiadau'n bodoli, mewn gwirionedd. Os nad oes gennych gar, ac mae llawer o bobl nad ydynt yn gyrru, neu'n methu â gyrru, nid oes gennych unrhyw ddewis. Os ydych eisiau ymweld â'r aelod sy'n ennill y nifer fwyaf o bleidleisiau yn yr ardal honno, yn ôl pob tebyg byddai'n lleoli ei brif swyddfa yng Nghastell-nedd, ond byddai'n rhyfedd i bobl yn y Glais a'r Gellifedw, byddent yn meddwl, wel, mae'n rhaid i ni fynd i rywle na allwn fynd, os na allant yrru. Felly dyna fy nghyflwyniad.

AC1: Diolch yn fawr i chi.

[Siarad ar draws 03:19:01]

AC1: A oes unrhyw gwestiynau ar gyfer eglurhad? Na, diolch yn fawr i chi.

[Trafodaethau yn y cefndir 03:19:09]

AC1: Rydym wedi dod i ddiwedd ein rhestr o siaradwyr am y tro. Mae ychydig wedi dau o'r gloch, mae'r siaradwr nesaf i fod yma am bump o'r gloch, felly rydym yn cynnig gohirio tan bump o'r gloch, ac os daw unrhyw un yn y cyfamser, gallwn ailymgynnull i glywed eu cynrychiolaethau. Felly am y tro, cawn egwyl yn y cyfarfod tan bump o'r gloch. Diolch.

[Egwyl]

AC1: Prynhawn da. Croeso i Abertawe. Fy enw yw Andrew Clemes ac rwy'n Gomisiynydd Cynorthwyol gyda'r Comisiwn Ffiniau i Gymru. Byddaf yn cadeirio'r rhan hon o'r gwrandawiad heddiw. Mae'r panel heddiw yn cynnwys fi a'r Comisiynydd Cynorthwyol ffederal, Steven Phillips, yn ogystal â Shereen Williams, ysgrifennydd y Comisiwn. Mae gennym rai siaradwyr ar gyfer heno, gan ddechrau â'r Cynghorydd Tina Williams, sydd ar y rhestr ar gyfer pump o'r gloch. Byddaf yn gwahodd y Cynghorydd Williams i'r podiwm yn y man. Gofynnwn i siaradwyr roi eu henw, eu hardal breswyl, nid eu cyfeiriad ond eu hardal, a pha ymlyniad sydd

ganddynt os yw hynny'n berthnasol, neu a ydynt yn siarad ger ein bron heddiw fel unigolyn. Mae gennych 10 munud ar gyfer pob anerchiad, a bydd fy nghydweithiwr, a fydd o'ch blaen pan fyddwch yn siarad, yn eich rhybuddio pan fydd gennych ddau funud i fynd. Rydym yn cadw at 10 munud oherwydd mae hynny'n creu ymdeimlad o degwch i'r holl siaradwyr sydd gennym. Dyma'r trydydd o dri diwrnod hyd yn hyn, a gofynnaf i'r Cynghorydd Williams siarad nesaf.

TW: Fy enw yw Tina Williams. Rwy'n Is-gadeirydd Plaid Lafur yr Etholaeth ac [aneglur], ac yn Gynghorydd RhCT. Roedd Deddf Ffiniau 2020 yn gam gwleidyddol yn ystod y pandemig, gan ychwanegu at y pwysau ar Gymru. Yn dilyn 12 mlynedd o gyni, effaith Brexit, y pandemig Covid, a bellach, costau byw, ni allai fod adeg waeth i ddisgwyl i etholwyr ymgysylltu â dichell wleidyddol yn ymwneud â'r etholaeth Seneddol, heb sôn am y llifogydd a'r tlodi y mae pobl yn parhau i'w hwynebu. Nid oedd y Ddeddf yn rhannu Cwm Cynon, felly pam fod meini prawf gan y Comisiynydd i ddiogelu cyfeiriad gogledd i'r de ar gyfer cymoedd eraill, ond nid ar gyfer Cwm Cynon? Bydd cynnig cychwynnol y CFfG yn mynd â Chwm Cynon yn ôl 100 mlynedd, ar ôl bron i 40 mlynedd o ddatblygu llywodraeth leol lwyddiannus, cysylltiadau cymunedol a mewnfuddsoddiad enfawr tuag at ddatblygiad economaidd a diwylliannol yn y cwm. Cwestiwn a ofynnwyd i mi sawl gwaith yn Rhondda Cynon Taf yw beth fydd yr enw. Rwy'n gynghorydd dros Dde Aberaman. Sut gallwn ni roi dwy ward at ei gilydd, De Aberaman a Gogledd Aberaman, a fydd â'r enw Aberaman, ac ar yr un pryd, gofyn i'r un bobl gael eu rhannu'n ddau hanner. Cwmaman ac Aberdâr â Merthyr, ac Abercwmboi ac Aberaman â Phonty. Nid yw pobl yn gallu deall hyn, ac ni allaf innau ddeall sut y gallwn wneud hyn. Rwy'n helpu pobl yn ddyddiol â thlodi, iechyd meddwl, pobl a adawyd ar ôl gan y system addysg. Ychydig amser yn ôl, helpais rywun ar ôl marwolaeth ei fam, nid oedd ganddo'r arian i'w chladdu. Deuthum o hyd i help iddo. Daeth i'r amlwg nad oedd wedi hawlio unrhyw arian fel unigolyn, nid oedd ganddo gyfrif banc, nid oedd yn meddwl bod ganddo hawl i unrhyw beth. Am gyfnod o saith mlynedd, ni fu'n hawlio ceiniog. Nid oedd yn gwybod ble i droi, ac mae materion o'r fath ar gynnydd. Mae angen i'r bobl hyn gael mynediad parhaus at yr AS, a beth fydd yn digwydd i'n Haelod o'r Senedd? Bydd y Blaid Lafur yn ethol ymgeisydd, ble bynnag y byddwn, ond nid oes unrhyw sicrwydd y bydd etholwyr Cwm Cynon yn eu cefnogi, oherwydd yr holl ddryswch annerbyniol; bydd eich cynnig yn effeithio ar holl ardaloedd y cwm, gan greu datgysylltiad rhwng etholwyr ac ASau newydd, sy'n debygol o flaenoriaethu Merthyr a Phonty, gan adael Aberdâr, Aberpennar a chymunedau eraill yn ynysig. Mae rhannu Cwm Cynon o'r dwyrain i'r gorllewin ar draws y canol yn dangos diffyg gwybodaeth am sut mae'r cwm yn gweithredu, a dyma un o'r cynigion mwyaf amrwd yn ystod unrhyw newidiadau i ffiniau hyd yma. Mae cynghorwyr Cwm Cynon yn cydweithio'n agos ar draws y cwm a bydd eich cynnig cychwynnol yn gwneud ein gwaith yn fwy anodd fyth wrth geisio cydgysylltu anghenion pobl sy'n byw ar draws y rhaniad rydych yn ceisio'i greu. Rwyf yma heddiw i ofyn i'r Comisiynwyr feddwl eto am sut y mae'r bobl y gweithiaf â nhw fel cynghorydd yn mynd i ymdopi yn y dyfodol, a gofynnaf i chi roi'r gorau i'ch cynnig cychwynnol.

AC1: Diolch yn fawr i chi. A oes unrhyw gwestiynau o'r llawr ar gyfer eglurhad gan y cynghorydd? Na, nid oes unrhyw gwestiynau o'r llawr; mae gan Mr Phillips gwestiwn.

SP: Mae'n fwy o sylw, a chais am eglurhad, yn hytrach nag unrhyw beth arall. Rydym wedi derbyn nifer o wrthwynebiadau ysgrifenedig i'r cynnig rydych wedi'i amlinellu

heddiw. Fodd bynnag, yr hyn a ddeallais wrth eu darllen oedd bod llawer mwy o gynrychiolaethau o ddwy ward Aberaman nag a oedd o Aberpennar. Derbyniaf yn llwyr eu bod yn yr un cwm, Cwm Cynon, ond mae'n ymddangos bod llai o wrthwynebiad gan wardiau Aberpennar o gymharu ag Aberaman. A yw hynny'n grynodeb teg, neu a wyf wedi camddarllen neu roi gormod o bwys, neu ddim digon o bwys, i'r yr hyn a ddarllenais?

DP: A oes unrhyw un y gallu ateb, banel?

AC1: Byddwch chi'n gallu siarad, chi sy'n siarad nesaf, rwy'n meddwl. Ie.

TW: Nid wyf yn meddwl… nid wyf yn meddwl hynny. Rwy'n meddwl efallai nad oes digon o wybodaeth ar gael i bobl. Rwy'n lwcus, mae'n debyg oherwydd y maes rwy'n gweithio ynddo, rwy'n gwneud hynny ac rwy'n gweithio yn fy swydd, yn ogystal â chwnsela, rwyf ar gael i fwy o bobl.

SP: Iawn.

TW: Ond tybed a oes rhyw fan, o bosibl yn Aberpennar neu rai o'r ardaloedd eraill, rwy'n meddwl oherwydd Covid, wyddoch chi, dylwn i fod wedi mynd i rai llefydd na allwn i fynd iddynt, ni allwch basio'r pen o gwmpas. Pawb i fod defnyddio hylif diheintio dwylo, rwy'n gweithio mewn fferyllfa hefyd. Felly, wyddoch chi, dilyn y rheolau'n briodol a gofyn i bobl hŷn, a oes ganddynt ben ac a wnewch chi lofnodi? Mae'n curo'r holl beth, i raddau, felly rwy'n meddwl, ie, rwyf wedi bod yn eithaf lwcus o gwmpas yr ardal honno. Ond os ydych chi'n golygu nad oes canolfan yn Aberpennar, rwy'n meddwl ei bod yn debygol bod llawer o bobl rwyf wedi siarad â nhw, nid oes ganddynt unrhyw syniad, nid ydynt yn gwybod beth sy'n digwydd.

SP: Iawn, mae hynny'n ddefnyddiol. Diolch i chi.

TW: Iawn. Diolch yn fawr i chi.

AC1: Ie, diolch yn fawr i chi. Y siaradwr nesaf-

[Siarad ar draws 03:27:52]

SW: - ei symud allan o'r ffordd. Ie.

[Trafodaethau yn y cefndir 03:27:55]

AC1: Y siaradwr nesaf yw Dinah Pye.

DP: Nid oes angen meicroffon arnaf.

SW: Mae ei angen ar gyfer y ffrydio byw.

AC1: Mae'n cael ei recordio.

SW: Ydi.

DP: Iawn.

[Saib 03:28:17 hyd 03:28:34]

AC1: Diolch.

DP: Byddai'n well gennyf beidio â bod yma ar ddiwrnod mor drist.

AC1: Hoffwn ofyn i chi, cyn i chi roi eich cyflwyniad, i nodi'n ffurfiol pwy ydych chi.

DP: Iawn.

AC1: Eich ardal breswyl.

DP: Rwy'n breswylydd yng Nghwm Cynon. Fy enw yw Dinah Pye-

AC1: Ac unrhyw ymlyniad-

[Siarad ar draws 03:28:49]

DP: Rwy'n addysgwr wedi ymddeol, ac yn Swyddog Polisi Plaid Lafur Cwm Cynon.

AC1: Diolch. Mae'n siŵr eich bod wedi fy nghlywed yn dweud bod gennych gyfanswm o 10 munud, a bydd fy nghydweithiwr yn dweud wrthych pan fydd gennych ddau funud i fynd. Iawn? Diolch.

DP: Rwy'n siarad yn gyflym iawn, felly byddwch chi'n iawn. [Chwerthin].

AC1: Diolch.

DP: Iawn. Mae'n drueni ein bod yn gorfod dod yma fel plaid, fel Plaid Lafur, ond i ateb y cwestiwn a ofynnoch i'r Cynghorydd Williams, y broblem yw Covid. Ac rydym wedi ceisio'n daer i gael sylw gan y wasg, nid yw pobl yn gwybod beth sy'n digwydd ac nid ydynt yn deall beth sy'n digwydd. Gwnaed mwy o waith mewn rhai ardaloedd nag mewn eraill, a bydd hynny'n parhau tan y trydydd ymgynghoriad. Hoffwn ddechrau gyda dyfyniad o'r Guardian ar 8 Medi 2022, 'Mae cynigion ar gyfer ad-drefnu helaeth i fap Seneddol y DU yng Nghymru wedi ysgogi beirniadaeth am fygwth chwalu cymunedau clos y cymoedd yn Ne Cymru. Ychwanegodd y cyn AS Peter Hain, 'Mae'r cynigion yn siarter yn erbyn Llafur ac yn erbyn gwerthoedd, ac mae gan gymunedau ym mhob un o'r cymoedd hyn hanes gwahanol a hunaniaethau gwahanol, gan gynnwys mewn perthynas â'r iaith Saesneg. O ran eu natur, mae holl gymunedau'r cymoedd yn gysylltiedig, ond nid ydynt yn cysylltu'n hawdd â chymoedd cyfagos'. Yn 2012, deuthum i a'm cydweithwyr, gan gynnwys un ohonynt sydd wedi ymuno â mi heddiw, gerbron y Comisiwn hwn mewn gwrandawiad cyhoeddus yng Nghaerdydd â'r union sylwadau hyn pan geisioch rannu Cwm Cynon yn dair. Ar ôl ymgyrch gyhoeddus ddwys, cyflwynom achos cryf dros gadw mwyafrif etholaeth seneddol Cwm Cynon gyda'i gilydd. Er syndod, cydnabu'r Comisiwn bryd hynny fod gan Aberpennar gysylltiadau agos ag Aberdâr. Yn dilyn yr ymgais i symud rhan o'r cwm i Ferthyr Tudful. Y canlyniad i etholwyr Cwm Cynon oedd misoedd o wastraffu amser wrth i'r newidiadau i'r ffiniau gael eu tynnu'n ôl. Roedd Arolwg 2018 yn ymwneud â Deddf System Bleidleisio Seneddol ac Etholaethau 2016, ac o leiaf roeddech yn cydymffurfio â'ch meini prawf eich hun

bryd hynny, gan arwain at eich cynnig terfynol o ffurfio, ac ar y pwynt hwn, rwyf bob amser yn dweud, arhoswch am hyn, etholaeth Cwm Cynon Pontypridd, Cwm Cynon and Pontypridd. Gyda 78,000 o etholwyr, plws pump. Unwaith eto, roedd Llywodraeth San Steffan mewn helbul a chafodd pobl Cwm Cynon gyfnod arall o wastraffu amser, cyn rhoddwyd y gorau i'r newidiadau. Mae cydraddoli pob etholaeth ledled y DU, â llawer ohonynt â gwahaniaethau lluosog, ac yn seiliedig ar isafswm ac uchafswm ffigurau'r Comisiwn Ffiniau, yn hollol amhosibl i'w weinyddu. Nid yw poblogaethau'n sefydlog, a gyda'r mudo rhwng wardiau, bydd Cwm Cynon, o dan eich cynnig cychwynnol, yn dod yn fater o holi, ym mhle wyf i'n perthyn? Aflonyddu ar deuluoedd a chysylltiadau diwylliannol. Effaith anfaddeuol ar fusnes, yn ogystal ag anhyblygrwydd llwyr o ran unrhyw dwf yn y farchnad dai newydd. Rwy'n siarad heddiw am y ddogfen a roddwyd i chi, y gweithiwyd arni dros gyfnod o chwe mis, o'r enw Gwrthgynnig ar gyfer Ffiniau Etholaeth Seneddol Cwm Cynon 2023, lle'r ydym wedi cyflwyno'r achos dros ddewisiadau amgen i'ch cynnig cychwynnol. Yn eich cynnig cychwynnol ar gyfer 2023, ni chafodd cysylltiadau lleol, ffiniau llywodraeth leol a ffiniau Senedd Cymru, na lleoliadau daearyddol Cwm Cynon, eu hystyried o gwbl. Bydd rhannu'r cwm o'r dwyrain i'r gorllewin yn cael effaith fawr ar bob agwedd gan gynnwys yr etholwyr. Mae'n amlwg bod cyfyngiadau ar gydraddoli Cwm Cynon, sydd wedi'i amgylchynu gan fynyddoedd a chwrs afon fawr, ac rydym yn dymuno gwella ar eich cynnig a chynnal yr agwedd bwysicaf ar y cwm, sef cydlyniant ein cymunedau sefydledig. Mae'r ddogfen atodedig yn cynnwys dau wrthgynnig a gaiff eu cyflwyno fel ffordd ymlaen sy'n fwy derbyniol. Yn ein barn ni, hynny yw. Mae gwrthgynnig A, yr hyn rydym yn ei alw'n Ponty Cynon, yn unol â'ch cynnig terfynol ar gyfer 2018, â chyfanswm o 77,690. Byddai'r cynnig hwn yn cadw at eich meini prawf ar gyfer 2023, yn diogelu'r etholwyr o fewn ffiniau llywodraeth leol a ffiniau Senedd Cymru, ac yn cynnal y cyfeiriad o'r gogledd i'r de gyda chyfleusterau trafnidiaeth lluosog. Yn ogystal, byddai'r cynnig hwn yn hwyluso datblygiad yr economi ar sail gyfartal. Mae'r ail wrthgynnig, ac mae gennych y ffigurau ar gyfer y ddau gynnig fel y'u nodir yn y ddogfen, mae hwn yn gwrthwynebu eich cynnig cychwynnol oherwydd y diffyg cysylltiadau lleol a chysylltiadau diwylliant rhwng y ddau gwm. Mae'r cyfleusterau trafnidiaeth yn llai na digonol ac, mae'n ddrwg gennyf, anghofiais ddweud ein bod yn defnyddio'r enw Aberdâr Merthyr ac nid Merthyr Aberdâr. Mae'r cyfleusterau trafnidiaeth yn llai na digonol, ac ar wahân i'ch ymgais i wrthdroi datblygiad Brenhines y Cymoedd wrth ychwanegu'r dref at Ferthyr Tudful, mae pryderon y bydd yr economi yng ngogledd Cwm Cynon yn cael ei pheryglu â llai o statws na'r sefyllfa bresennol. Mae gwrthwynebiad llwyr i'ch ansensitifrwydd, wrth hollti'r cwm gyda Chwmbach ac Aberaman wedi'u rhannu rhwng dwy etholaeth. Mae'r gwrthgynnig hwn, gwrthgynnig B, yn cynnwys cyfanswm o 74,912, felly, yn seiliedig ar eich cynnig cychwynnol, a dderbyniwn, gan ychwanegu Gogledd a De Aberaman a Dwyrain a Gorllewin Aberpennar. Yr unig ffordd y bydd y gwrthgynnig hwn yn gweithio yw os bydd gan yr AS llwyddiannus yn yr etholiad cyffredinol nesaf swyddfa ddeuol, un ym Merthyr ac un yn Aberdâr, a bod Cyngor Merthyr yn gwella cyfleusterau cysylltiadau bysiau. Bydd y sylwadau olaf yn cynnwys galwad digroeso ar fuddsoddiad, ac yn creu system weinyddol gamweithredol ar gyfer cynghorwyr RhCT, a chynrychiolwyr yn Senedd Cymru. Yn dilyn cyhoeddi'r ail ymgynghoriad, bydd yr etholwyr, os gellid rheoli Covid, yn cael eu gwahodd i gymryd rhan mewn cyfarfodydd cyhoeddus er mwyn penderfynu pa gynnig y byddent yn ei ffafrio, eich cynnig chi neu un o'n cynigion ni. Os yw eich ymgynghoriad cyhoeddus yn golygu unrhyw beth, y gobaith yw y bydd y Comisiwn yn cymryd ein hymateb cryf i ystyriaeth. Hyd yn oed yn yr hinsawdd bresennol, rydym wedi cael cefnogaeth

wych gan fusnesau, yr AS, yr Aelod o Senedd Cymru, holl gynghorwyr RhCT, a'r cyhoedd. Mae rhai ohonynt yn gwybod am hyn. Ond nid ydynt mewn sefyllfa, weithiau, oherwydd amgylchiadau tlodi, costau byw, a Covid, i ysgrifennu atoch i wrthwynebu. Yn y pen draw, nid gêm o wyddbwyll yw hyn, mae'n ymwneud â bywydau pobl, eu treftadaeth, a'u teuluoedd. Oherwydd Covid, bu cyfyngiadau ar ein deiseb. Cawsom bron i 3,000 o lofnodion yn 2012. Yn anffodus, nid dyma'r hinsawdd briodol i fynd allan â deiseb, ac nid yw pobl mewn sefyllfa i ymateb i newidiadau i ffiniau ar hyn o bryd. Bydd ymgyrch gyhoeddus yn cael ei lansio cyn y trydydd ymgynghoriad er mwyn creu mwy o ymwybyddiaeth, os gallwn gael mwy o ymwybyddiaeth yn y cwm ac ym mywydau pobl, rwy'n meddwl y byddwch yn gweld bod pobl Cwm Cynon yn dymuno aros fel y maent. Nid yw hwn yn amser da i ddod yma heddiw, oherwydd mae democratiaeth yn y fantol. Dyna fy is-gyfanswm, fy is-sgript. Yr ergyd olaf dros ddemocratiaeth, nid oes gennyf danc o flaen y tŷ, ac nid oes gennyf 40 o lorïau yn ymdeithio i Gwm Cynon, ond mae democratiaeth yn bwysig. A democratiaeth cydlyniant ym mywydau pobl sydd bwysicaf i ni. Diolch i chi.

AC1: Diolch i chi. A oes unrhyw bwyntiau o eglurhad o'r llawr sydd angen eu codi? Na.

SW: Dinah, a gaf i?

DP: Iawn.

SW: A wnewch chi egluro eich gwrthgynnig A?

DP: Iawn.

SW: Y nifer a roddoch yw 77,690?

DP: Ie.

SW: Mewn gwirionedd, mae hynny'n mynd y tu hwnt, mae'n 105%.

DP: Ydi. Ydi.

SW: Felly, beth fyddech chi'n cynnig ei hepgor er mwyn sicrhau ei fod o fewn y cwota etholiadol, pe byddem yn ei ystyried fel opsiwn?

DP: Rhowch ychydig mwy o amser i ni tan fis Hydref, cawn olwg arall arno. Ond fel y dywedais yn gynharach, mae'n amhosibl â'r mynyddoedd a'r afonydd, nid oes unrhyw hyblygrwydd. A ddylem eistedd i lawr a thorri wardiau yn eu hanner? Rydym wedi gwneud ein gorau. Rydym yn meddwl ein bod wedi rhoi dau wrthgynnig i chi edrych arnynt, ac efallai gallwch ddod yn ôl atom, a'n helpu i gadw ein cymunedau gyda'n gilydd. Ond byddwn yn edrych ar hyn rhwng nawr a chyhoeddiad yr ail ymgynghoriad. Er mwyn, efallai, newid y ffigurau hynny, ond dyna beth rydym yn ei gynnig heddiw.

SW: Hoffwn egluro mai hwn yw'r ail ymgynghoriad.

DP: O, pan fyddwch yn cyhoeddi'r ail ymgynghoriad, byddwn yn mynd i'r trydydd ymgynghoriad.

SW: Ar ôl cwblhau’r ail ymgynghoriad.

DP: Ie.

SW: Bydd fy Nghomisiynwyr Cynorthwyol yn drafftio adroddiad argymhellion.

DP: Ie.

SW: Ac wedyn, bydd ein Comisiynwyr yn cyhoeddi cynigion diwygiedig.

DP: Rwy’n ymwybodol o hynny.

SW: Rydym yn gobeithio cyhoeddi hyn ym mis Hydref.

DP: Ie.

SW: Felly, dyna’r math o amserlen-

[Siarad ar draws 03:41:36]

DP: Gellir rhoi ymgynghoriad ysgrifenedig arall i ni, wedi i hwnnw gael ei gyhoeddi, a dyna rwy’n ei ddweud, rhwng nawr a’ch cyhoeddiadau, bydd gennym sgript ysgrifenedig arall i’w chyflwyno i chi, ar ôl i’r cyhoeddiad hwnnw ddigwydd.

SW: Gwych, diolch i chi.

DP: Mae gennyf yr hawl hwnnw, gallwn gyflwyno rhywbeth ar bapur. Ie?

SW: Ie. Ar y cynigion diwygiedig, ie.

DP: Ie.

SW: Ie.

DP: Drosodd atoch chi, a phob lwc. [Chwerthin]

AC1: Diolch i chi.

[Saib 03:42:11 hyd 03:42:39]

AC1: Hoffwn wahodd yr Athro Gerald Holtham i ddod i’r podiwm, os gwelwch yn dda.

[Saib 03:42:42 hyd 03:42:49]

AC1: Rwy’n meddwl oeddech chi yma, Athro, pan oeddwn yn amlinellu’r rheolau sylfaenol?

GH: Oeddwn, yn wir. Diolch i chi. Gerald Holtham wyf i, rwy’n athro gwadd mewn economeg ranbarthol ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd, ac yn frodor o Aberaman, er mai Penarth yw fy nghartref bellach. Hoffwn ddechrau wrth

gydymdeimlo â'r Comisiynwyr, rwy'n meddwl eu bod wedi cael tasg sydd bron yn amhosibl, ond rydym yn deall y cyfyngiadau, mae'r amrywiad o 10% ym maint etholaethau yn eithaf unigryw ymhlith democratiaethau gorllewinol. Roeddwn yn edrych ar etholaethau yn Ffrainc, ar roedd etholaethau a oedd yn wahanol wrth ffactor o 100, mae etholaeth yn [lle yn Ffrainc 03:43:39] sydd 100 gwaith Belfour. Felly, mae 10% yn anodd iawn, ond dyna'r ddeddfwriaeth, felly rydym yn deall yr anawsterau rydych yn eu hwynebu. Ac os na chaniateir i chi rannu wardiau, daw'n anoddach fyth i chi, rydych chi wir yn ceisio chwarae gêm jig-so. Ac mae hynny'n sicr o arwain at rywfaint o drais o ran daearyddiaeth a chymunedau. Rydym yn deall hynny. Ond rwy'n meddwl mai yng Nghwm Cynon y gwelwn rywfaint o'r trais mwyaf sy'n cael ei gynnig; mae Aberdâr yn dal i fod yn 12fed ymhlith trefi mwyaf Cymru , wrth ystyried trefi gwirioneddol, yn hytrach na lleiniau o aneddiadau trefol. Bu'n dref bwysig erioed, dyma fan geni'r traddodiad corawl Cymreig, a safle'r model cyntaf yn Stretford, a byddech yn meddwl, mewn gwlad â 32 o etholaethau, y byddai'r dref sydd 12fed ymhlith trefi mwyaf Cymru yn gallu cael ei hetholaeth ei hun, ond nid felly y mae. Rydym yn deall yr anawsterau rydych yn eu hwynebu, ac mae'n debyg bod yn rhaid ei chysylltu â rhyw anheddiad arall, rhyw dref arall, yn rhyfedd iawn, ond yn ein barn ni, nid oes angen ei darnio, sef beth sy'n digwydd ar hyn o bryd. Mae'n cael ei hychwanegu at ryw fan arall, ond ar ben hynny, mae'n cael ei chanibaleiddio, ond mae dau awgrym ar gyfer unioni'r sefyllfa honno. Rwy'n mynd i siarad yn bennaf am yr awgrym llai, ond mae awgrym mwy radical hefyd, y mae Dinah eisoes wedi cyfeirio ato. Rwy'n meddwl eich bod eisoes yn deall bod y prif fater yn ymwneud â dwy ward Aberaman, sy'n rhan annatod o Aberdâr. Mae'r rhan fwyaf o Ogledd Aberaman 15 munud ar droed o ganol y dref. Nid yw'r ardal gyfan fwy na milltir neu ddwy o ganol y dref. Mae pawb yn siopa yn Aberdâr, nid oes unrhyw un yn mynd i Bontypridd, nid oes unrhyw un yn mynd at y meddyg ym Mhontypridd, mae'r holl wasanaethau lleol wedi'u gosod yn Aberdâr. Bydd preswylwyr Cwmbach, a fydd yn aros yn etholaeth Aberdâr Merthyr, yn siopa yn yr un Asda â phobl Aberaman, ac mae pobl o'r ddwy ward yn cefnogi Côr Meibion Cwmbach neu'n aelodau o'r côr hwn. Felly, ceir sgism ar draws cymuned. Mae meysydd Clwb Rygbi Aberdâr a Chlwb Pêl-droed Tref Aberdâr wedi'u lleoli yn Ne Aberaman. Felly. Rwyf bob amser wedi meddwl mai Alun Lewis oedd bardd mwyaf Prydain o gyfnod yr Ail Ryfel Byd, a chafodd ei eni yng Nghwmaman, ond mae'r holl fywgraffiadau yn dweud ei fod o Aberdâr. Ond yr un lle ydyn nhw. Felly, mae cymryd dwy ardal Aberaman allan o'r etholaeth a'u gosod ym Mhontypridd, yn ôl fy sgyrsiau â phreswylwyr lleol, wel, yr ansoddair a ddefnyddiwyd ganddynt fwyaf am hyn oedd 'gwallgof'. Bydd yn gwneud i bobl deimlo eu bod wedi'u difreinio, oherwydd ni fyddant yn disgwyl i AS dros Bontypridd fod â'r un diddordeb yn eu materion ag AS dros Aberdâr, a bydd yn gwanhau eu hymlyniad i'w hetholaeth Seneddol. Rwy'n meddwl bod risg wirioneddol y bydd yn lleihau eu hymlyniad i'r system etholiadol yn ei chyfanrwydd. Byddai adfer Aberaman i etholaeth Aberdâr a Merthyr yn trosglwyddo tua 7,000 o etholwyr, a gellir gwneud yn iawn am hanner y nifer hwnnw wrth drosglwyddo Nelson i Bontypridd. Nid yw Nelson ym Mro Merthyr, ni cheir unrhyw ymlyniad arbennig rhwng Nelson a Merthyr, ac fe'i lleolir chwe milltir o Bontypridd. Felly, dyna gyfnewidiad amlwg iawn, na fyddai'n tramgwyddo unrhyw un, yn fy marn i. Byddai hynny'n gadael Merthyr ac Aberdâr ymhell o fewn y terfynau rhagnodedig; byddai'n gadael Pontypridd ychydig islaw'r terfynau, ond mae nifer o atebion posibl. Un ohonynt fyddai adfer Ffynnon Taf i Bontypridd, ond deallaf y bydd hynny'n achosi problemau yn etholaeth Gogledd Caerdydd. Yr ateb symlach arall fyddai gosod Treharris, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, ym Mhontypridd, yn hytrach nag ym Merthyr. Lleolir Treharris yng

ngwaelod Bro Merthyr, gan ymestyn i gyfeiriad Rhymni, nid oes unrhyw gysylltiad cryf â Merthyr, ac mewn gwirionedd, mae'n agosach, yn ffisegol, at Bontypridd, ac yn gynyddol, mae'r bobl yn edrych tua'r de am wasanaethau a siopa ac yn y blaen, felly nid wyf yn meddwl y byddai hynny'n achosi unrhyw broblem fawr. Nawr, pe byddech yn gwneud hynny, symud Treharris i Bontypridd, byddwch yn mynd â Merthyr Aberdâr i lawr i derfyn isaf y cyfyngiad a ganiateir, sef tua 69,000. Felly, bydd o fewn y 5%. Ond mae'n rhaid i rywle fod yr etholaeth leiaf, felly nid wyf yn meddwl bod hynny'n dyngedfennol. Os ydych yn pryderu am hynny, y peth amlwg i'w wneud yw rhannu Treharris, sy'n ward fawr â 5,000 o bobl, y mae rhan ohoni ym Mro Merthyr a rhan ohoni y tu hwnt. Unwaith eto, rwy'n meddwl y gellir ei rhannu, ac wrth wneud hynny, gallech gydbwyso'r ddwy etholaeth, Pontypridd a Merthyr Aberdâr, yn berffaith. Rwy'n meddwl bod unrhyw un o'r atebion hyn yn well na chymryd Aberaman allan o Aberdâr. Mae anfanteision yn perthyn i bob ateb, ond nid yw'r un ohonynt mor ffyrnig â'r cynnig yn ymwneud ag Aberaman. Mae pob un o'r atebion yn well na chanibaleiddio Aberdâr. Fel y dywedodd Dinah eisoes, mae llawer o breswylwyr Cwm Cynon yn gresynu at rannu tref Aberdâr oddi wrth Aberpennar, gan eu bod yn rhannu'r un cwm ac wedi bod gyda'i gilydd erioed. Ac mae ffafriaeth yn y cwm, rwy'n meddwl, i'r dewis arall sy'n cysylltu'r dref ag etholaeth Pontypridd yn hytrach na Merthyr. Mae tair mantais fawr i hyn. Mae'n creu etholaeth sy'n adlewyrchu ac yn parchu ffiniau'r awdurdod lleol. Byddai o fewn RhCT. Mae'n cadw cymuned Cwm Cynon, ac mae ei ffurf linellol yn dilyn cysylltiadau trafnidiaeth a daearyddiaeth y rhanbarth. Wrth gwrs, ychwanegir 20,000 o etholwyr at Bontypridd, ond o safbwynt etholwyr Pontypridd, rwy'n meddwl y gellir unioni hyn yn weddol hawdd. Er enghraifft, mae gennych ward Rhondda a fyddai'n mynd yn naturiol i etholaeth Rhondda, ac mae gennych Lantrisant a Thonysguboriau, sydd braidd yn anghysbell beth bynnag, a heb unrhyw gysylltiad naturiol â Phontypridd. Gellir eu cynnwys yn hawdd ym Mro Morgannwg, ac ni fyddai unrhyw un o'r symudiadau hyn yn mynd y tu hwnt i'r terfynau etholaethol, oherwydd mae'r Fro a Rhondda yn etholaethau gweddol fach. Gellir trosglwyddo ward gyfan o'r de, neu ran o un o'r wardiau hynny, i ymuno â Ffynnon Taf yng Ngogledd Caerdydd. Mae sefydlu etholaeth Pontypridd o faint digonol yn gymharol hawdd ei wneud. Credaf fod hynny'n welliant amlwg ar y cynigion presennol. Ond ni allwn guddio'r anhawster y mae'n ei achosi i chi, sef beth i'w wneud â Merthyr. Byddai etholaeth Merthyr ymhell islaw'r maint gofynnol, ac i ddatrys hynny, byddai angen adfer y cysylltiad â Chwm Rhymni, a fyddai'n gofyn am newidiadau gweddol helaeth i wardiau yng Ngwent, felly gallaf ddychmygu eich calonnau'n suddo wrth feddwl am hyn. Serch hynny, byddai gwneud hyn yn adfer cyfeiriadedd y gogledd i'r de yn yr etholaethau yn ardal ganolog y cymoedd, a byddai'n parchu daearyddiaeth a chysylltiadau trafnidiaeth. A byddai'n helpu i gadw, nid yn gyfan gwbl, ond byddai'n helpu i gadw'r aliniad â ffiniau awdurdodau lleol. Felly, er bod problemau i'w datrys, rwy'n gobeithio y bydd y Comisiynwyr yn ystyried hyn, o leiaf. I grynhoi, yn fy marn i, byddai'n ddymunol iawn cynnal cyfanrwydd Cwm Cynon mewn etholaeth sy'n mynd o'r gogledd i'r de o fewn RhCT. Ond beth bynnag, pa ffordd bynnag yr ewch, rwy'n meddwl ei bod yn hanfodol nad yw'r Comisiwn yn darnio Aberdâr ei hun a bod y dref gyfan, gan gynnwys wardiau Aberaman, yn aros o fewn yr un etholaeth.

AC1: Diolch yn fawr i chi. A oes unrhyw gwestiynau am eglurhad o'r llawr? Mr Phillips?

SP: Diolch. Pwynt o eglurhad yn unig, mewn gwirionedd. Efallai fy mod wedi camddeall hyn, ond rwy'n meddwl y clywais ddau beth gwahanol. Mae cysylltiad amlwg

rhwng Aberaman ac Aberdâr. Felly, a ydym yn dweud mai'r flaenoriaeth yw cael Cwm Cynon, neu gymaint ohono â phosibl, yn yr un etholaeth? Ac mae gennym Ferthyr Tudful ac Aberdâr ar y bwrdd ar hyn o bryd? Neu a ydym yn dweud bod ffafriaeth yn y cwm, fel y dywedoch, o blaid mynd i'r de tuag at Bontypridd?

GH: Rwy'n meddwl bod y ddau ddatganiad hyn yn wir. Rwy'n meddwl bod ffafriaeth o blaid mynd i'r de tuag at Bontypridd.

SP: Ond yn y pen draw, mae'n rhaid i ni ddewis.

GH: Wel, y pwynt yw, nid ydym, nid wyf wedi gwneud yr holl waith sy'n ofynnol yng Ngwent [Chwerthin], i roi-

SP: Iawn.

GH: I roi model hollol gyson i chi. Rwy'n ymwybodol y gallwn roi trefn ar Bontypridd, ond o ran beth i'w wneud â Merthyr, mae'n rhywbeth nad ydym mewn gwirionedd wedi…

SP: Iawn.

GH: Wedi gweithio ar y peth, hyd yn hyn. Felly, rwy'n meddwl fy mod ychydig yn [?3.53.51] ynghylch dweud y dylech chi wneud hyn â'r llall, oherwydd ni allaf ategu hynny. Ond ie, os yw'n bosibl, rwy'n meddwl y byddai'n well pe bai'r cwm yn edrych tua'r de i Bontypridd. Ond rwy'n meddwl os oes rhaid rhannu'r cwm, mae'r rhaniad presennol yn arbennig o greulon. Rhaid i chi beidio â chymryd Aberaman allan o Aberdâr.

SP: Iawn, diolch i chi.

AC1: Diolch yn fawr i chi.

[Saib 03:54:16 hyd 03:54:24]

AC1: Y siaradwr nesaf yw Katherine Whitehead.

[Saib 03:54:27 hyd 03:54:36]

AC1: Nid wyf yn siŵr a oeddech chi yma yn gynharach, Mrs Whitehead, pan ddywedais fod gennych… Rhowch eich enw, eich ardal breswyl, nid eich cyfeiriad llawn, unrhyw ymlyniadau sydd gennych, neu os ydych yn siarad fel unigolyn. Mae gennych 10 munud i siarad. Bydd y fenyw sy'n eistedd ar y chwith i chi yn rhoi rhybudd pan fydd gennych ddau funud ar ôl.

KW: Diolch i chi.

AC1: Diolch i chi.

KW: Fy enw i yw Katherine Whitehead ac rwy'n siarad ar ran Plaid Lafur Preseli Penfro, fel ei hysgrifennydd. Rwy'n byw yn Sir Benfro. Rwy'n byw yn Nhrewyddel, nad yw'n bell o Aberteifi. Rydym wedi ymgynghori â'n haelodau a hoffem gynnig bod

wardiau Tyddewi, Solfach a Threletert yn cael eu symud i etholaeth Canol a De Sir Benfro, a bod ward Maenclochog yn symud i etholaeth Ceredigion Preseli. Yn y bôn, mae hyn oherwydd bod problemau gwirioneddol ag etholaeth arfaethedig Ceredigion Preseli. Edrychaf ar yr ystyriaethau daearyddol yn gyntaf. Mae'r etholaeth arfaethedig yn hir ac yn gul. Mae'n 84 milltir o hyd, sef taith o ddwy awr a hanner, yn ein barn ni, o un pen i'r llall. Mae etholaeth o'r fath faint a ffurf yn ei gwneud yn anodd i etholwyr gyfarfod, ac mae hefyd yn gwneud bywyd yn anodd iawn i gynrychiolwyr. Er mae'n wir dweud bod ffordd a ddosberthir fel ffordd A yn mynd i lawr arfordir y gorllewin, mae hon yn ffordd araf iawn mewn gwirionedd. Nid yw'n ffordd gyflym ar gyfer mynd o Aberystwyth i Dyddewi, ac ychydig iawn o bobl fydd yn gwneud hynny'n aml iawn. Mae nifer o fannau cyfyng le nad yw'r ffordd yn caniatáu traffig i'r ddau gyfeiriad, ac mae hyn yn anarferol iawn ar ffordd A. Er enghraifft, yng Nghwm Abergwaun, mae tro sydyn i'r chwith ac un i'r dde, a lle ar gyfer un lôn o draffig yn unig. Mae amseroedd teithio yn araf iawn mewn gwirionedd. Ac mae'r dirwedd yn wahanol hefyd. Mae'r tirweddau gwahanol ar draws y ddwy sir yn golygu bod anghenion a diddordebau gwahanol ymhlith y poblogaethau lleol, o ddaearyddiaeth ffisegol Mynydd Preseli yng Nghrymych, ar draws ac i lawr i Drefdraeth, ac mae nodweddion a rennir ag ucheldiroedd Ceredigion, ond nid yr un dirwedd yw iseldir Penrhyn Tyddewi. Nid yw Penrhyn Tyddewi ym Mhreseli. Gan droi at yr enw, yr enw arfaethedig. Mae gan dirwedd Penrhyn Tyddewi fwy yn gyffredin â gweddill etholaeth arfaethedig Canol a De Sir Benfro. Ac os meddyliwch am yr arfordir, mae arfordir gogleddol Sir Benfro, Gogledd Abergwaun, yn wynebu tua'r gogledd at Fae Ceredigion, fel y mae Ceredigion, ond os edrychwch i lawr i Dyddewi a Solfach, mewn gwirionedd, maent ym Mae Sain Ffraid, sy'n wynebu'r gorllewin, ac allan ar draws yr Iwerydd. Mae'n lleoliad hollol wahanol. Felly, dyna'r ystyriaethau ar gyfer y tair ward hyn. Mae Treletert ar gyrion Hwlffordd, sy'n rhan o Ganol a De Sir Benfro. O ran ward Maenclochog, sydd wedi'i chynnwys yn y cynigion ar gyfer Canol a De Sir Benfro, mae gweddill Mynydd Preseli wedi'i gynnwys yng Ngheredigion Preseli, felly pam eithrio'r rhan hon o Fynydd Preseli? Mae gwneud hyn yn torri rhan o'r Parc Cenedlaethol i ffwrdd, oherwydd mae Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn cymryd Mynydd Preseli i mewn i'w gwmpas wrth fynd i mewn i'r tir yn y man hwnnw. Mae'n ymddangos i mi yn eithaf trwsgl. Ac yn olaf, wrth gynnwys Maenclochog yng Ngheredigion Preseli, rydych yn helpu drwy wneud yr etholaeth yn fyrrach ac yn llai cul, yn y man hwnnw o leiaf. Ac mae cwestiwn arall, sef cysylltiadau lleol; mae wardiau Tyddewi, Solfach a Threletert yn cyfeirio tuag at Hwlffordd, yn hytrach nag Aberteifi. Mae pobl o'r wardiau hyn yn mynd i siopa yn Hwlffordd. Ond mae gan Faenclochog gysylltiad llawer agosach â Chrymych ac Aberteifi. Rwy'n gwybod bod swyddfa etholiadau Sir Penfro hefyd wedi tynnu sylw at y problemau hyn o ran maint a natur hirfain etholaeth arfaethedig Ceredigion Preseli a'r effaith ar gysylltiadau lleol. Yn ogystal, sylwais fod nifer o gyflwyniadau gan aelodau'r cyhoedd o blaid cynnwys Maenclochog yng Ngheredigion Preseli, ac mae nifer hefyd o blaid cynnwys y wardiau perthnasol a Phenrhyn Tyddewi yng Nghanol a De Sir Benfro, sef yr hyn a gynigiwn yma, a diwygio ffin yr etholaeth yn unol â'ch cyfyngiad, heb effeithio ar ddwy etholaeth Sir Gaerfyrddin. Pe bai'r cyfyngiad hwnnw'n cael ei ddileu, gallech feddwl am bethau eraill, ond dyma'r trefniant gorau yn ein barn ni, yn unol â'r cyfyngiad hwnnw. Ac mae'n cadw nifer yr etholwyr yn y ddwy etholaeth o fewn yr amrediad gofynnol. Felly, dyna beth sydd gennyf i'w ddweud. [Chwerthin].

AC1: Diolch yn fawr i chi. Unrhyw bwyntiau o eglurhad gan unrhyw un yn yr ystafell? Neu'r panel?

SP: Na.

AC1: Diolch yn fawr i chi am ddod yma heddiw.

ANHYSBYS: [Anghlywadwy 04:01:25].

AC1: Nid y fenyw hon.

ANHYSBYS: Iawn.

AC1: Diolch yn fawr i chi. Nid oes gennym siaradwr arall wedi'i restru tan ddeng munud wedi chwech, felly mae'r cyfarfod hwn yn cymryd egwyl tan ddeng munud wedi chwech, pan fyddwn yn ailddechrau. Diolch.

KW: Diolch i chi am eich amser.

AC1: Diolch i chi.

[Egwyl]

AC1: Noswaith dda. Mae hwn yn wrandawiad cyhoeddus ar gyfer y Comisiwn Ffiniau i Gymru. Fy enw yw Andrew Clemes. Rwy'n Gomisiynydd Cynorthwyol. Mae'r panel yn cynnwys fy nghyd Gomisiynydd Cynorthwyol Steven Phillips, yn ogystal â Shereen Williams, sy'n ysgrifennydd y Comisiwn Ffiniau i Gymru. Mae gennym siaradwr ar gyfer 20 munud wedi chwech, Mr Deluc, sydd wedi cyrraedd. A yw'n iawn i chi siarad ychydig funudau'n gynnar?

JD: Ie, mae hynny'n iawn.

AC1: Hoffwn esbonio, mae gennych slot 10 munud ar y podiwm, a phan fyddwch yn cyrraedd y podiwm, rhowch eich enw, eich ardal breswyl, nid eich cyfeiriad, a nodwch a ydych yn siarad fel unigolyn neu fel rhan o unrhyw sefydliad. Bydd y fenyw ar y chwith i chi yn dweud wrthych pan fydd gennych ddau funud ar ôl.

JD: Iawn.

AC1: Iawn? Felly, pan fyddwch yn barod, dechreuwch, diolch.

JD: Iawn. Jacob Deluc wyf i. Un o breswylwyr Gorllewin Abertawe ar hyn o bryd, canol y ddinas. Rwy'n siarad fel unigolyn, felly ni fyddaf yn hir, rwy'n siŵr eich bod wedi cael diwrnod hir heddiw. Rwy'n cefnogi cynnig y Comisiwn ar gyfer y newidiadau i'r ffiniau yn Abertawe. Yng Ngorllewin Abertawe a Gŵyr, mae gan Sgeti, Cocyd a Phontybrenin ffiniau daearyddol naturiol â'r wardiau i'r gorllewin yng nghanol dinas Abertawe. Ni fyddwn yn dweud nad oes unrhyw breswylwyr, mae llawer o breswylwyr Abertawe yn ystyried eu hunain yn breswylwyr canol y ddinas. Ymhellach i'r gorllewin. Mae fy holl ffrindiau yn Sgeti yn teithio i'r Mwmbwls ar gyfer eu siopa beunyddiol, ac mae cymuned Derwen Fawr dafliad carreg i ffwrdd o Heol y Mwmbwls, i lawr Heol y Mwmbwls o Stryd Fawr y Mwmbwls. Ynglŷn â

wardiau canol a gogledd Abertawe, mae gan wardiau'r Castell ac Uplands boblogaeth ddwys iawn, yn union wrth ymyl ei gilydd yng nghanol y ddinas heb unrhyw wahaniad naturiol rhwng y ddwy. Yn ward y Castell, mae gan y gymuned [anghlywadwy 04:04:17] gysylltiadau agos iawn â Townhill a llawer o brosiectau allgymorth cymunedol yn Townhill, sydd hefyd yn cwmpasu [anghlywadwy 04:04:24]. [Anghlywadwy 04:04:27] nid oes gan y gymuned ychwaith unrhyw dafarndai ac mae'r dafarn agosaf wedi'i lleoli ar Heol Castell-nedd yn [anghlywadwy 04:04:34] yn ward Glandŵr. Ac mae'r cymunedau hyn yn cydblethu'n ddyddiol. Felly, rwy'n cefnogi'r gymuned, a chynnig y Comisiwn o ran newid y ffiniau. A dyna'r diwedd.

AC1: Diolch yn fawr i chi. Unrhyw gwestiynau?

JD: Ie, unrhyw gwestiynau?

AC1: Dim cwestiynau neu bwyntiau o eglurhad? Diolch i chi am ddod.

JD: Gwych, diolch i chi am wrando.

AC1: Diolch yn fawr i chi.

[Saib 04:05:02 hyd 04:05:21]

SW: Mae'r siaradwr nesaf, Will Thomas, wedi canslo, ac nid yw Denise Thomas wedi ymddangos, felly...

[Siarad ar draws 04:05:25]

SW: Nid yw Will Thomas yn dod, mae wedi canslo.

AC1: Nid yw wedi dod?

SW: Mae wedi canslo. Mewn gwirionedd-

AC1: Mae wedi canslo, ydi.

SW: Ie, [anghlywadwy 04:05:31]

AC1: Y sefyllfa, at ddibenion y ffrydio byw, yw nad yw'r siaradwr ar gyfer deng munud wedi chwech wedi ymddangos, ac mae'r siaradwr ar gyfer hanner awr wedi chwech bellach wedi canslo'n ffurfiol, felly rydym yn mynd i gymryd egwyl eto ar yr un sail ag o'r blaen, os bydd rhywun yn ymddangos, byddwn yn gwrando arnynt, wrth gwrs, yn eu gwahodd i mewn, ond ar hyn o bryd, mae'r gwrandawiad cyhoeddus yn cymryd egwyl.

[Daw'r trawsgrifiad i ben ar 04:05:52]

Comisiwn Ffiniau i Gymru

Boundary Commission for Wales

Mae'r Comisiwn yn croesawu gohebiaeth, e-byst a galwadau ffôn yn Gymraeg neu Saesneg.
Er mwyn cysylltu gyda'r Comisiwn, ysgrifennwch i:

Comisiwn Ffiniau i Gymru
Llawr Gwaelod, Ty Hastings, Llys Fitzalan
Caerdydd, CF24 0BL

Rhif Ffon: +44 (0)29 20464819
Rhif Ffon: +44 (0)29 21055521
E-bost: bcw@ffiniau.cymru

© Hawlfraint y Goron 2022